

*Datganiad  
Cyfrifon  
Blwyddyn Ariannol  
2009/2010*

*A H Kirkham BA (Hons) CPFA*

*Head of Financial Services*



# DATGANIAD CYFRIFON 2009/10

## CYNNWYS

	<u>TUDALEN</u>
CYFLWYNIAD	5
RHAGAIR EGLURHAOL	6 – 11
DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL	12 – 36
DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R DATGANIAD CYFRIFON	37 - 38
- CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD	37
- CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG ADRAN 151	38
ADRODDIAD YR ARCHWILIAD	39 - 40
DATGANIAD O EGWYDDORION A PHOLISIŶAU CADW CYFRIFON	41 - 48
DATGANIADAU CRAIDD:	
- CYFRIF INCWM A GWARIANT	49
- DATGANIAD AR SYMUDIADAU BALANS CRONFA'R CYNGOR	50
- DATGANIAD AR GYFANSWM ENILLION A CHOLLEDION CYDNABYDDEDIG	51
- Y FANTOLEN	52 – 53
- DATGANIAD YNGLŶN Â LLIF ARIAN	54
NODIADAU AR Y DATGANIADAU CRAIDD:	
- NODIADAU AR Y CYFRIF INCWM A GWARIANT	55 – 72
- NODIADAU AR Y FANTOLEN	72 – 89
- NODIADAU PENSIWN	89 – 92
- NODIADAU OFFERYNNAU ARIANNOL	93 – 98
- NODIADAU AR Y DATGANIAD YNGLŶN Â LLIF ARIAN	99 – 101
- NODIADAU ARALL	102
CYFRIF REFENIW TAI	103 – 104
CRONFA'R DEGWM	105 – 108
YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG LLANRWST	109 - 110



## **CYFLWYNIAD**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n awdurdod unedol yn darparu'r holl brif wasanaethau llywodraeth leol, megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol, hamdden, tai, cynllunio a phriffyrdd.

Mae poblogaeth o tua 112,000 ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae tua 80% o'r boblogaeth yn byw ar hyd y llain arfordirol sy'n mesur 75m ac sy'n cynnwys trefi Abergele, Bae Colwyn a Llandudno. Mae gweddill y boblogaeth wedi ei gwasgaru ar draws yr ardal sy'n ymestyn o Ddolwyddelan yn y de-orllewin a Llangwm a Dinmael yn y de-ddwyrain. Mae tua thraean o drigolion Conwy'n siarad Cymraeg a thua hanner y boblogaeth yn y Fwrdeistref Sirol wedi eu geni yng Nghymru.

### **Llywodraethu Gwleidyddol**

Mae 59 o Gynghorwyr etholedig yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n cynrychioli 38 o ranbarthau etholiadol. Dyma strwythur gwleidyddol presennol y Cyngor:

- 20 Ceidwadwyr
- 14 Annibynnol
- 14 Plaid Cymru
- 7 Llafur a
- 4 Democratiaid Rhyddfrydol

### **Cyngor Llawn**

Y Cyngor Llawn (59 o Gynghorwyr) sy'n pennu'r gyllideb a'r polisiâu cyffredinol. Mae'n cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn, ac yn trafod y gwahanol opsiynau ar gyfer materion pwysig sy'n wynebu'r fwrdeistref sirol. Mae'r Cyngor Llawn yn penodi Arweinydd y Cyngor ac Aelodau eraill y Cabinet, ac yn dyrannu cyfrifoldebau (portffolios) i Aelodau Cabinet. Y Cyngor Llawn hefyd yw canolbwynt unrhyw drafodaeth am berfformiad y Cabinet.

### **Cabinet**

Mae'r Cabinet yn cynnwys deg o Gynghorwyr ynghyd ag Arweinydd y Cyngor sy'n cadeirio cyfarfodydd y Cabinet. Mae gan bob un o'r Aelodau Cabinet bortffolio penodol o gyfrifoldeb ar gyfer meysydd gwasanaeth y Cyngor.

## RHAGAIR EGLURHAOL

1. Bwriad Datganiad Cyfrifon y Cyngor yw darparu gwybodaeth glir ynglŷn ag effaith ariannol gweithgareddau'r Cyngor yn ystod y cyfnod dan sylw, ar ffurf sy'n hawdd ei deall.
2. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â Chod Ymarfer Cyfrifeg Awdurdod Lleol 2009 (SORP), sy'n rhoi canllawiau ynglŷn â'r lleiafswm lefelau gwybodaeth i'w darparu, a'r Cod Ymarfer Cyfrifeg Gwerth Gorau (BVACOP).
3. Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys y datganiadau ariannol canlynol:-

### a) **Datganiad cyfrifoldebau'r Datganiad Cyfrifon**

Mae'n nodi cyfrifoldebau'r Cyngor a'i swyddogion wrth baratoi a chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

### b) **Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Mae'r datganiad hwn yn darparu adolygiad parhaus o effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys y system reolaeth fewnol a'r systemau rheoli risg, er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â'u heffeithiolrwydd a/neu gynhyrchu cynllun gweithredu rheoli i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

### c) **Egwyddorion a pholisïau'r Datganiad Cyfrifon**

Pwrpas y Datganiad yw esbonio sail y ffigurau yn y Cyfrifon. Mae'n amlinellu'r polisïau cyfrifeg sydd wedi'u mabwysiadu.

### d) **Y Datganiadau Cyllid 'craidd'**

#### 1. Y Cyfrif Incwm a Gwariant

Mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r incwm a'r gwariant i gynnal gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd. Ar gyfer 2009/10, dangosodd yr Awdurdod ddiffyg o £32.948m ar y Cyfrif Incwm a Gwariant (2008/09 - £116.865m). Mae angen cymryd gofal wrth ddehongli'r datganiad oherwydd fod cost y gwasanaethau a ddangosir yn cynnwys eitemau sydd ddim yn cael eu hariannu yn uniongyrchol gan dalwyr Treth y Cyngor. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys dibrisiad ac amhariad ar asedau sefydlog sy'n eiddo i'r Awdurdod ac amcan cost y diffyg ar y cynllun pensiwn.

Ond, nid yw hyn yn adlewyrchu sefyllfa ariannol lawn y Cyngor, a esboniwyd yn y datganiad canlynol.

#### 2. Datganiad Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor

Dylid darllen y datganiad hwn gyda'r Cyfrif Incwm a Gwariant. Mae'n dangos addasiadau i'w gwneud i'r balans ar y cyfrif Incwm a Gwariant er mwyn esbonio sut y mae cost y gwasanaethau wedi'u hariannu gan grantiau llywodraeth cyffredinol a gan dalwyr treth lleol. Mae hyn yn dangos fod cyfanswm balans cronfa'r Cyngor wedi lleihau £359mil. Mae hen yn cynnwys lleihad o £210mil ym malansau'r ysgolion a lleihad o £149mil yn y balans sydd ar gael yn gyffredinol.

#### 3. Datganiad Cyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddedig

Mae'r datganiad hwn yn uno'r balans ar y cyfrif Incwm a Gwariant gydag enillion a cholledion eraill yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, fel y rhai sy'n deillio o ailbrisiad asedau sefydlog. Mae'r datganiad yn dangos cyfanswm y symudiad yng ngwerth net yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn, sy'n leihad o £78m.

#### 4. Mantolen

Mae'n dangos sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2010, lle'r oedd diffyg ariannol net o -£52.8m. Mae'r fantolen yn crynhoi asedau a chyfrifoldebau'r Cyngor, y balansau a'r cronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor i'w defnyddio, y dyledion tymor hir a'r asedau sefydlog a net sy'n cael eu defnyddio yng ngweithgareddau'r Cyngor.

#### 5. Datganiad Llif Arian

Mae hwn yn esbonio'r sefyllfa ariannol mewn arian ac yn dangos fod sefyllfa ariannol y Cyngor wedi lleihau £340mil.

#### 4. **Ariannu Gwasanaethau'r Cyngor**

Mae gan y Cyngor ddau fath o wariant – gwariant refeniw a gwariant cyfalaf.

Mae **Gwariant Refeniw** yn ymwneud â gwariant ar gostau gwasanaethau o ddydd i ddydd, fel cyflogau staff, cynnal adeiladau a chyflenwadau ac offer cyffredinol. Mae'r gwariant yn cael ei ariannu gan incwm treth y cyngor, talwyr trethi busnes, ffioedd a thaliadau am wasanaethau penodol, a grantiau gan y llywodraeth.

Mae **Gwariant Cyfalaf** ym ymwneud â gwariant ar asedau fel ffyrdd, ailddatblygu a gwaith adnewyddu mawr ar adeiladau. Bydd yr asedau yn darparu manteision i'r gymuned am sawl blwyddyn a bydd y gwariant yn cael ei ariannu yn bennaf gan fenthyciadau a grantiau cyfalaf.

#### 4.1 **Adolygiad o'r Flwyddyn – Gwariant Refeniw**

Yn wreiddiol pennwyd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2009/10 yn £181.7m (£177.7m yn 2008/09) a rhoddwyd ystyriaeth i gynnydd mewn prisiau a dyfarniadau tâl hysbys a rhai a amcangyfrifwyd.

Pennwyd y gyllideb yn erbyn cefndir o setliad ariannol gwael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gweithredwyd pecyn arbedion ac effeithlonrwydd heriol er mwyn pennu'r gyllideb o fewn yr adnoddau oedd ar gael.

Cafodd y gyllideb ei monitro a'i rheoli'n fanwl yn ystod y flwyddyn, yn unol â gweithdrefnau a gymeradwywyd gan y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn ariannol roedd pwysau ar y gyllideb yn sgil effeithiau'r dirwasgiad ar incwm y Gwasanaethau Rheoleiddio a llog ar fuddsoddiadau. Canfuwyd gorwariant yng Ngwasanaethau Oedolion y Gwasanaethau Cymdeithasol, ond cawsant eu hariannu gan arbedion yn rhannau eraill o gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ariannwyd gorwariant costau cynnal yn y gaeaf yn y Gwasanaethau Isadeiledd o'r Gronfa Risg a Arweiniwyd gan y Galw a'r Chronfa'r Cyngor. Hefyd, mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth ar gyfer atebolrwydd sy'n ofynnol gan ddeddf ar gyfer atebolrwydd yn y dyfodol, gan gynnwys costau gweithredu'r strwythur cyflogau a graddfeydd newydd wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2009.

Cyfanswm gwariant net gwirioneddol oedd £181.565m, ac mae'n braf nodi bod y Cyngor wedi sicrhau cyfanswm gwariant net o fewn y gyllideb, er gwaethaf yr amrywiadau arferol o orwario a thanwario mewn gwasanaethau unigol. Dangosir isod brif elfennau'r gyllideb refeniw ar gyfer 2009/10 a sut y mae'r rhain yn cymharu â'r ffigurau terfynol gwirioneddol:

Col 1	Col 2	Col 3	Col 4	Col 5	
GWASANAETH	AMCANGYFRIF GWREIDDIOL	SEFYLLFA A GYMERADWYWYD YN CHWEFROR	FFIGURAU TERFYNOL	AMRYWIAD (Col 4 - Col 3)	NODIADAU
	2009/10 £'000	2009/10 £'000	2009/10 £'000	2009/10 £'000	
<b>Sylfaen Adnoddau</b>					
Grant Cymorth Refeniw	(112,547)	(112,547)	(112,547)	0	
Grant NNDR	(30,633)	(30,633)	(30,633)	0	
Treth y Cyngor	(38,485)	(38,485)	(38,385)	100	1
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>(181,665)</b>	<b>(181,665)</b>	<b>(181,565)</b>	<b>100</b>	
<b>Gweithgareddau</b>					
Cyfraniad o'r balans a ddygwyd ymlaen	0	(149)	(149)	0	
Cyfraniad o gronfeydd					
- Cronfa Treth y Cyngor	0	0	(100)	(100)	1
- Cronfa Rheoli'r Trysorlys	0	(200)	(200)	0	
Gwasanaethau Addysg	70,184	70,184	70,180	(4)	
Gwasanaethau Cymdeithasol	44,696	45,019	44,979	(40)	2
Isadeiledd -Priffyrdd/Tai Sector Preifat	11,095	11,333	11,361	28	3
Addysg	12,643	12,668	12,668	0	
Gwasanaethau Datblygu Cymunedol	6,905	7,440	7,440	0	
Gwasanaethau Rheoleiddio	4,077	4,424	4,424	0	
Theatrau a'r Ganolfan Gynadledda	1,136	1,150	1,150	0	
Gwasanaethau Cefnogi Ardollau	10,849	10,373	10,346	(27)	4
Gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys a chostau a gweithgareddau Corfforaethol eraill	5,889	5,889	5,843	(46)	5
	14,191	13,534	13,623	89	6
<b>Cyfanswm</b>	<b>181,665</b>	<b>181,665</b>	<b>181,565</b>	<b>(100)</b>	

### Nodiadau

1. Colledion ar gasgliadau yn uwch na ragdybiwyd, a bydd y diffyg yn cael ei ariannu trwy ddefnyddio'r gronfa a glustnodwyd
2. Incwm Gwasanaethau Oedolion ychwanegol gan gleientiaid
3. Costau cysylltiedig â'r gaeaf garw yn uwch na'r disgwyl
4. Costau ynni eiddo ychwanegol wedi'u talu gan arbedion eraill
5. Lleihad yng nghostau trethi (Parciau Cenedlaethol a chrwner)
6. Cyfraniad ychwanegol i'r gronfa Gwerthuso Swyddi (adroddiad 9 Chwefror 2010)

Mae gweddill Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn fesur o'r arian wrth gefn heb ei ymrwymo sydd gan y Cyngor i ateb gofynion llif ariannol a digwyddiadau na ellir eu rhagweld yn y dyfodol. Roedd gweddi cronfa'r Cyngor yn £2.85 miliwn ddiwedd y flwyddyn, ac ystyrir mai hwn yw'r swm darbodus lleiaf. Dangosir cronfeydd wrth gefn eraill yn



## 5. Atebolrwydd Pensiwn – Safon Adrodd Ariannol 17 (FRS17)

Mae'r Cyfrifon, fel y cyflwynir hwy, yn cydymffurfio â gofynion y safon uchod gan eu bod yn adlewyrchu yn y cyfrifon refeniw cost flynyddol gyfredol y ddarpariaeth pensiwn i weithwyr fel y cynghorir gan actwari'r Cyngor. Mae'r Datganiadau hefyd yn cynnwys, o fewn y Fantolen, asesiad yr actwari o gyfran yr Awdurdod o atebolrwydd y Gronfa Pensiwn ar 31 Mawrth 2010 a'r gronfa wrth gefn sydd ei hangen i ariannu'r atebolrwydd hwnnw.

Mae'r rhwymedigaethau Cronfa Pensiwn sy'n cael ei nodi ar y Fantolen yw'r cyfanswm diffyg a ragamcanwyd yn ystod oes ddisgwyliedig y gronfa. Bydd y diffyg hwn yn newid yn flynyddol yn dibynnu ar berfformiad y buddsoddiadau a thybiaethau actiwari a wneir o ran y pensiynwyr presennol, pensiynwyr sydd wedi gohirio'u pensiwn a gweithwyr presennol. Yn 2009/10 roedd cynnydd anghyfartal yng ngwerth rhwymedigaeth y gronfa oherwydd y sefyllfa economaidd sydd ohoni ac mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn rhwymedigaeth net.

Mae'r gronfa'n amodol ar brisant bob tair blynedd sy'n asesu cyflwr y gronfa pensiwn ar y pryd ac yn gwneud argymhellion i'r gwahanol gyrff sy'n rhan o'r gronfa ynglŷn â chyfradd briodol cyfraniadau cyflogwyr er mwyn adfer y gronfa i sefyllfa gytbwys dros gyfnod o amser.

Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun statudol, ac yn hynny o beth, drwy ddeddfwriaeth yn unig y gellir newid buddion a gronnir o dan y cynllun.

## 6. Gwariant Cyfalaf

Y ogystal â gwario arian i ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor hefyd yn gwario arian i ddarparu cyfleusterau newydd fel ysgolion, ac isadeiledd prifffyrdd ac arfordirol. Roedd cyfanswm y gwariant cyfalaf yn £27.963 miliwn yn 2009/10. Dyma grynodeb fuddsoddiad cyfalaf mewn meysydd gwasanaeth yn 2009/10 a sut ariannwyd hynny:

Gwariant Cyfalaf	2009/10 Gwirioneddol £'000
<b>Gwariant Cyfalaf yn ôl Gwasanaeth:</b>	
Addysg	6,639
Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol	3,587
Isadeiledd a Chludiant	4,230
Tai Sector Preifat	3,590
Datblygu Cymunedol - Adfywio	1,638
Datblygu Cymunedol – Gwasanaethau Hamdden	1,001
Datblygu Cymunedol – Llyfrgelloedd	88
Gofal Cymdeithasol	1,511
Cynllunio a Chefn Gwlad	157
Technoleg Gwybodaeth	356
Peirianeg a Dylunio	1,818
Theatrau	339
Cytundebau Argadwedig Tai	634
Eraill	2,331
Croniadau Net	44
<b>Cyfanswm Gwariant Cyfalaf</b>	<b>27,963</b>

Ariannu Cyfalaf	2009/10 Gwirioneddol £'000
<b>Drwy:</b>	
Benthyca â Chymorth	7,587
Benthyca Darbodus	3,533
Derbyniadau Cyfalaf	1,965
Grantiau Cyfalaf	14,193
Arian Cyfalaf wrth Gefn	685
<b>Cyfanswm Ariannu Cyfalaf</b>	<b>27,963</b>

Gellir ariannu'r gwariant Cyfalaf trwy Fenthyciad gyda Chefnogaeth pan fydd costau yn cael eu hariannu trwy'r Grant Cefnogi Refeniw, a Benthyca Darbodus pan fydd y costau yn cael eu hariannu gan arbedion yng nghyllideb refeniw'r Cyngor.

Ymgwymerwyd â'r prosiectau mawr a ganlyn yn 2009/10:

- Canolfan Ddigidyddiadau Parc Eirias
- Gwelliannau Strydlun Bae Colwyn
- Ailwampio ystafelloedd newid Canolfan Hamdden Bae Colwyn
- Canolfan Addysg Awyr Agored Pentrellyncymer
- Cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol
- Morglawdd Conwy i Lwybr Beiciau'r RSPB
- Gwaith Lliniaru Llifogydd
- Cynlluniau Ailgylchu
- Gwelliannau Adeiladau Ysgolion ac ailwampio ceginau
- TCC
- Disodli goleuadau stryd sy'n dirywio
- Adfer Pontydd a gosod wyneb newydd ar Rwydwaith Ffyrdd y Sir

Roedd gwariant ar welliannau tai a grantiau Sector Preifat yn £3.59m a'r Gwasanaethau Addysg yn £6.639m.

Dyled tymor hir y Cyngor oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2010 oedd £102.868m, sy'n leihad o £11m oherwydd bod dyledion wedi'u had-dalu a benthyca mewnol.

Dyma Derfynau'r Gweithgareddau Benthyca yn 2009/10, a bennwyd yn unol â'r Fframwaith Darbodus ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf awdurdod lleol a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (y Cod Darbodus) fel a ganlyn:

	£
Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol	206.566m
Terfyn Gweithredol ar gyfer Dyledion Allanol	196.566m

## 7. **Cynllun Cyllid Preifat (PFI)**

Yr effaith fwyaf sylweddol ar gyfrifon 2009/10 yw triniaeth cyfrifeg y cytundeb PFI. Nid yw gofynion cyfrifeg y PFI a chytundebau tebyg bellach yn seiliedig ar safon cyfrifeg Prydain, FRS 5, ond ar y Safonau Rhoi Gwybod Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae'r gofynion yn seiliedig ar IFRIC 12 Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth ac yn berthnasol i gytundebau sy'n bodoli ar 31 Mawrth 2009, ac felly mae angen addasiadau cyfnod blaenorol ar gyfer y rhain.

O ganlyniad i'r newid hwn mewn triniaeth cyfrifeg, mae'r asedau dan y prosiect PFI Tair Ysgol rŵan wedi'u cynnwys ar Fantolen Conwy yn ogystal ag Atebolrwydd Tymor Hir mewn perthynas â thaliadau i'r dyfodol dan delerau'r cytundeb. Mae Nodyn 2 y Datganiad Cyfrifon yn nodi'r newidiadau i'r Fantolen ar 31 Mawrth 2009 gan gynnwys y cytundeb PFI, tra bod y Datganiad Incwm a Gwariant, Datganiad Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor a'r Datganiad Enillion a Cholledion Cydnabyddedig yn dangos ffigurau'r Datganiad Cyfrifon gwreiddiol 2008/09 gyda'r ffigurau wedi'u hailddatgan yn caniatáu ar gyfer y newid hwn.

## 8. **Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)**

Mae adolygiad o drefniadau cyfrifeg NNDR wedi arwain CIPFA/LASAAC i roi cyfarwyddyd i Awdurdodau i gyfrifo NNDR fel asiantau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn golygu nad yw cyfrifon Conwy bellach yn dangos ôl-ddyledion, rhagdaliadau a darpariaeth dyledion drwg mewn perthynas ag NNDR, gyda'r eitemau hyn yn cael eu nodi fel dyled Cynulliad Cymru. Mae hyn wedi arwain at ailddatganiad dyledwyr a chredydwyr ar 31 Mawrth 2009 ar gyfer pwrpasau cymharol, ac mae'n cael ei ddangos yn Nodyn 2 y cyfrifon.

## 9. **Ailbrisió Asedau**

Mae rhaglen o weithgareddau prisio Asedau yn cael ei chynllunio i sicrhau fod pob ased sefydlog yn cael ei ailbrisió o leiaf bob pum mlynedd, ac ail-brisiwyd asedau yn ystod rhan olaf blwyddyn ariannol 2009/10 gan Wasanaethau Peirianeg a Dylunio'r Cyngor, gyda dyddiad prisio o 31 Mawrth 2010. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yng ngwerth rhai asedau a lleihad (amhariad) ar gyfer rhai eraill. Codir tâl ar y gwasanaeth am amhariad i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ac roedd yn gyfanswm o £29.929m yn 2009/10. Mae Nodyn 16 y cyfrifon yn dangos y newidiadau i werth yr asedau.

## 10. **Safonau Rhoi Gwybod Ariannol Rhyngwladol (IFRS)**

Bydd newidiadau sylweddol i'r modd y mae cyfrifon yn cael eu paratoi a'u cyflwyno dan y Safonau Rhoi Gwybod Ariannol Rhyngwladol (IFRS) pan fyddant wedi'u gweithredu yn llawn ar gyfer y Datganiad Cyfrifon 2010/11.

Mae'r prif newidiadau yn ymwneud â'r canlynol:

- Rhoi cyfrif am gydrannau Asedau Sefydlog
- Adolygu prydlesau ariannol a gweithredol
- Croniad Manteision Gweithwyr
- Trefn a chynnwys y datganiadau ariannol craidd

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**  
**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**  
**2009/2010**

**1. CYFLWYNIAD**

- 1.1** Llywodraethu corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae llywodraethu corfforaethol yn ymwneud â'r modd y bydd aelodau etholedig a swyddogion yn ymwneud â materion y Cyngor a sut rydym yn cysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid.
- 1.2** I ddangos trefn lywodraethol dda, mae'n rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (a chefnogi) sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith ar gyfer Darparu Trefn Lywodraethol Dda mewn Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdod Lleol (SOLACE) yn 2001.
- 1.3** Mae'r sicrwydd llywodraethu yn y datganiad hwn wedi'i strwythuro o amgylch pob un o'r egwyddorion llywodraethu craidd sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith uchod.

**2. CWMPAS CYFRIFOLDEB**

- 2.1** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("Yr Awdurdod") yn gyfrifol am wneud yn siŵr fod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, fod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo yn briodol, ac yn cael ei ddefnyddio yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. Cyflwynwyd Rhaglen Wella Cymru (WPI) yn 2002; a cafodd ei ddiweddarau yn 2005. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno Canllawiau mwy diweddar ynglŷn â sicrhau gwelliannau parhaus trwy Ganllawiau Rhaglen Wella Cymru 2010. Rhoddwyd cyflwyniadau i'r aelodau etholedig ac Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor (UDRh) i drafod y Canllawiau yn ystod y cam ymgynghori.
- 2.2** Datblygwyd y Canllawiau i gefnogi gweithredu Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Canllawiau yn amlinellu'r newidiadau bwriedig i Raglen Gwella Cymru. Mae 2 ran i'r Canllawiau:
- Gwella a Chynllunio Busnes
  - Cynllunio Cymunedol
- Mae'r Canllawiau yn uno gweithgareddau gwella tymor byr a chynllunio cymunedol tymor hir ac mae'n seiliedig ar yr egwyddorion sylfaenol fod gwelliannau yn fwy nag enillion mesuradwy neu effeithiolrwydd mewnol sefydliadol.
- 2.3** Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol i lywodraethu ei faterion i hwyluso cynnal gweithgareddau'r Cyngor yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau i reoli risg yn effeithiol.
- 2.4** Bydd yr Awdurdod yn parhau i adolygu ei drefniadau yn erbyn arfer gorau ac yn gweithredu newidiadau i wella'r trefniadau llywodraethu cyffredinol.

### **3. PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

- 3.1** Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd ar gyfer cyfarwyddo a rheoli'r Awdurdod ar gyfer rhoi cyfrif i, cysylltu â, ac arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r Awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau cost effeithiol priodol.
- 3.2** Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith ac mae wedi'i gynllunio i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu cyflawni polisiau, nodau ac amcanion ac felly dim ond sicrwydd rhesymol, nid absoliwt, o effeithiolrwydd y gall ei roi. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar y broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i: ganfod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion yr Awdurdod; gwerthuso'r tebygrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith petaent yn cael eu gwireddu; a rheoli risgiau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.
- 3.3** Rhagwelir y bydd rhaid i awdurdodau lleol Cymru gynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2010/2011. Ond, mae Conwy wedi penderfynu cynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2009/2010 yn hytrach na Datganiad Rheolaeth Fewnol oherwydd mae'n teimlo fod datganiad llywodraethu yn adlewyrchu ac yn cynrychioli trefnau llywodraethu a rheoli mewnol yn well yn 2009/2010.
- 3.4** Mae'r fframwaith llywodraethu wedi'i sefydlu yn y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad cyfrifon blynyddol ac mae'n cyd-fynd ag arferion priodol.

### **4. FFRAMWAITH LLYWODRAETHU'R CYNGOR**

- 4.1** Mae fframwaith llywodraethu'r Cyngor yn cynnwys polisiau, trefnau a gweithgareddau'r Awdurdod sydd wedi'u sefydlu i:
- Sefydlu a monitro cyflawni'r amcanion;
  - canfod, asesu a rheoli risgiau i'w cyflawni;
  - hwyluso llunio polisiau a gwneud penderfyniadau;
  - sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau;
  - sicrhau cydymffurfiaeth â pholisiau, trefnau, cyfreithiau a rheoliadau sydd wedi'u sefydlu;
  - diogelu asedau a lles y Cyngor rhag colledion o bob math; a
  - sicrhau ansawdd, cywirdeb, argaeledd, cyfrinachedd a dibynadwyedd gwybodaeth, cyfrifon a data.

Mae cynnal y fframwaith yn broses barhaus y mae'r Awdurdod wedi ymrwmo iddi er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus a datblygu arfer da. Mae elfennau allweddol fframwaith llywodraethu'r Cyngor wedi'u disgrifio dan y penawdau isod.

## *Y Cyfansoddiad*

- 4.2** Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn darparu fframwaith ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau ac mae'n nodi'r trefnau, y protocolau a'r codau y mae'r aelodau etholedig a'r swyddogion yn eu defnyddio i gyflawni amcanion y Cyngor mewn modd effeithlon, eglur ac atebol.
- 4.3** Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys Erthyglau Sylfaenol, Rheolau Trefn, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol a'r Cynllun Pwerau wedi'u Dirprwyo, yn ogystal â'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig a swyddogion. Bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn rheolaidd ac mae ar gael mewn copi caled ac ar wefan y Cyngor.
- 4.4** Dan y Cyfansoddiad, mae'r Arweinydd a'r Cabinet, sy'n cynnwys hyd at 9 Cynghorydd arall a benodwyd gan yr Arweinydd, yn ffurfio corff penderfynu gweithredol yr Awdurdod. Mae'n rhaid i'w penderfyniadau fod yn unol ag amcanion cyffredinol y Cyngor ac maent yn amodol ar gael eu harchwilio gan bedwar pwyllgor trosolwg a chraffu. Bydd penderfyniadau allweddol, fel sefydlu cyllideb y Cyngor, cymeradwyo polisïau allweddol a phenodi i swyddi uwch, yn cael eu gwneud gan y Cyngor. Mae'r broses hon wedi'i nodi yn y Cyfansoddiad.
- 4.5** Bydd unrhyw ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad (ac eithrio newidiadau bychain y gellir eu cymeradwyo gan y Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Cyngor a Chadeirydd Pwyllgor Adolygu'r Cyfansoddiad a Chamweinyddu) yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor yn dilyn ystyriaeth Pwyllgor Adolygu'r Cyfansoddiad a Chamweinyddu'r Cyngor.

## *Pwyllgor Safonau*

- 4.6** Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Safonau i hyrwyddo safonau ymddygiad uchel gan aelodau etholedig. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri aelod etholedig, un cynghorydd cymuned a mwyafrif unigolion cyfetholedig sy'n annibynnol o'r Awdurdod. Mae swyddogaeth y Pwyllgor yn cynnwys:
- helpu, cynghori a monitro cydymffurfiaeth â Chod Ymddygiad yr aelodau etholedig;
  - trefnu i hyfforddi aelodau etholedig ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r Cod;
  - rhoi hawl i aelodau etholedig gael eu heithrio o ofynion sy'n ymwneud â chysylltiadau fel y nodwyd yn y Cod;
  - Ymdrin â chwynion a gyflwynwyd iddo gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus fod unigolyn wedi torri'r Cod Ymddygiad;
  - Ystyried materion eraill sy'n briodol ac yn angenrheidiol i gynnal safonau ymddygiad uchel yr Awdurdod a'i aelodau etholedig, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro.

### *Pwyllgor Archwilio*

**4.7** Mae'r Pwyllgor Archwilio yn bwyllgor cyfansoddiadol llawn o'r Cyngor sy'n cynnwys cydbwysedd gwleidyddol o aelodau etholedig. Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb am:

- gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon;
- cytuno ar natur a chwmpas y cynllun archwilio blynyddol;
- derbyn adroddiadau archwilio Allanol a Mewnol;
- adolygu addasrwydd y trefniadau llywodraethu;
- derbyn y Llythyr Blynyddol a gynhyrchwyd gan ein Harchwilwyr Allanol;
- ystyried trefniadau archwilio mewnol a rheoli risg;
- monitro gweithredu argymhellion gan yr archwilwyr Mewnol ac Allanol;
- monitro gweithredu rheolau sy'n ymdrin â chofrestru anrhegion a lletygarwch a datgan cysylltiad gan aelodau etholedig a swyddogion; a
- cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol a derbyn adroddiadau monitro ynglŷn â pherfformiad Rheoli Trysorlys.

**4.8** Mae gan yr Awdurdod amgylchedd rheoli cadarn sy'n sefydledig ac wedi'i brif ffrydio yn nhrefniadau busnes yr Awdurdod. Y grwpiau swyddogion sy'n gyfrifol am oruchwyllo a monitro'r amgylchedd rheoli yw'r Gweithgor a'r Uwch Dîm Rheoli. Yn ogystal, mae'r Grŵp Adolygu Adroddiadau yn adolygu adroddiadau democrataidd cyn eu cyflwyno.

### *Y Gweithgor*

**4.9** Mae'r Gweithgor yn cyfarfod ddwywaith y mis, a tan fis Rhagfyr 2009 roedd yn cynnwys y Prif Weithredwr, y ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, a'r Pennaeth Addysg Statudol. Ar ôl i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwella a Datblygu adael ym mis Rhagfyr 2009, newidiwyd aelodaeth y Gweithgor i gynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, y Pennaeth Addysg Statudol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

**4.10** Cafodd y Prif Weithredwr ei wahardd o'i swydd dros dro ym mis Mawrth 2010 ac roedd i ffwrdd am weddill y flwyddyn ariannol. Gweithredodd yr aelodau etholedig yn syth i sefydlu'r canlynol:

- Penodwyd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau yn Brif Weithredwr/Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig dros dro;
- Penodwyd y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151 yn Gyfarwyddwr Corfforaethol dros dro;
- Penodwyd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Swyddog Monitro yn Gyfarwyddwr Corfforaethol dros dro;
- Mae trefniadau wedi'u sefydlu i ddyrchafu unigolion dros dro i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad priodol mewn perthynas â'u swyddi gwreiddiol.

- 4.11** Nodwyd meysydd cyfrifoldeb y swyddogion uchod a chyflwynwyd yr wybodaeth i'r aelodau etholedig a'r staff, gan roi cyfarwyddyd ac eglurder i'r trefniadau dros dro.

*Uwch Dîm Rheoli*

- 4.12** Bydd yr Uwch Dîm Rheoli (UDRh) yn cyfarfod yn fisol ac mae'n cynnwys pob Pennaeth Gwasanaeth, yn ogystal â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol. Bydd pob mater rheoli a strategol pwysig yn cael ei gyflwyno i'r grŵp hwn, a bydd cynlluniau a pholisïau drafft sy'n effeithio'r sefydliad yn cael eu cynnwys ar y rhaglen cyn cael eu cyflwyno i'r broses ddemocrataidd.

- 4.13** Mae'r UDRh yn gwneud penderfyniadau allweddol ynglŷn â materion rheoli yn yr Awdurdod, ac yn ystyried risgiau a datblygu polisïau. Hefyd, mae'r Tîm yn ystyried materion cenedlaethol, isranbarthol a lleol, yn ogystal â materion trawsawdurdod i leihau gweithio yn unigol a hyrwyddo cysondeb. Mae'r UDRh hefyd yn cysylltu â'r Cabinet fel bod dealltwriaeth gyffredin a phwrpas i waith yr Awdurdod.

*Grŵp Adolygu Adroddiadau*

- 4.14** Mae'r Grŵp Adolygu Adroddiadau (RRG) yn cyfarfod ddwywaith y mis i oruchwylio adroddiadau sydd i'w cyflwyno i'r Cabinet, ac mae'n ystyried rhaglenni gwaith i'r dyfodol y swyddogaethau Craffu i ddarganfod patrymau gwaith a chanfod materion capasiti a all godi. Hefyd, mae'r Grŵp yn sicrhau synergedd rhwng cynlluniau gwaith y Cyngor, y Cabinet, y swyddogaeth Graffu a Rheoli Strategol.
- 4.15** Gellir isrannu elfennau'r fframwaith llywodraethu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'r meysydd allweddol isod.



## **5. ELFENNAU ALLWEDDOL Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

### **5.1 SEFYDLU A MONITRO CYFLAWNI AMCANION YR AWDURDOD**

#### *Strategaeth Gymunedol*

**5.1.1** Mae Strategaeth Gymunedol Conwy yn darparu fframwaith amlasiantaeth strategol ar gyfer canlyniadau dinasyddion a gwelliannau gwasanaeth yn y Sir. Mae'n cynnwys pob un o adrannau'r Awdurdod ac asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i Gonwy.

**5.1.2** Mae'r Strategaeth Gymunedol yn cynnwys 5 thema strategol ac yn ymwneud â'r cyfnod 10 mlynedd rhwng 2004 a 2014. Mae wrthi'n cael ei adolygu a bydd yn cael ei ailgyhoeddi yn 2011 gyda mwy o ffocws ar ganlyniadau dinasyddion. Mae trefnau sefydledig ar gyfer sefydlu a monitro amcanion yr Awdurdod yn unol â'r Strategaeth Gymunedol, ac mae gan yr Awdurdod bolisi a phroses gwneud penderfyniadau priodol. Mae blaenoriaethau a nodau tymor hir yn cael eu hailarchwilio bob blwyddyn gan y Cabinet a'r uwch swyddogion.

#### *Cynllun Corfforaethol*

**5.1.3** Mae Cynllun Corfforaethol 2008 i 2012 yn nodi gweledigaeth CBS Conwy yn glir, sef "Adfywio ein Cymunedau a gwneud Conwy yn ganolbwynt i Ogledd Cymru". Mae gan y Cynllun Corfforaethol gysylltiadau cryf gyda'r Strategaeth Gymunedol a chynlluniau strategol a phartneriaeth eraill yn yr Awdurdod a'r gymuned yn gyffredinol. Mae'r themâu yn cael eu cefnogi gan is-set o 12 Blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol. Roedd ei gynhyrchu yn dilyn prosesau sefydledig oedd yn gweithredu yng Nghonwy. Datblygwyd y Cynllun Corfforaethol yn 2008 yn unol â fframwaith y Strategaeth Gymunedol. Datblygwyd y cynllun ar ôl dadansoddiad manwl o anghenion demograffig, ac ymgynghoriad helaeth ar faterion a gweithredoedd allweddol. Roedd hyn yn cynnwys atborth ymgynghoriad cymunedol gydag amryw o bartneriaethau, gweithdai gyda phartneriaid, aelodau etholedig a'r UDRh. Roedd yr amcanion a ddatblygwyd hefyd yn cynnwys ystyried y rhaglen genedlaethol, data perfformiad ac argymhellion o adroddiadau arolwg.

#### *Cynllun Darparu'r Cynllun Corfforaethol*

**5.1.4** Mae targedau blynyddol yn cael eu sefydlu ar gyfer Amcanion y Cynllun Corfforaethol sydd wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Darparu'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r cynllun hefyd yn nodi'r swyddog arweiniol, yr Aelod Cabinet, Craffu a dyraniad adnoddau. Yna bydd yr wybodaeth yn cael ei dosbarthu i feysydd gwasanaeth trwy eu Cynlluniau Gweithredu Blynyddol eu hunain. Bydd Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth (SPR) yn cael eu cynnal gyda phob maes gwasanaeth ddwywaith y flwyddyn a bydd yr Aelod Portffolio Cabinet, Aelod Busnes y Cabinet, yr Uwch Reolwr a'r Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol yn bresennol. Mae Adroddiadau Perfformiad Corfforaethol ddwywaith y flwyddyn yn adlewyrchu'r cynnydd a nodwyd yn yr SPR gan adolygu Cynllun Darparu'r Cynllun Corfforaethol, y Gofrestr Risg Corfforaethol, Dangosyddion Perfformiad, y Cytundeb Gwella, y Cynllun Rheoleiddio a llwyddiannau a materion Gwasanaeth. Bydd adroddiadau Perfformiad Corfforaethol yn cael eu cyflwyno i'r UDRh, yr Aelodau Gweithredol, y Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet.

#### *Rheoli Rhaglen a Phrosiect*

**5.1.5** Mae'r Awdurdod yn dilyn fframwaith rheoli rhaglen a phrosiect sy'n seiliedig ar PRINCE 2. Mae Rheolwyr Prosiect yn cael eu hyfforddi i lefel sylfaen neu ymarferydd ac maent yn cael eu cefnogi gan dîm corfforaethol o gefnogwyr prosiect yn y Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol. Mae Prosiectau sy'n cynrychioli effaith neu risg sylweddol i'r Awdurdod yn cael eu monitro yn y Byrddau Gwella Corfforaethol neu Gwasanaeth. Mae gan y Byrddau gysylltiadau â Chraffu ac mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn aelodau o'r Byrddau.

Mae'r Awdurdod yn cynnal cynllun arbrofol o'r meddalwedd rheoli perfformiad Ffynnon, a gall rŵan gyflwyno mesurau perfformiad a'r Cytundeb Gwella trwy Ffynnon. Gellir gwneud cynnydd pellach wrth ddatblygu'r gofrestr risg pan fydd y diweddariad i'r system wedi'i osod. Mae dyddiad y diweddariad wedi'i ohirio sawl gwaith gan y darparwr.

### *Rheoli Perfformiad*

- 5.1.6** Mae elfennau allweddol llywodraethu corfforaethol wedi'u nodi yn y Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol. Mae hwn wrthi'n cael ei ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau i arferion gwaith a'r Canllawiau Cynulliad Cymru newydd sydd wedi'u cyflwyno.
- 5.1.7** Mae'r Awdurdod yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol. Mae'r adroddiad yn rhoi sylwadau ar berfformiad yn erbyn yr amcanion, sefyllfa ariannol a dangosyddion perfformiad o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'n cael ei baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol. Mae Adroddiad Blynyddol 2008/2009 sy'n rhan o Gynllun Gwella 2009/2010 yr Awdurdod yn cynnwys sylwebaeth fanwl ar berfformiad yn ystod y flwyddyn sy'n gysylltiedig â'r amcanion allweddol a nodwyd.
- 5.1.8** Mae Llythyr Blynyddol 2009 yn nodi fod Cynllun Gwella 2009/10 yr Awdurdod yn diwallu gofynion statudol ac yn darparu amlinelliad cytbwys o'i berfformiad yn 2008/2009.

## **5.2** *HWYLUSO GWNEUD PENDERFYNIADAU A PHOLISIÂU*

### *Cod Llywodraethu Corfforaethol*

- 5.2.1** Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i egwyddorion trefn lywodraethol dda ac wedi drafftio Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn seiliedig ar fframwaith a nodwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA)/Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Llywodraeth Leol (SOLACE). Bydd y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn rhan o'r Cyfansoddiad ac yn berthnasol i bob agwedd o fusnes yr Awdurdod.

### *Atebolrwydd ac Eglurder wrth Wneud Penderfyniadau*

- 5.2.2** Mae trefniadau wedi'u sefydlu i alluogi gwneud penderfyniadau gwybodus ac eglur sy'n destun trefniadau craffu a rheoli risg effeithiol trwy:
- Wneud penderfyniadau allweddol a mawr yn gyhoeddus (ac eithrio rhai eithriadau a ganiateir gan y gyfraith);
  - Gwybodaeth yn ymwneud â'r penderfyniadau sydd ar gael i'r cyhoedd;
  - Sefydlu rheolau a threfnau sy'n llywodraethu sut y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud, eu hadolygu'n rheolaidd a'u gwneud ar gael i'r cyhoedd;
  - Ystyried cyngor cyfreithiol, ariannol, ac adnoddau dynol priodol ac unrhyw gyngor priodol arall fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.
- 5.2.3** Hefyd, mae'r Awdurdod wedi sicrhau fod trefniadau wedi'u sefydlu i alw unigolion sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif. Mae'r rhain yn cynnwys:
- pedwar Pwyllgor Craffu gyda threfniadau ar gyfer galw penderfyniadau i mewn;
  - Pwyllgor Archwilio;
  - datblygu pecyn llywodraethu partneriaeth;
  - llywodraethu prosiectau a rhaglenni;
  - y Cyfansoddiad;
  - system gwynion gorfforaethol i gwsmeriaid;
  - system ar gyfer ymdrin â chwynion ynglŷn â chamweinyddu yn erbyn aelodau etholedig; a
  - Strategaeth Gwrth Dwyll a Llygredigaeth a Pholisi Rhannu Pryderon.

### *Y Cyfansoddiad*

**5.2.4** Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn nodi sut y mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r trefnau i'w dilyn i sicrhau fod y rhain yn effeithlon, yn eglur ac yn atebol i bobl leol. Mae'r Cyfansoddiad yn nodi cyfrifoldebau a threfnau ar gyfer gwneud penderfyniadau ac maent wedi'u cynllunio i wneud yn siŵr y bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- Cymesurool (h.y. mae'n rhaid i'r weithred fod gymesur â'r canlyniad dymunol);
- Ymgynghoriad dyledus a chyngor proffesiynol gan swyddogion;
- Parch tuag at hawliau dynol;
- Rhagdybiaeth o blaid didwylledd;
- Esbonio nodau a chanlyniadau dymunol;
- Ystyried dewisiadau eraill;
- Cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad, gan gynnwys manylion unrhyw ddewisiadau eraill a ystyriwyd a'u gwrthod.

### *Y Swyddog Monitro*

**5.2.5** Mae gan y Swyddog Monitro, swyddogion y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a swyddogion uwch eraill yr Awdurdod ran i'w chwarae wrth helpu i sicrhau fod yr egwyddorion yn y Cyfansoddiad, fel penderfyniadau cynaliadwy, craffu cadarn, rheolau cyfiawnder naturiol, safonau ymddygiad, effeithlonrwydd, eglurder a safonau uchel o lywodraethu corfforaethol yn cael eu cyflawni ym mhroses weinyddol yr Awdurdod.

### *Y Cyngor*

**5.2.6** Cynhaliwyd 10 cyfarfod o'r Cyngor yn ystod 2009/2010 i gyflawni eu swyddogaeth gwneud penderfyniadau a pholisïau.

### *Y Cabinet*

**5.2.7** Mae'r Cabinet yn gwneud swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb ar unrhyw ran arall o'r Awdurdod. Neilltuwyd meysydd portffolio penodol i'r Aelodau Cabinet sy'n helpu'r Cabinet i fonitro gweithgareddau'r Awdurdod. Y Cabinet yw corff gwneud penderfyniadau gweithredol allweddol yr Awdurdod ac mae'n gwneud penderfyniadau o fewn y fframwaith polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor. Pan fydd penderfyniadau mawr yn cael eu trafod, bydd croeso i'r cyhoedd fod yn bresennol fel arfer, ac eithrio pan fydd materion personol neu gyfrinachol yn cael eu trafod. Mae'n rhaid i'r Cabinet wneud penderfyniadau sy'n unol â pholisïau a chyllidebau cyffredinol yr Awdurdod. Os yw'n dymuno gwneud penderfyniad sydd y tu hwnt i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi, mae'n rhaid ei gyfeirio at y Cyngor llawn i gael penderfyniad.

### *Pwyllgorau Craffu*

**5.2.8** Roedd adroddiad Diwedd Prosiect Trosolwg a Chraffu Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009 yn nodi'r casgliad "yn gyffredinol mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau effeithiol i gefnogi trosolwg a chraffu. Gwnaethpwyd cynnydd da iawn wrth wella safonau craffu a gwella ei effaith. Mae'r Cyngor mewn sefyllfa gref i adeiladu ar lwyddiannau hyd yma a chynnal y gwelliannau."

### *Pwyllgor Safonau*

- 5.2.9** Mae'r Pwyllgor Safonau yn monitro ac yn adolygu gweithrediad y Codau a'r Trefnau dan y Cyfansoddiad i sicrhau fod nodau ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn cael effaith lawn. Mae'r Swyddog Monitro yn gyfrifol am wneud argymhellion ar gyfer diwygio neu wella'r Cyfansoddiad. Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad gael eu gwneud gan y Cyngor llawn, ond bydd gan y Swyddog Monitro'r awdurdod i wneud newidiadau bychain i'r Cyfansoddiad fel y nodwyd ym mharagraff 4.5 uchod.

### *Pwyllgorau Rheoleiddio*

- 5.2.10** Hefyd, mae gan yr Awdurdod dri phwyllgor rheoleiddio wnaeth gyfarfod fel a ganlyn:
- cynhaliwyd Pwyllgor Cynllunio unwaith y mis;
  - cynhaliwyd Pwyllgor Archwilio chwe gwaith; a
  - cynhaliwyd Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli chwe gwaith yn ystod y flwyddyn.

### *Cynllun Dirprwyo*

- 5.2.11** Yn ogystal â'r uchod, er mwyn galluogi'r Awdurdod i wneud y nifer penderfyniadau sydd eu hangen yn ddyddiol, bydd cyfrifoldebau am rai penderfyniadau yn cael eu dirprwyo i uwch swyddogion sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn Rhan 8 y Cyfansoddiad.

## **5.3** *SICRHAU CYDYMFFURFIAETH Â PHOLISIAU, TREFNAU, CYFREITHIAU A RHEOLIADAU SEFYDLEDIG.*

- 5.3.1** Mae gan bob swyddog gyfrifoldeb i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, trefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig. Bydd sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth yn cael eu darparu i swyddogion yn ôl yr angen a bydd sesiynau cyflwyno priodol yn cael eu trefnu i staff newydd.

### *Y Swyddog Monitro*

- 5.3.2** Mae Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd yr Awdurdod wedi'i ddynodi yn Swyddog Monitro yng Nghonwy. Swyddogaeth y Swyddog Monitro yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cyfansoddiad a pholisïau, trefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig. Mae'r gwasanaeth Cyfreithiol wedi cael achrediad Lexcel ac mae ganddynt Swyddogion Cyfreithiol sy'n arbenigo mewn meysydd penodol i weithgareddau'r Awdurdod. Mae'r Swyddog Monitro yn monitro gweithgareddau i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau. Ar sail y monitro sydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, gall y Swyddog Monitro gadarnhau fod y trefniadau hyn yn gweithredu yn foddhaol.

### *Rheolau Sefydlog Contractau a Rheoliadau Ariannol*

- 5.3.3** Mae Rheoliadau Ariannol, Codau Ymarfer Ariannol, Rheolau Sefydlog Contractau, Polisïau a Threfnau a Chodau Ymddygiad i gyd wedi'u sefydlu ac ar gael i staff ar bapur ac yn electronig.

### *Rheoli Ariannol*

- 5.3.4** Y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol yw'r Swyddog Ariannol â Chyfrifoldeb ac mae'n cymryd cyfrifoldeb am drefniadau dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae trefnau rheoli ariannol yr Awdurdod yn cael eu cynnal yn unol â'r Rheoliadau Ariannol a nodwyd yn y Cyfansoddiad.

### *Archwilio Mewnol*

**5.3.5** Mae gan yr Awdurdod swyddogaeth Archwilio Mewnol sy'n gweithredu i'r safonau a nodwyd yng nghanllawiau CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael yn rhoi gwybod yn ddiudedd, ac yn ei enw ei hun ar addasrwydd ac effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol, gan gynnwys rheoli risg a threfniadau llywodraethu corfforaethol. Mae cwmpas Archwilio Mewnol yn cynnwys holl weithgareddau busnes yr Awdurdod, ac mae gan yr Adain Archwilio Mewnol fynediad digyfnygedig at weithwyr, cofnodion ac asedau mewnol, er mwyn gwneud ei waith yn effeithiol.

### *Pwyllgor Safonau*

**5.3.6** Mae gan yr Awdurdod Bwyllgor Safonau i fonitro safonau ac ymddygiad aelodau etholedig, fel y nodwyd ym mharagraff 4.6, a Phwyllgor Archwilio sefydledig, fel y nodwyd ym mharagraff 4.7 uchod.

### *Rheolyddion Allanol*

**5.3.7** Bydd yr Awdurdod yn cael archwiliadau allanol gan KPMG a Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) a bydd yn cael arolwg ac adolygiad allanol pellach gan nifer o asiantaethau. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel a ganlyn:

- KPMG – Archwilio Cyfrifon, casgliad ar drefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian, archwilio'r cynllun gwella, gwaith perfformiad lleol, astudiaethau llywodraeth leol, archwilio hawliau grant:
- WAO – Archwilio, mae gwaith WAO arall yn cynnwys gwaith a wnaed fel rhan o raglen gwaith i'r dyfodol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**5.3.8** Mae'r Awdurdod wedi bod ag agwedd weithgar ac adeiladol tuag at yr adroddiadau a'r argymhellion a wnaed gan asiantaethau allanol, gyda chyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng uwch reolwyr yr Awdurdod ac arolygwyr allanol. Roedd y Llythyr Blyneddol diweddaraf yn cadarnhau fod "y Cyngor wedi datblygu fframwaith sy'n ymwneud â'r prif feysydd ar gyfer sicrhau rheolaeth gadarn o'i ymatebion i argymhellion y rheolyddion". Sefydlodd yr Awdurdod Grŵp Gwella ac Archwilio yn 2008 sy'n gwneud swyddogaeth allweddol, wrth sicrhau gweithredu argymhellion archwilio mewnol ac allanol yn briodol ac yn amserol.

### *Polisiâu a Strategaethau*

**5.3.9** Mae'r Awdurdod wedi sefydlu nifer o strategaethau a pholisiâu corfforaethol i gefnogi cydymffurfiaeth â'r trefnau y cytunwyd arnynt. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys y Strategaeth Pobl Corfforaethol, Caffael, Iechyd a Diogelwch, a Chwynion.

### *Hyfforddi a Datblygu Aelodau Etholedig*

**5.3.10** Un o amcanion y Cynllun Corfforaethol yw "Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ein staff a'n aelodau etholedig yn gwybod beth sydd i'w ddisgwyl ohonynt, a beth y mae'n rhaid iddynt ei ddarparu, a'u bod yn cael y gefnogaeth i gydweithio fel tîm i ddarparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid". Felly, mae'r Awdurdod wedi sefydlu Gweithgor Datblygu Aelodau, sydd wedi datblygu Strategaeth Datblygu Aelodau a rhaglen o hyfforddiant aelodau etholedig, sy'n cynnwys rhaglen gyflwyno drylwyr. O ganlyniad i'r ymdrechion hyn, cafodd yr Awdurdod Siarter CLILC ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau ym mis Awst 2009. Mae proses o Adolygiadau Datblygu Personol hefyd wedi ei ddatblygu ac yn ystod 2009/10, cynhaliodd yr Aelodau Cabinet gynllun arbrolfol o'r broses. Hefyd, mae Aelodau Cabinet wedi'u nodi fel Aelodau Arweiniol Corfforaethol ar amcanion perthnasol y Cynllun Corfforaethol a'r risgiau corfforaethol. Estynnir gwahoddiad i bob Aelod Cabinet i fynd i'w Hadolygiadau Perfformiad Gwasanaeth perthnasol.

### *Hyfforddi a Datblygu Staff*

**5.3.11** Cafodd yr Awdurdod achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl IIP yn 2008 am gyfnod o 3 blynedd. Yn ystod 2009/2010 gwnaethpwyd cynnydd wrth adolygu'r Cynllun Adolygu Perfformiad a Datblygiad presennol a dylai gael ei gwblhau yn ystod 2010/2011.

### **5.4** *CANFOD, ASESU A RHEOLI RISGIAU I AMCANION YR AWDURDOD.*

#### *Rheoli Risg*

**5.4.1** Mae gan yr Awdurdod Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg a gafodd ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod 2009/2010. Mae'n cynnwys y fframwaith ar gyfer rheoli risg drwy'r Awdurdod ac yn cynnwys swyddogaeth a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg.

**5.4.2** Mae'r Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu yn gwybod fod risg yn cael ei ystyried yn elfen allweddol o'r broses gwneud penderfyniadau, ac mae pob adroddiad i'r cyrff hyn yn cynnwys rhan ynglŷn â risg. Y Prif Weithredwr yw'r Cefnogwr Rheoli Risg yn yr Awdurdod, ac mae'n cael ei gefnogi gan uwch swyddogion sydd wedi cymell y broses hyd yma.

**5.4.3** Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn swyddog â chyfrifoldeb am reoli risg yn eu gwasanaeth perthnasol.

**5.4.4** Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cofrestr Risg Corfforaethol. Mae pob risg yn cael ei neilltuo i swyddog arweiniol corfforaethol ac aelod etholedig arweiniol. Mae'r gofrestr yn cael ei chynnal a'i rheoli drwy'r Grŵp Gwella ac Archwilio, y Gweithgor a'r UDRh. Mae risgiau yn cael eu hadrodd i'r aelodau etholedig yn ffurfiol drwy'r broses ddemocrataidd. Mae'r Gofrestr yn cael ei hystyried yn rheolaidd gan y Penaethiaid Gwasanaeth fel rhan o'r cyfarfodydd UDRh a gan y Cabinet, y Prif Bwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Awdurdod yn trafod ei risgiau corfforaethol gyda'i Archwilywyr Allanol yn rheolaidd, ac mae'r broses hon yn caniatáu ystyried y risgiau mewn modd rheolaidd a strwythuredig, gyda chefnogaeth a her allanol. Hefyd, bydd risgiau corfforaethol yn cael eu hystyried yn ystod y broses fframwaith cynllunio busnes, sy'n cefnogi proses dyrannu adnoddau'r awdurdod.

#### *Hyfforddiant Rheoli Risg*

**5.4.5** Roedd Llythyr Blynyddol 2008/2009 yn nodi fod yr Awdurdod wedi ymateb yn rhagweithiol i'r argymhellion yn adroddiad KPMG ar drefniadau rheoli risg ym mis Hydref 2008. Yn ystod 2009/2010, defnyddiodd yr Awdurdod gapasiti ychwanegol i werthuso'r strategaeth rheoli risg, cyflawni'r argymhellion ar gyfer gwella a gweithredu hyfforddiant rheoli risg pellach, i Aelodau'r Cabinet, Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllg006Fr Archwilio, uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol a staff allweddol ym mhob rhan o'r Awdurdod.

**5.4.6** Daeth y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael i'r casgliad yn y Datganiad Sicrwydd Blynyddol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Mai 2010, fod datblygiad wedi ei wneud yn ystod 2009/2010 i integreiddio rheoli risg i fusnes yr awdurdod o ddydd i ddydd, a bod prosesau rheoli risg boddhaol wedi'u sefydlu i reoli llwyddiant amcanion yr Awdurdod.

#### *Sefydlu Cyllideb*

**5.4.7** Pan fydd yr Awdurdod yn sefydlu ei gyllideb, bydd aelodau etholedig yn ystyried y lefel risg ac ansicrwydd ynglŷn â'r rhagamcanion cyllidebol a'r amgylchiadau. Mae'r broses gyllidebol yn cael ei ategu gan ymwybyddiaeth risg fel egwyddor craidd cynllunio busnes ac ariannol.

### *Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth*

- 5.4.8** Adolygwyd a diweddarwyd cofrestrau risg gwasanaeth yn ystod 2009/2010 fel rhan o'r adolygiadau perfformiad gwasanaeth a gynhaliwyd gan bob gwasanaeth i ganfod ac ystyried y risgiau allweddol sy'n effeithio darpariaeth gwasanaethau fel y nodwyd ym mharagraff 5.1.4.

### *Parhad Busnes*

- 5.4.9** Mae gan yr Awdurdod gynlluniau ar gyfer argyfyngau mawr fel llifogydd a phandemig posibl ac mae hefyd wedi datblygu ystod gynhwysfawr o Gynlluniau Parhad Busnes i sicrhau y gall yr Awdurdod barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol pan fydd argyfwng a sicrhau adfer darpariaeth gwasanaeth arferol pan fydd yr argyfwng ar ben.
- 5.4.10** Mae datblygiadau i wella trefniadau Adfer Argyfwng TG wedi ei gyfyngu yn y gorffennol gan ddiffyg cyllid. Paratowyd a chyflwynwyd cais refeniw ffurfiol fel rhan o'r Fframwaith Cynllunio Busnes ym mis Tachwedd 2009 ac roedd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae cynlluniau ar y gweill i gysylltu ac ymgynghori â chyflenwyr i ganfod a chadarnhau'r galluoedd a'r gwasanaethau priodol fydd eu hangen. Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth gyffredinol yn gyfuniad o gapasiti gwytnwch mewnol, a darparu gwasanaeth allanol.

### *Cynllunio Rhag Argyfwng ac Iechyd a Diogelwch*

- 5.4.11** Mae Uned Cynllunio Rhag Argyfwng gweithgar a sefydledig yn helpu i reoli risgiau allanol i'r Awdurdod ac yn cydweithio ledled Gogledd Cymru.
- 5.4.12** Mae gan yr Awdurdod Uned Iechyd a Diogelwch ganolog gweithgar sy'n rhoi cyngor a hyfforddiant i bob gwasanaeth ar faterion Iechyd a Diogelwch. Bydd asesiadau risg tân yn cael eu perfformio ym mhob eiddo.

### *Strategaeth Gwrth Dwyll a Llygredigaeth*

- 5.4.13** Mae gan yr Awdurdod Strategaeth Gwrth Dwyll a Llygredigaeth sy'n nodi cyfrifoldebau aelodau etholedig a staff wrth hyrwyddo diwylliant o onestrydd. Mae hefyd yn nodi'r mesurau ar gyfer atal, canfod ac archwilio honiadau o dwyll a llygredigaeth, rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill, a defnyddio asiantaethau Disgyblu pan fo'n briodol. Mae trefniadau rhannu pryderon wedi'u sefydlu, a bydd unrhyw anghysondebau yn cael eu harchwilio gan yr Adain Archwilio Fewnol neu swyddogion priodol yn y gwasanaethau.

## **5.5 SICRHAU GWELLIANT PARHAUS.**

- 5.5.1** Daeth y Llythyr Blynnyddol a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2009 gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad fod gan y Cyngor drefniadau priodol yn ystod 2008/2009 ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio'i adnoddau. Mae'r Awdurdod wedi parhau i wella ei drefniadau yn ystod 2009/2010 mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Archwilwyr Allanol. Mae'r gwasanaethau yn cael eu harchwilio'n allanol gan archwilwyr allanol ac asiantaethau allanol eraill, ac mae gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol swyddogaeth wrth roi sylwadau ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

### *Byrddau Gwella*

- 5.5.2** Mae Pwyllgorau Craffu a threfniadau bwrdd prosiect yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau gwelliannau parhaus ym mhob gwasanaeth. Cyflwynodd yr Awdurdod y Byrddau Gwella yn ystod 2007/2008 i gymell moderneiddio gwasanaethau, datblygu sefydliadol, gwaith partneriaeth a herio defnydd adnoddau yn yr Awdurdod. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gan y pedwar Bwrdd yn ystod 2008/2009 a chyfranwyd at amcan y Cyngor o sicrhau gwerth gorau a gwelliannau parhaus.

- 5.5.3** Ar ôl penodi'r Prif Weithredwr newydd, cynhaliwyd adolygiad o'r Byrddau Gwella yn ystod 2009/2010 a phenderfynwyd lleihau nifer y Byrddau i ddau. Mae'r un pwyslais i swyddogaeth y Byrddau Gwella, ond mae'r prosiectau a'r rhaglenni wedi'u halinio yn unol â'u gwasanaeth neu swyddogaeth gorfforaethol. Mae'r Pwyllgorau Craffu hefyd wedi'u halinio i'r ddau Fwrdd. Mae'r Byrddau yn cyfarfod bob yn ail fis i gael adroddiadau dechreuol, diwedd cam, a gwersi a ddysgwyd, ar y gwahanol brosiectau corfforaethol. Mae pob prosiect yn cael ei ddatblygu a'i fonitro yn unol â'r Fframwaith Rheoli Prosiect Corfforaethol sy'n seiliedig ar y Fethodoleg PRINCE 2 .

#### *Themâu Allweddol*

- 5.5.4** Hefyd, mae'r Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth (SPR) yn ceisio cefnogi gwelliannau parhaus ar lefel gwasanaeth, a monitro llwyddiant amcanion corfforaethol. Mae'r Awdurdod wedi datblygu proses adolygu fewnol gyda'r nod o fonitro gwelliant yn y naw thema allweddol a fabwysiadwyd gan Gonwy o ganlyniad i'r Prosiect Asesu a Gwella Corfforaethol (CAIP). Cydnabuwyd CAIP am arfer da gan Wobrau Rhagoriaeth Cymru CLILC yn 2009. Mae'r asesiad 9 thema allweddol yn cael ei gynnal gan banelau o staff ac aelodau etholedig ac maent yn gwneud argymhellion ar ffyrdd o wella perfformiad, a chanlyniadau yn yr Awdurdod. Mae hwn wedi bod yn ddull pwysig o sicrhau ymglymiad staff o bob lefel o'r sefydliad, ac mae'n eu caniatáu iddynt gael profiad y tu allan i'w maes gwaith arferol. Bydd yr argymhellion yn cael eu riportio i'r Cabinet a bydd yr argymhellion sydd wedi eu derbyn yn cael eu monitro drwy Gynlluniau Gweithredu Blynyddol. Cwblhawyd ail adolygiad o'r 9 thema allweddol yn 2009/2010. Mae'r Cabinet rŵan wedi penderfynu sefydlu themâu newydd. Mae'r themâu yn seiliedig ar feysydd Asesu Corfforaethol gyda hierarchaeth cwestiynau WAO o lywodraethu corfforaethol a fydd yn cael ei lansio yn 2010/2011.

#### *Cyllid*

- 5.5.5** Mae'r Awdurdod yn chwilio am ffyrdd o sicrhau defnydd economaidd, effeithiol ac effeithlon o'i adnoddau yn barhaus, ac yn ymdrechu i wella'r ffordd y mae ei swyddogaethau yn cael eu cynnal.
- 5.5.6** Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol neu ei gynrychiolydd yn asesu pob adroddiad a datblygiadau sy'n cynnwys canlyniadau ariannol.

#### *Cydweithio*

- 5.5.7** Mae'r Awdurdod ynghlwm â chydweithio gyda phartneriaid fel yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol eraill, y sector gwirfoddol, Gwasanaethau Tân, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ac Addysg Uwch. Mae'r Awdurdod wedi penodi Rheolwr Cydlynu Partneriaeth, ac yn rhoi cefnogaeth weinyddol i LSB Conwy, Bwrdd Partneriaeth Iechyd a Lles, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y cyd, a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.
- 5.5.8** Mae'r Awdurdod yn cael ei gynrychioli ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac wedi arwain rhai Prosiectau Cydweithio Gogledd Cymru fel Teleofal a TCC. Mae'r Awdurdod wedi penodi Pennaeth Priffyrdd ac Isadeiledd ar y cyd gyda Chyngor Sir Ddinbych. Hefyd, mae cydweithio gyda Thrwyddedu Cyngor Sir Ddinbych yn llwyddiannus ac mae cydweithio pellach yn parhau gyda Sir Ddinbych mewn perthynas ag agweddau eraill o'r Gwasanaethau Rheoleiddio.

#### *Partneriaethau*

- 5.5.9** Datblygwyd Pecyn Llywodraethu Partneriaeth ar gyfer Bwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy a Phartneriaethau Strategol a'i gefnogi gan y Cabinet ar 10 Tachwedd 2010. Bydd y pecyn yn sicrhau bod ein swyddogion, aelodau etholedig a phartneriaid yn gwybod nodau a phwrpas unrhyw waith partneriaeth ac yn derbyn ein cyfrifoldebau a goblygiadau.



**5.5.10** Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb cyffredinol am bartneriaethau i'r Pennaeth Gwasanaethau Datblygu Cymunedol ym mis Medi 2009 pan benodwyd y Rheolwr Cydlynu Partneriaeth. Cyfrifoldebau'r swydd yw rheoli a chydlynu'r agwedd strategol tuag at waith partneriaeth.

**5.5.11** Cefnogwyd a chymeradwywyd y Cynllun Gwella a Llywodraethu Partneriaeth gan y Cabinet ar 9 Mawrth 2010. Mae 3 cham i'r cynllun:

- Cwmpasu Partneriaeth ac asesu bob partneriaeth yn sylweddol;
- Gwella llywodraethu a pherfformiad;
- Trefniadau Archwilio Mewnol ac Allanol y partneriaethau.

Bydd y cynllun yn sicrhau fod gan yr Awdurdod lun cyflawn o'r bartneriaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i lywodraethu, perfformiad ac atebolrwydd y bartneriaeth.

**5.5.12** Cynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad ar y cyd gyda Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o'r gwaith archwilio a gynlluniwyd ar gyfer 2009/10. Canlyniad y gwaith hwn oedd bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi hyfforddiant i reolwyr a staff ym mhob gwasanaeth i ddefnyddio Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA). Mae'r fethodoleg RBA yn cael ei defnyddio i ddatblygu'r Fframwaith Cytundeb Canlyniadau a bydd yn cael ei ddefnyddio gan bartneriaethau strategol yn y dyfodol i sicrhau gwell perfformiad a gwell canlyniadau.

#### *Meincnodi Perfformiad*

**5.5.13** Mae'r Awdurdod yn cyfrannu tuag at nifer o glybiau meincnodi, mewn ystod o wasanaethau, sy'n caniatáu cymharu perfformiad, costau ac arfer da. Mae PIs yn cael eu monitro a'u riportio yn rheolaidd, ac mae dadansoddiad yn cael ei ddarparu i ganfod gwelliannau a dirywiad perfformiad, a chynllunio cyfeiriad y Cyngor i sicrhau fod cymaint o PIs â phosibl yn y chwarterl uchaf. Sefydlwyd Uned Ymchwil a Gwybodaeth i sicrhau bod cefnogaeth ac arbenigedd corfforaethol ar gyfer ymchwil a gwybodaeth. Mae'r uned yn darparu gwybodaeth ddemograffig ddiweddar a chyson, ac yn darparu dadansoddiad blynyddol o berfformiad y Cyngor yng Nghymru, yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol. Mae gwefan ystadegau yn cael ei ddatblygu ar gyfer y Sir a bydd yn cael ei lansio yn 2010/2011.

#### *E-Llywodraeth*

**5.5.14** Mae'r Awdurdod wedi cymryd agwedd rhagweithiol i'r rhaglen e-lywodraeth ac mae wedi sefydlu systemau busnes fel system Adnoddau Dynol/Cyflogau a System Gofal Cymdeithasol. Mae'r Awdurdod hefyd yn defnyddio'r rhaglen e-lywodraeth i gymell gwelliannau mewn effeithlonrwydd trafodaethol trwy wefan y Cyngor. Yn ystod 2009/2010 cynhaliodd yr Awdurdod gynllun arbrolfol e-dendro ac e-ocsiwn mewn perthynas â 78 o gytundebau cludiant o'r cartref i'r ysgol. Arweiniodd hyn at arbedion o tua £77mil mewn perthynas â chyllideb 2010/2011.

#### *Caffael*

**5.5.15** Mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i foderneiddio ei brosesau caffael ac mae ganddo gysylltiadau cryf gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy'r Tîm Gwerth Cymru, a chyrrff sector cyhoeddus cyfagos. Mae'r Awdurdod yn aelod o Bartneriaeth Caffael Gogledd Cymru sy'n gweithredu ar gyfer chwe Awdurdod Gogledd Cymru. Sefydlwyd y bartneriaeth i gyflawni tîm caffael rhanbarthol i gyflymu a gwella arbedion caffael trwy gaffael detholiad o nwyddau a gwasanaethau ar y cyd.

**5.5.16** Yn ystod 2009/2010, ehangwyd y swyddogaeth Caffael Corfforaethol i ddarparu gwell lefel o gefnogaeth i wasanaethau, cynghori ar yr ymarferion caffael, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â gwerthusiadau ansawdd/pris, neu sy'n gofyn am gadw at gyfarwyddiadau'r UE. Mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i gryfhau swyddogaeth yr uned ymhellach, i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r fframwaith rheoleiddio a lleihau risgiau caffael.

#### *Hyfforddiant Staff*

**5.5.17** Mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu gan unigolion sydd â'r capasiti a'r sgiliau i alluogi gwelliannau parhaus. Cafodd Conwy y wobwr Buddsoddwyr mewn Pobl ar gyfer yr Awdurdod cyfan ym mis Medi 2008, ac fel y mae adroddiad yr asesiad yn nodi, mae wedi ymrwmo i ddatblygu a hyfforddi ei weithlu.

#### *Effeithlonrwydd*

**5.5.18** Mae'r Awdurdod wedi ymateb yn bositif i Raglen Gwella Cymru mewn perthynas â chyflawni, mesur, ac arddangos enillion effeithlonrwydd, ac mae'n datblygu ei brosesau ymhellach i wella ar y sylwadau positif a gafwyd yn y Llythyr Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG ym mis Rhagfyr 2009.

**5.5.19** Yn niwedd 2009, dechreuodd yr Awdurdod adolygu ei swyddfeydd fel rhan o'i ymdrechion i fynd i'r afael â'r pwysau economaidd ac ariannol mawr sy'n bodoli ar hyn o bryd, a gwella'r profiad cwsmer ar gyfer dinasyddion Conwy, yn ogystal â gwella amgylchedd gwaith ein hased pennaf, ein staff. Datblygwyd ystod o gynigion, ac mae'r Awdurdod yn parhau i ddatblygu dewisiadau pellach o ganlyniad i'r hinsawdd ariannol newidiol, a chyfleoedd eraill sydd wedi cyflwyno eu hunain yn ddiweddar, er mwyn mynd i'r afael â heriau'r sefydliad.

**5.5.20** Yn ystod 2009/2010 bu gwaith yn parhau ar Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y mwyafrif o asedau gweithredol Conwy, er mwyn ei gysylltu â pholisïau corfforaethol. Hefyd, mae'r Gwasanaeth Priffyrdd ac Isadeiledd wedi cwblhau nifer o gamau gweithredu'r Cynlluniau Rheoli Asedau Priffyrdd yn ystod 2009/10 ac yn parhau i weithredu a datblygu prosesau Rheoli Asedau.

#### *Gwobrau a Llwyddiannau*

**5.5.21** Mae'r Cyngor yn datblygu yn dda tuag at gyflawni ei amcanion corfforaethol ac wedi gwneud gwelliannau sylweddol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:

- Llythyr Blynyddol positif a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2009 yn cadarnhau bod Conwy yn Awdurdod sy'n gwella;
- Cymdeithas Lywodraeth Leol yn paratoi cyfres o astudiaethau achos yn ymwneud ag ymyriadau lechyd a Lles ar gyfer gweithwyr awdurdod lleol, ac mae Conwy wedi'i dewis fel un o ddeg enghraifft o arfer da oherwydd effeithiolrwydd a mynediad cyflym at y cynllun ffisiotherapi;"
- Diwrnod Cyngor Ieuenctid Llwyddiannus gyda'r Cabinet;
- Datblygu cynllun risg llifogydd ar gyfer Morfa Rhuddlan gan ddadansoddi ymatebion dynol;
- Achrediad Lexcel y Gwasanaethau Cyfreithiol;
- Gwasanaeth Arlwygo Conwy wedi ennill Gwobr Rhanbarthol Cymru Cymdeithas Arlwygyr Awdurdod Lleol;
- Siarter CLILC ar gyfer Datblygu a Chefnogi Aelodau;
- Darparu gwasanaethau gofal seibiant iechyd meddwl mwy hyblyg;
- Cynnal dau ddigwyddiad swyddi i gefnogi'r gymuned ehangach;
- Agor dau Gynllun Tai Gofal ychwanegol;

- Uno'r adeiniau asesu Budd-dal Tai a Budd-dal Treth y Cyngor â Phrydau Ysgol am Ddim a Grantiau Gwisg Ysgol, gan arwain at fwy o bobl yn cael budd-dal a gwell gwasanaeth i'r trethdalwr;
- Cymeradwyo cyllid i ddatblygu TCC ledled Gogledd Cymru;
- Cael nifer o faneri glas, gwobrau glan y môr, a gwobrau arfordir gwyrdd a dwy Faner Werdd;
- Gwella nifer y rhandiroedd sydd ar gael;
- Achrediad Draig Werdd lefel 3;
- Cymru yn ei Blodau, gwobr 1<sup>af</sup> a Gwobr Aur ar gyfer Bae Colwyn;
- Cymru yn ei Blodau, gwobr 1<sup>af</sup> a Gwobr Haen Arian ar gyfer Llandudno;
- Prydain yn ei Blodau, Gwobr Haen Arian ar gyfer Bae Colwyn;
- Yn y Gwobrau Rhagoriaeth Cymru, cawsom ein canmol am ddatblygu sefydliadol dan y pennawd "Ein Awdurdod (Trawsnewid ein Sefydliad) ac "Ein Dinasyddion a'n Cymunedau (Creu Cymdeithas Gynhwysol); ac
- Yn y Gwobrau Rhagoriaeth Cymru cawsom dystysgrif i gydnabod Astudiaeth Risg Llifogydd Llanw Conwy, a elwir yn "Ein Dyfodol (Ymateb i Newid Hinsawdd)."

## **5.6 RHEOLI ARIANNOL AWDURDOD A RHOI GWYBOD AM REOLI ARIANNOL.**

**5.6.1** Mae'r Awdurdod wedi penodi Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol yn Brif Swyddog Ariannol yn unol ag Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn cael ei gynnal yn unol â'r Rheoliadau Ariannol a nodwyd yn y Cyfansoddiad.

**5.6.2** Mae'r Awdurdod yn cynnal proses gyllidebu a arweinir gan flaenoriaethau a risg, sy'n ceisio cyfeirio adnoddau refeniw a chyfalaf at flaenoriaethau a risgiau strategol. Mae Grŵp Monitro Rhaglen Gyfalaf yn goruchwyllo datblygu'r broses hon mewn perthynas ag adnoddau cyfalaf. Mae'r Grŵp Monitro Rhaglen Gyfalaf yn gweithredu o fewn yr egwyddorion yn y Fframwaith Llywodraethu Cyfalaf a gymeradwywyd.

### *Sefydlu a Monitro Cyllideb*

**5.6.3** Mae trefnau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer rheolaeth ariannol yr Awdurdod a rhoi gwybod am wybodaeth rheoli ariannol sydd wedi ei gynnwys yn y Fframwaith Cynllunio Busnes. Mae gan yr Awdurdod set o Egwyddorion Ariannol Arweiniol i gefnogi ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig Cryno, ac wedi datblygu rhagolygon cyllidebol strategol y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol sydd i ddod.

**5.6.4** Mae'r Awdurdod yn gweithredu cynllun o gyllidebau wedi'u dirprwyo sy'n cael eu cefnogi gan unedau cyllid canolig ac adrannol. Mae'r rhain wedi eu tanategu gan drefnau proffesiynol sy'n sefydlu cyfrifoldeb a llinellau rhoi gwybod ar gyfer Cyfrifwyr gwasanaeth.

**5.6.5** Bydd adroddiadau monitro cyllideb, sy'n nodi rhagolygon blwyddyn lawn yn cael eu rhoi i'r Cabinet a'r Gweithgor yn fisol, ac i'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn chwarterol. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi rhesymau am amrywiadau ac yn nodi unrhyw gamau cywiro a gynigir. Bydd adroddiadau monitro manwl yn cael eu paratoi ar gyfer rheolwyr gwasanaeth a Phenathiaid Gwasanaeth i helpu deiliad cyllideb i gyflawni eu cyfrifoldebau ariannol.

**5.6.6** Sefydlwyd nifer o Fyrddau Prosiect penodol i fonitro datblygiad a gwariant ar y prosiectau strategol allweddol.

### *Rheoli Trysorlys*

- 5.6.7** Bydd gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn cael eu cynnal yn unol â'r Strategaeth a Chynllun Blynyddol Rheoli Trysorlys, ac mae'r benthycia yn unol â'r Cod Darbodus. Mae'r Awdurdod wedi ymateb yn rhagweithiol i'r Cod Darbodus, a rhoddir gwybod i aelodau etholedig am y dangosyddion darbodus. Mae'r Awdurdod wedi datblygu polisi sy'n sefydlu amodau ar gyfer defnyddio benthycia darbodus.

### *Grantiau*

- 5.6.8** Mae'r Awdurdod yn denu nifer fawr o grantiau i ariannu'r prosiectau a chynlluniau. Mae rhai grantiau yn rhai sydd wedi bodoli ers hir, ac mae eraill yn fwy diweddar, ac yn adlewyrchu polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y materion cynaladwyedd sy'n deillio o gefnogaeth grant. O ganlyniad, datblygwyd protocol grantiau i sicrhau bod agwedd gyson yn cael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod ar gyfer pob grant, gyda phwyslais penodol ar wneud cais am, a derbyn, ffynonellau cyllid newydd.

## **5.7 RHEOLI PERFFORMIAD**

### *Fframwaith Rheoli Perfformiad*

- 5.7.1** Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Fframwaith Rheoli Perfformiad ers 2005 sy'n ymwneud â'r broses a'r amserlen ar gyfer gweithredu elfennau allweddol o reoli perfformiad sef:

- Amcanion Corfforaethol
- Cynlluniau Gweithredu Blynyddol y Gwasanaeth
- Adolygiadau Datblygu Personol
- Rheoli Risg
- Rheoli Prosiect
- Mesurau Perfformiad
- Rheoleiddio ac Archwilio
- Cynllunio Ariannol
- Trefniadau Craffu

Mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad rŵan yn cael ei ddiweddarau yn dilyn cyhoeddi Rhaglen Gwella Cymru Newydd.

### *Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol*

- 5.7.2** Mae gan yr Awdurdod Dîm Gwella a Datblygu Corfforaethol sefydledig (CIDT) sy'n gwneud amryw o ddyletswyddau gyda'r nod o gefnogi a chydlynu'r rhaglen wella yng Nghonwy. Mae'r Tîm hefyd yn cefnogi, ac yn rhoi gwybod am berfformiad yn gyson ym mhob gwasanaeth. Cafodd y Tîm eu harwain gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwella a Datblygu nes iddi adael ym mis Rhagfyr 2009, ac yna gan y Prif Weithredwr.

### *Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol*

- 5.7.3** Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol yn darparu agwedd rhagweithiol i ddadansoddi cwynion a chanmoliaeth. Mae cronfa ddata ymgynghori yn cael ei datblygu, ac mae ar gael ar fewnwyd y Cyngor. Bydd yn cael ei chyflwyno i'n partneriaid i'w defnyddio fel pecyn ar y wefan yn ystod 2010/2011.

### *Cynllun Corfforaethol a Chytundeb Gwella*

- 5.7.4** Mae'r Cynllun Corfforaethol yn ddogfen strategol sy'n amlinellu sut y byddwn yn sicrhau gwelliant parhaus yn y modd rydym yn gwneud ein swyddogaethau. Mae'n cael ei gefnogi gan Gynllun Darparu'r Cynllun Corfforaethol, sy'n manylu ar gamau penodol, datblygiad, adnoddau, swyddog arweiniol ac aelod cabinet arweiniol a phwyllgor trosolwg a chraffu penodol pob amcan.
- 5.7.5** Mae'r Awdurdod hefyd wedi bod yn gweithio i gwblhau'r amcanion a nodwyd yn y Cytundeb Gwella gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cafwyd y lwfans grant llawn ar gyfer 2008/2009 ac mae ffigyrau perfformiad bron wedi'u cwblhau ar gyfer 2009/2010.
- 5.7.6** Bydd Cytundebau Gwella rŵan yn cael eu disodli gan Gytundebau Canlyniad, ac mae'r Awdurdod yn gweithio i ddatblygu Cynllun Gweithredu Canlyniad yn unol ag amcanion y Cynllun Corfforaethol.
- Heriau Mewnol ac Allanol*
- 5.7.7** Mae'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn monitro perfformiad y gwasanaethau drwy adolygu data mesur perfformiad, gan gynnwys dangosyddion perfformiad, a'r Cytundeb Gwella bob 6 mis.
- 5.7.8** Cynhaliwyd Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth ym mis Mai a mis Hydref yn ystod 2009/2010 ledled yr Awdurdod.
- 5.7.9** Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Rhwydwaith Perfformiad a Pholisi sy'n cyfarfod bob chwarter i alluogi swyddogion busnes a pherfformiad yn y gwahanol wasanaethau i rannu arferion da.
- 5.7.10** Bydd adroddiadau cynnydd sy'n nodi'r gwelliannau a wnaed wrth ymateb i argymhellion rheolyddion allanol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ddwywaith y flwyddyn. Bydd datblygiadau wrth weithredu argymhellion Archwilio Mewnol yn cael eu riportio yn chwarterol.
- 5.7.11** Yn ystod 2009/2010 cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru nifer o archwiliadau sydd wedi'u crynhoi yn y tabl isod. Ystyriwyd yr adroddiadau gan y Pwyllgor Archwilio. Aeth y Cynrychiolydd Archwilio a Chyfarwyddiaeth i'r cyfarfodydd hyn i gyflwyno'r darganfyddiadau a'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno.

<b>DYDDIAD</b>	<b>MAES</b>	<b>SYLWADAU YN GRYNO</b>
Medi 2009	Mesur Llywodraeth Leol – Cynllun Arbrofol	Trefniadau presennol y Cyngor i ddarparu sylfeini i gefnogi cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau. Ond, yn dilyn heriau'r dyfodol, os nad oes penderfyniadau amserol a gwybodus yn cael eu gwneud sy'n esbonio'r canlyniadau bwriedig ac yn canolbwyntio ar adnoddau sydd ar gael, mae gwelliannau sylweddol mewn meysydd eraill yn annhebygol.
Rhagfyr 2009	Rheoli Carbon ac Ynni	Mae awydd cryf ymysg aelodau a swyddogion i gyflwyno mesurau lleihau carbon, ond mae'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio a chyfeirio brwdfrydedd i wneud iddo ddigwydd.
Rhagfyr 2009	Diwedd Prosiect Trosolwg a Chraffu	Yn gyffredinol, mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau effeithiol i gefnogi trosolwg a chraffu. Mae'n ymddangos fod cynnydd da iawn wedi'i wneud i wella safon craffu a gwella ei effaith. Mae'r Cyngor mewn sefyllfa gref i wella ar y llwyddiannau hyd yma a chynnal y gwelliannau. Mae ymrwymiad y swyddogion a'r aelodau i sicrhau fod y prosiect wedi cyflawni ei amcanion i'w ganmol.

Ion 2010	Rheoli Adeiladau – Creu'r Cysylltiadau	Mae gan yr Awdurdod drefniadau rheoli tir ac adeiladau penodol i gefnogi gwelliannau mewn effeithlonrwydd a darpariaeth gwasanaeth i ddiwallu anghenion a disgwyliadau defnyddwyr y 21ain ganrif, ond mae cyfleoedd clir ar gyfer gwelliannau y gellir eu cael trwy ddrafftio Cynllun Rheoli Asedau cadarn ar gyfer cyfnod 2009-2014
Ion 2010	Digartrefedd – adolygiad ar y cyd gyda'r Archwilwyr Mewnol	Mae angen i'r timau Strategaeth Tai a Digartrefedd yn CBSC weithio yn agosach gyda'i gilydd i ddatblygu strategaeth effeithiol ar gyfer ymdrin â digartrefedd a gwneud y gorau o berthnasau gyda Cartrefi Conwy a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill.

### *Grŵp Archwilio a Gwella*

**5.7.11** Yn ystod 2008/2009, sefydlwyd Grŵp Archwilio a Gwella. Prif bwrpas y grŵp yw cefnogi ac ategu proses Rhaglen Gwella Cymru gyda rheolyddion allanol. Mae'n sicrhau fod y risgiau a nodwyd yn cael eu datrys yn briodol trwy weithredu mesurau effeithiol i liniaru risgiau. Mae'r mesurau yn cynnwys egwyddorion rheoli perfformiad a rheolaeth fewnol. Mae'r grŵp yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael, y Rheolwr Archwilio, y Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol, y Cydlynnydd Adolygu Gwelliant, Swyddog Adran 151 (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros dro ar hyn o bryd) a'r Swyddog Monitro (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros dro ar hyn o bryd). Mae rhaglen o gyfarfodydd misol i:

- helpu gyda llif gwaith;
- cefnogi'r broses adolygu perfformiad gwasanaeth a chanfod risgiau;
- adolygu adroddiadau rheoleiddio drafft allanol a chynlluniau gweithredu perthnasol a gynhyrchwyd gan y gwasanaethau;
- ystyried cynnydd wrth weithredu argymhellion rheolyddion allanol; a
- ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, y fframwaith a'r cynllun gweithredu perthnasol.

### **5.8** *FFURFIO, CYSYLLTU A CHYNNAL PERTHNASAU EFFEITHIOL GYDA PHOBL LEOL A RHANDDEILIAID*

#### *Y Cynllun Corfforaethol ac Ymgynghoriad Cymunedol*

**5.8.1** Mae'r Cyngor wedi creu mecanweithiau ar gyfer deialog parhaus gyda phobl leol a rhanddeiliaid. Datblygwyd y Cynllun Corfforaethol yn 2008 yn unol â fframwaith y Strategaeth Gymunedol. Datblygwyd y cynllun ar ôl dadansoddi anghenion demograffig yn fanwl ac ymgynghori yn helaeth ar faterion a gweithredoedd allweddol. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio atborth ymgynghoriad cymunedol a gynhaliwyd gan wahanol bartneriaethau, gweithdai gyda phartneriaid, aelodau etholedig a'r UDRh. Roedd amcanion a ddatblygwyd hefyd yn cynnwys ystyried y rhaglen genedlaethol, data perfformiad ac argymhellion o adroddiadau arolwg.

**5.8.2** Mae ymglymiad cymunedol yn y broses hon yn hanfodol ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi datblygu deialog parhaus o roi atborth ynglŷn â chynnydd a thrafod anghenion y dyfodol mewn diwrnodau Cyfarfod y Cyngor, Bwletin Conwy, cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol a datblygu Cynlluniau Gweithredu Lleol gydag aelodau etholedig lleol. Mae ymglymiad cymunedol wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu prosiectau penodol, gan sicrhau fod y gymuned ynghlwm â sefydlu amcanion, a hefyd yn bartner wrth ddatblygu prosiectau i gyflawni'r amcanion a nodwyd. Mae hyn yn cynnwys deialog cymunedol parhaus ynglŷn â phrosiectau pwysig fel Moderneiddio Ysgolion Cynradd, Tai Gofal Ychwanegol, Ailgylchu Gwastraff, Cynllun Cyffordd Llandudno, SRA Bae Colwyn, fforymau Strydlun, gwaith rhyng-genhedlaeth, a Risgiau Llifogydd.

### *Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol*

- 5.8.3** Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol yn darparu agwedd rhagweithiol tuag at ddadansoddi a dehongli cwynion a chanmoliaeth. Yn ystod 2009/2010 roedd gwaith ar y gweill i gyflwyno gwelliannau i'r gronfa ddata monitro corfforaethol, sydd heb ei gwblhau eto. Hefyd, dechreuodd adolygiad o'r trefnau Cwynion Corfforaethol yn ystod 2009/2010, ond cafodd ei ohirio dros dro i aros am gwblhau'r drefn gwynion sengl ar gyfer cyrff cyhoeddus Cymru gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei lunio i ganfod y nifer a'r mathau o gwynion y mae'r Awdurdod wedi ymdrin â nhw yn ystod y flwyddyn.

### *Cynlluniau Gweithredu Lleol*

- 5.8.4** Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol. Mae hyn wedi cynnwys trafodaethau gyda Chynghorau Tref lleol ac aelodau etholedig ynglŷn â datblygiad cynlluniau gweithredu i wella eu hardal lleol. Pan fydd y cynlluniau gweithredu wedi'u cwblhau byddant yn rhan o'r Strategaeth Gymunedol ddiwygiedig.

### *Cyngor Ieuenctid*

- 5.8.5** Sefydlwyd Cyngor Ieuenctid a bu cyfarfodydd llwyddiannus ar y cyd gyda Chabinet yr Awdurdod.

### *Ymgynghoriad Cwsmeriaid*

- 5.8.6** Mae penodiad y Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Cwsmer wedi dangos gwelliant sylweddol yn yr agwedd gorfforaethol tuag at Gysylltu â Chymunedau. Er bod angen gwneud gwaith pellach ar y Gronfa Ddata Ymgynghori, mae Fframwaith Ymgynghori Cwsmeriaid wedi'i ddratffio i gael cymeradwyaeth. Mae archwiliadau i ymarferoldeb system Rheoli Perthnasau Cwsmeriaid ar y gweill ac mae'r gwaith o sefydlu proses 'dweud wrthym unwaith' wedi dechrau.

### *Cyngor Staff*

- 5.8.7** Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cyngor Staff a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2009. Mae'n cynnwys staff a enwebwyd o bob rhan o'r Awdurdod gyda'r nod o ddarparu cyswllt cyfathrebu rhwng staff a rheolwyr gweithredol yr Awdurdod. Mae'r Cyngor Staff yn gweithredu mewn modd ymgynghorol ac mae'n gyfle i staff gymryd rhan wrth ddatblygu polisiau a threfnau corfforaethol ac yn galluogi rheolwyr i rannu gwybodaeth gorfforaethol allweddol gyda staff. Bydd gan staff hefyd gyfle i herio datblygiad gwelliannau gwasanaeth yn yr Awdurdod trwy wirfoddoli i gymryd rhan yn y cynllun naw thema allweddol. Mae'r cynllun yn galluogi staff ac aelodau etholedig i gynnal hunanasesiad ar y gwelliannau llywodraethol yn yr Awdurdod. Mae'r cynllun rŵan wedi'i adolygu a bydd chwe thema llywodraethol allweddol yn cael eu hasesu yn ystod 2010/2011.

### *Strategaeth Gyfathrebu*

- 5.8.8** Mae grŵp cyfathrebu corfforaethol wedi'i sefydlu dan arweiniad y Prif Weithredwr. Mae'r grŵp wedi datblygu Strategaeth Gyfathrebu Corfforaethol a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2010 ac mae rŵan yn cael ei weithredu. Mae'r Awdurdod hefyd yn arwain wrth ddatblygu cyfathrebu a pherthnasau gyda sefydliadau eraill ar lefel uwch. Mae Rheolwr Cydlynu Partneriaeth y Cyngor yn gyfrifol am gefnogi Bwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy a chydlynu partneriaethau thematig strategol eraill. Mae uwch reolwyr yn cael eu cynrychioli ar bob un o'r byrddau. Trwy'r byrddau hyn, mae'r Awdurdod yn sicrhau fod cyfathrebu a chydweithio yn uchel ar raglenni'r partneriaid. Mae'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd hefyd yn rhan o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n datblygu cydweithio ledled y rhanbarth.

### *Adroddiad Perfformiad Blynyddol*

- 5.8.9** Er mwyn cyflawni ein goblygiadau statudol, bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi bob mis Hydref gan fanylu ar berfformiad yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

## **6. ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD**

### *Prosiect Asesu a Gwella Corfforaethol*

- 6.1** Cynhaliodd CBS Conwy adolygiad Asesu a Gwelliant Corfforaethol (CAI) cynhwysfawr a chynhwysol yn ystod 2005/2006 yn dilyn adroddiad siomedig gan WAO oedd yn argymhell Arolwg Llywodraethu Corfforaethol Adran 10. Roedd arolwg dilynol gan WAO yn ystod 2006/2007 yn nodi fod “y Cyngor wedi mabwysiadu agwedd bositif, adeiladol ac Awdurdod cyfan fydd, gyda gwell coethder ac arweinyddiaeth fwy effeithiol ac atebol, yn cymell gwelliannau parhaus mewn gwasanaethau”. Cyflwynodd y Cyngor y prosiect CAI i’w ystyried ar gyfer gwobr yn y categori ‘Ein Awdurdod’ trwy’r broses Rhagoriaeth Cymru a chafwyd canmoliaeth gan y panel beirniadu mewn perthynas â ‘Trawsnewid ein Sefydliad’ yn 2009.

### *Llythyr Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2008/2009*

- 6.2** Mae Archwilwyr Allanol y Cyngor (KPMG a Swyddfa Archwilio Cymru) yn adolygu gweithgareddau’r Cyngor ac yn archwilio’r cyfrifon blynyddol. Rhoddir gwybod i’r aelodau etholedig a’r rheolwyr am y casgliadau a’r materion pwysig sy’n codi yn yr adroddiadau allweddol. Yn y llythyr blynyddol diweddaraf a gynhyrchwyd ym mis Rhagfyr 2009, roedd y WAO yn nodi bod “trefniadau corfforaethol y Cyngor yn darparu sylfaen i gefnogi trefn lywodraethol effeithiol a chynnydd yn erbyn blaenoriaethau, ond bydd penderfyniadau amserol a gwybodus yn angenrheidiol i gynnal gwelliant yn y dyfodol.

- 6.3** Roedd y Llythyr Blynyddol hefyd yn nod fod ‘Cynllun Gwella’r Cyngor 2009/2010 yn diwallu gofynion statudol ac yn rhoi barn gytbwys o’i berfformiad yn 2008/2009”.

### *Gwasanaeth Archwilio Mewnol*

- 6.4** Mae’r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn wasanaeth mewnol sy’n darparu adolygiad parhaus yn unol â goblygiadau’r Awdurdod dan y Cod Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol ym Mhrydain. Mae’r adain Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sicrwydd sy’n darparu barn annibynnol a gwrthrychol i’r sefydliad ar yr amgylchedd rheoli trwy werthuso effeithiolrwydd wrth gyflawni amcanion y sefydliad.
- 6.5** Mae’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithio’n barhaus gyda rheolwyr i asesu’r amgylchedd rheoli a gwella rheolaethau yn ôl yr angen. Mae cynllun archwilio mewnol strategol yn seiliedig ar risg pedair blynedd wedi’i sefydlu sy’n archwilio pob system ariannol allweddol. Mae’r amcanion Archwilio Mewnol yn cynnwys:

- Adolygu a gwerthuso systemau rheolaeth yn annibynnol yn yr Awdurdod;
- Argymhell gwelliannau mewn trefnau, rheolaethau a chynhyrchiant systemau i gyflawni nodau ac amcanion corfforaethol;
- Gweithio mewn partneriaeth gydag Archwilwyr Allanol gan sicrhau cyflenwad archwilio effeithiol a gwneud y gorau o’r adnoddau archwilio sydd ar gael;
- Gweithio yn unol â Strategaeth Gwrth Dwyll a Llygredigaeth yr Awdurdod a chynnal archwiliadau i dwyll ac anghysondebau yn ôl yr angen;
- Rhoi gwybod i’r UDRh yn chwarterol mewn perthynas â materion rheoli a ganfuwyd yn ystod cyfnod yr archwiliadau anghysondebau i alluogi mynd i’r afael â materion rheoli mewnol.



### *Datganiad Sicrwydd Blynyddol y Pennaeth Archwilio*

- 6.6** Mae'n rhaid i'r Pennaeth Archwilio Mewnol gynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n rhoi barn ynglŷn ag addasrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor, a rhoi manylion unrhyw wendidau sy'n cyd-fynd â'r farn hon a thynnu sylw at unrhyw faterion sy'n berthnasol i baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi tystiolaeth a sicrwydd fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â'r safonau a nodwyd yn y Cod Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol ym Mhrydain i alluogi'r Cyngor i gael sicrwydd o'r farn hon.
- 6.7** Mae Datganiad Sicrwydd Blynyddol 2009/10 yn cynnwys y farn ganlynol "Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drefniadau rheolaeth fewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol boddhaol i reoli llwyddiant amcanion y sefydliad". Ond, ni all y sicrwydd archwilio mewnol fod yn absoliwt a dim ond y gwendidau amlwg a ganfuwyd mewn perthynas â'r meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, ac nid yw'n ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli neu'r gwelliannau fydd eu hangen. Mae'r sicrwydd yn gyfyngedig mewn perthynas â'r 44 prosiect archwilio a ddilëwyd o'r cynllun blynyddol yn ystod 2009/2010 ac yn benodol y nifer archwiliadau ariannol sydd heb eu cwblhau yn ystod y flwyddyn oherwydd materion adnoddau.

### *Hunanasesiad*

- 6.8** Comisiynwyd nifer fawr o brosiectau mewn strwythur rheoli prosiect i fynd i'r afael â nifer o gamau gweithredu allweddol sy'n deillio o'r adroddiad CAI gwreiddiol. Roedd yr adroddiad yn nodi naw thema allweddol ac mae'r rhain wedi'u hadolygu fel rhan o gynllun Awdurdod cyfan ar gyfer hunanasesu darparu manteision tymor byr, canolig a hir i'r Awdurdod ar gyfer pob agwedd o lywodraethu corfforaethol, a bydd yn mynd i'r afael â llawer o'r agweddau rheoli mewnol sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r cynllun naw thema allweddol wedi'i gynnal ers 2 flynedd ac mae'n amlwg fod y themâu rŵan wedi'u cwblhau. Yn dilyn adolygiad o'r cynllun bydd chwe thema allweddol yn cael eu defnyddio ar gyfer yr hunanasesiad yn ystod 2010/2011. Bydd y chwe thema allweddol yn seiliedig ar Hierarchaeth Asesu Corfforaethol WAO ar gyfer Rhaglen Gwella Cymru

### *Y Cyfansoddiad*

- 6.9** Adolygwyd Cyfansoddiad yr Awdurdod yn drylwyr yn ystod 2009/2010 a chymeradwywyd y diwygiadau gan y Cyngor. Mae'r Cyfansoddiad yn cael ei adolygu yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn diwallu gofynion statudol a'r amgylchedd gwaith newidiol.
- 6.10** Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal adolygiad parhaus o bob mater cyfreithiol a moesol, gan gael copïau o bob rhaglen, cofnodion, adroddiadau a phapurau cysylltiol gan roi sylwadau os oes angen, neu weithredu os yw'n briodol.
- 6.11** Mae'r Pwyllgor Safonau yn gyfrifol am safonau a chywirdeb, ac yn cael adroddiadau rheolaidd gan y Swyddog Monitro.
- 6.12** Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal trosolwg o swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol y Cyngor. Bydd aelodau etholedig yn cael copïau o'r holl adroddiadau a gynhyrchwyd gan yr Archwilwyr Mewnol, Swyddfa Archwilio Cymru, a KPMG. Byddant yn cymeradwyo'r cynlluniau blynyddol ar gyfer pob un ac yn cael adroddiadau cynnydd rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Pennaeth Archwilio a Chaffael yn cyflwyno'r Datganiad Sicrwydd Blynyddol i'r pwyllgor hwn. Mae'r Archwilwyr Allanol yn cyflwyno Adroddiad i'r Rhai â Chyfrifoldeb Llywodraethol, a Llythyr Blynyddol. Ond, mae 2009/2010 yn cynrychioli newid mewn agwedd gan ein rheolyddion allanol gyda chyflwyniad y Mesurau Llywodraeth Leol.

### *Rheoli Risg*

- 6.13** Adolygwyd y Strategaeth Rheoli Risg yn ystod 2009/2010 ac mae Rheoli Risg wedi gwella fwy fyth yn ystod y flwyddyn gyda hyfforddiant priodol ar gyfer staff ac aelodau etholedig.
- 6.14** Roedd risg yn nodwedd bwysig o'r ystyriaethau sefydlu cyllideb ar gyfer y Cyngor yn ystod 2009/2010 wrth sefydlu'r gyllideb a'r Treth y Cyngor ar gyfer 2010/2011.

### *Rheoli Ariannol*

- 6.15** Mae gan yr Awdurdod hanes diweddar o reoli ei gynlluniau gwario o fewn y gyllideb a gymeradwywyd, ac mae Llythrau Blyneddol dilynol a gynhyrchwyd gan WAO ac yna WAO a KPMG yn credu bod yr amgylchedd rheoli cyffredinol yn gadarn ar y cyfan, gyda systemau rheoli ariannol mewnol a threfniadau rheoli ariannol cadarn. Daeth archwiliad diweddar gan KPMG o Drefniadau Rheoli Ariannol yng Nghonwy, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2008, i'r casgliad fod gan Gonwy 'drefniadau rheoli ariannol sefydledig sy'n helpu i gyflawni amcanion strategol a gweithredol yr Awdurdod'.

### *Cynllunio Busnes a Rhoi Gwybod*

- 6.16** Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Fframwaith Cynllunio Busnes ac yn monitro ac adolygu cynnydd yn barhaus yn erbyn camau gweithredu y cytunwyd arnynt ac a nodwyd yng Nghynlluniau Gweithredu Blyneddol y gwasanaethau. Bydd ein cynnydd yn erbyn yr amcanion corfforaethol hefyd yn cael ei fonitro hanner ffordd drwy'r flwyddyn a'i riportio i'r Gweithgor, yr UDRh, y Cabinet, a'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Cynhelir sesiynau cynllunio strategol gyda'r Cabinet a'r uwch swyddogion i ganfod a chytuno ar y pethau strategol allweddol i'w cyflawni a thargedau fel y nodwyd yn ein Cynllun Corfforaethol. Mae monitro rheolaidd yn ein galluogi i adolygu ein cynnydd yn erbyn y targedau a nodwyd mewn mesurau perfformiad statudol a lleol. Rydym yn rhoi gwybod am ddatblygiadau yn ein Adroddiad Blyneddol ac yn rhoi gwybod am weithgareddau gwella a gynlluniwyd yn adolygiad blyneddol y Cynllun Corfforaethol.

## **7. RHAGLEN O WELLIANNAU AR GYFER MATERION LLYWODRAETHU**

- 7.1** Nid yw'r Cyngor yn hunanfodlon. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol hwn wedi canfod meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau pellach. Yr hyn sy'n dilyn yw crynodeb o'r meysydd y bydd y Cyngor yn canolbwyntio ei ymdrechion arnynt yn ystod 2010/11.
- 7.2** Y bwriad yw y bydd pob un o'r camau gweithredu a nodwyd yn y rhaglen wella hon yn cael eu cynnwys yn Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth y dyfodol. Bydd cynnydd yn erbyn y mesurau gwella sydd eu hangen yn cael eu cydlynu a'u monitro gan y Grŵp Gwella ac Archwilio a'u riportio i'r Pwyllgor Archwilio.
- 7.3** Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yr amgylchedd llywodraethu a rheoli, credir mai'r canlynol yw blaenoriaethau mwyaf yr Awdurdod:-
- (i)** Datblygu'r broses adolygu i roi gwybod i'r Awdurdod am ddatblygiadau mewn perthynas â'r 6 thema allweddol newydd a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod.
  - (ii)** Adolygu'r Fframwaith Rheoli Perfformiad o ganlyniad i'r canllawiau WPI newydd.
  - (iii)** Sefydlu cofrestr tystiolaeth i gefnogi'r Fframwaith Llywodraethu Blyneddol.

- (iv)** Datblygu Strategaeth Ariannol fanylach sy'n edrych ymlaen ac yn canfod materion ariannol y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol sydd i ddod.
- (v)** Cyflwyno fersiwn drafft y Cod Llywodraethu Corfforaethol trwy'r broses ddemocrataidd ar gyfer ei ystyried a'i gymeradwyo.
- (vi)** Datblygu Strategaeth Pobl newydd i ddarparu cynllun gweithlu i gefnogi ein deilliannau strategol a busnes yn y dyfodol.
- (vii)** Cwblhau'r adolygiad o'r Cynllun Adolygu Perfformiad a Datblygiad i staff.
- (viii)** Gorffen datblygu gwefan ystadegau ar gyfer y Sir i'w lansio yn ystod 2010/2011
- (ix)** Gweithredu'r drefn Llywodraethu Partneriaeth a'r Cynllun Gwella.
- (x)** Gorffen datblygu'r Gronfa Ddata Ymgynghori i'w gyflwyno i bob partner fel pecyn ar y wefan yn ystod 2010/2011.
- (xi)** Cwblhau'r cynlluniau gweithredu ardal leol mewn perthynas â 5 ardal.
- (xii)** Parhau i foderneiddio'r modd rydym yn darparu ein gwasanaethau i sicrhau defnydd effeithiol o'n adnoddau ariannol
- (xiii)** Gorffen yr ymarfer i gysylltu'r Cynllun Rheoli Asedau â pholisïau corfforaethol.
- (xiv)** Ymateb i'r hinsawdd ariannol heriol ar gyfer y sector cyhoeddus trwy wneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas â pha wasanaethau y gallwn barhau i'w hariannu yn y dyfodol.

## **8. CRYNODEB SICRWYDD**

**8.1** O'r adolygiad, yr asesiad, a'r gwaith monitro parhaus a wnaed, rydym wedi dod i'r casgliad fod systemau allweddol yn gweithredu yn dda ac nad oes gwendidau rheoli sylfaenol. Mae tystiolaeth bellach i gefnogi'r casgliad hwn yn:-

- Datganiad Sicrwydd Archwilio Mewnol Blynnyddol 2009/2010,
- Y Llythyr Blynnyddol diweddaraf i'r Cyngor (Rhagfyr 2009), ac
- Adroddiad Aseiad Corfforaethol dechreuol Gorffennaf 2010.

**8.2** Hefyd, mae tystiolaeth fod y broses barhaus ar gyfer canfod, gwerthuso a rheoli'r risgiau allweddol a'r rhaglen wella yn adran 7 yn briodol. Nid oes unrhyw faterion rheoli mewnol sylweddol wedi'u nodi, ac yn seiliedig ar y gwahanol sicrwydd a roddwyd, nod y datganiad yw rhoi sicrwydd rhesymol fod trefniadau llywodraethu corfforaethol boddhaol wedi'u sefydlu ac yn gweithio yn effeithiol.

**Llofnod**

**Llofnod**

**Dyddiad**                    **22/09/2010**

**Dyddiad**                    **22/09/2010**

**K.W. Finch**  
**Prif Weithredwr Dros Dro**

**Y Cynghorydd D.O. Roberts**  
**Arweinydd y Cyngor**

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU Y DATGANIAD CYFRIFON

## CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Y mae'n ofynnol bod y Cyngor yn:

- Trefnu bod ei faterion ariannol yn cael eu gweinyddu'n gywir, a sicrhau bod gan un o'i swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, y swyddog hwnnw yw'r **Swyddog Adran 151**.
- Rheoli ei fusnes mewn modd sy'n sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio gan y Cyngor.

### TYSTYSGRIF YR AWDURDOD

Rwy'n cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 31 Mawrth 2010.

LLOFNOD: .....

Y Cynghorydd Andrew Hinchliff  
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

DYDDIEDIG: 22/09/2010

## **CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG ADRAN 151**

Fel y Prif Swyddog Cyllid, mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor sydd, yn ôl gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gadw Cyfrifon Llywodraeth Leol ym Mhrydain ("Y Cod"), yn gorfod cyflwyno barn gywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar y dyddiad cyfrifyddu, ac o incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon hwn, mae'r Swyddog Adran 151: -

- wedi dewis polisïau addas ar gyfer cadw cyfrifon ac wedi eu defnyddio mewn modd cyson;
- wedi gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhai rhesymol a gofalus;
- wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer;
- wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir sydd yn gyfoes;
- wedi cymryd camau rhesymol i rwystro a chanfod twyll ac unrhyw ymddygiad afreolaidd arall.

### **TYSTYSGRIF SWYDDOG ADRAN 151**

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 31 Mawrth 2010, a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

LLOFNOD: .....

A H Kirkham  
Pennaeth Gwasanaethau Ariannol

DYDDIEDIG: **22/09/2010**

## **ADRODDIAD ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I AELODAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

Rydym wedi archwilio datganiadau cyfrifo a nodiadau cysylltiedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010, dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau cyfrifo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad o Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor, Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddedig, Mantolen a Datganiad Llif Ariannol. Lluniwyd y datganiadau cyfrifo yn unol â'r polisiau cyfrifo a nodwyd yn y Datganiad Polisiau Cyfrifo.

Lluniwyd yr adroddiad hwn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn unig, yn unol â Rhan 2 Deddf of the Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac nid ar gyfer unrhyw bwrpas arall, fel y nodwyd yn y Datganiad Cyfrifoldebau a luniwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cynhaliwyd ein gwaith archwilio fel ein bod yn gallu nodi i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, fel corff, y materion hynny sy'n ofynnol i ni nodi iddynt mewn adroddiad archwilwyr a heb fod i unrhyw bwrpas arall. Hyd y caniateir hynny gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn honni unrhyw gyfrifoldeb i neb arall ond Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn nac am ein barn.

### **Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyllid â Chyfrifoldeb a'r archwiliwr annibynnol:**

Nodwyd cyfrifoldebau'r Swyddog Cyllid â Chyfrifoldeb am lunio'r datganiad cyfrifon yn unol ag unrhyw ofynion cyfreithiol a rheolaethol perthnasol yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cyfrifeg Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009, yn y Datganiad Cyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon.

Ein cyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau cyfrifo a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheolaethol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon).

Rydym yn rhoi gwybod i chi am ein barn ynglŷn ag a yw'r datganiadau cyfrifo a'r nodiadau cysylltiedig yn cyflwyno'n deg ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheolaethol a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cyfrifeg Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009, am sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn.

Rydym yn adolygu a yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Cyflawni Trefn Lywodraethol Dda mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith' a gyhoeddwyd gan CIFPA/SOLACE ym mis Mehefin 2007. Rydym yn rhoi gwybod os nad yw'n cydymffurfio ag arferion priodol a nodir gan CIFPA/SOLACE neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rydym yn gwybod amdani ar ôl archwilio'r cyfrifon. Nid yw'n ofynnol i ni, ac nid ydym wedi ystyried, a yw'r Datganiad Llywodraethu yn trafod pob risg a rheolaeth. Nid yw'n ofynnol ychwaith i ni lunio barn ar effeithiolrwydd trefnau llywodraethu corfforaethol y corff llywodraeth leol na'i drefnau risg a rheolaeth.

Rydym yn darllen gwybodaeth arall a gyhoeddwyd gyda'r datganiadau cyfrifo a nodiadau cysylltiedig ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau cyfrifo a'r nodiadau cysylltiedig a gafodd eu harchwilio. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys Rhagair Esboniadol a Chyfrifon Cronfa'r Ddegwm ac Ymddiriedolaeth Addysg Llanrwst. Rydym yn ystyried y goblygiadau i'n adroddiad os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau perthnasol â'r datganiadau cyfrifo a nodiadau cysylltiedig. Nid yw ein cyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw cynnal gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a sicrhau ei fod yn gywir; nid yw gwaith yr archwilydd yn cynnwys ystyried y materion hyn, ac felly nid yw'r archwilydd yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiad cyfrifon ers iddo gael ei roi ar y wefan.

### **Sail y farn archwilio**

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, y Cod Arferion Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, tystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifo a nodiadau cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wrth baratoi'r datganiadau cyfrifo, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol ar gyfer amgylchiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, wedi'u cymhwyso'n gyson ac wedi'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chyflawnwyd ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oedd eu hangen yn ein barn ni, i roi digon o dystiolaeth i ni roi sicrwydd rhesymol nad oes yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig gamddatganiad o bwys, boed hynny drwy dwyll neu fath arall o afreoleidd-dra neu wall. Wrth lunio ein barn rydym hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd gwybodaeth yn y datganiadau cyfrifo a nodiadau cysylltiedig.

### **Barn am ddatganiadau cyfrifo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Yn ein barn ni mae'r datganiadau cyfrifo a'r nodiadau cysylltiedig yn cyflwyno barn gywir a theg ac yn unol â gofynion cyfreithiol a rheolaethol perthnasol a'r Datganiad o'r Arferion a Argymhellir ar gyfer Cyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2009, sefyllfa Ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 31 Mawrth 2010 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Ian Pennington (Uwch Archwilydd Statudol)  
ar gyfer ac ar ran KPMG LLP, Archwilwyr Statudol,

*Cyfrifwyr Siartredig*  
3 Assembly Square  
Britannia Quay  
Bae Caerdydd  
CF10 4AX

22 Medi 2010



# **DATGANIAD O EGWYDDORION A PHOLISIÂU CADW CYFRIFON**

## 1. **Cyffredinol**

Mae'r Cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r Cod Ymarfer a Chadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr 2009 (SORP 2009), fel y diwygiwyd ef gan y Bwletinâu Diweddarau, gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA), a'r nodiadau arweiniad a gafodd eu cyhoeddi gan CIPFA ar gyfer defnyddio Safonau Cadw Cyfrifon (SSAP a FRS).

Paratowyd y Cyfrif Incwm a Gwariant yn unol â Chod Ymarfer Cyfrifo Gwerth Gorau (BVACOP) a gyhoeddwyd gan CIPFA, gan ymgorffori'r cysyniad o adrodd ar gyfanswm cost gwasanaethau.

## 2. **Darpariaethau**

Bydd darpariaethau yn cael eu gwneud dan FRS 12, os yw digwyddiad wedi bod sy'n rhoi rhwymedigaeth ar y Cyngor sy'n debygol o fod angen setliad trwy drosglwyddo buddion economaidd, ac amseru neu swm y trosglwyddiad yn ansicr.

## 3. **Cronfeydd wrth Gefn**

Ystyrir bod symiau a neilltuwyd ar gyfer amcanion heblaw darpariaethau, fel cronfeydd wrth gefn. Maent naill ai'n arian y cynlluniwyd i'w neilltuo ar gyfer gofynion gwario tymor byr na chawsant eu rhagweld, arian i gynorthwyo gyda rheoli llif ariannol neu adnoddau cronedig na chawsant eu gwario na'u clustnodi ar ddiwedd y cyfnod cyfrifo. Dangosir trosglwyddiadau iddynt ac ohonynt fel neilltuadau yn y Datganiad Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor.

## 4. **Asedau Sefydlog**

### 4.1 Mesur

Mae Asedau Sefydlog y Cyngor wedi cael eu prasio ar seiliau sydd yn briodol i'w categorïau, ac sydd yn gyson a'r Datganiad o Egwyddorion Prasio Asedau a'r Nodiadau Arweiniad sydd wedi eu cyhoeddi gan Sefydliad Brenhinol y Tifsurwyr Siartredig.

Mae asedau gweithredol wedi'u cynnwys yn ôl gwerth defnydd presennol neu gost disodli dibrisiedig.

Mae'r cerbydau a'r offer yn cael eu dangos yn ôl eu cost hanesyddol dibrisiedig fel dirprwy ar gyfer y gost gyfredol.

Mae asedau anniriaethol yn cael eu dangos yn ôl eu cost hanesyddol dibrisiedig.

Mae'r isadeiledd a'r asedau cymunedol yn cael eu dangos yn ôl eu cost hanesyddol dibrisiedig.

Mae tir ac adeiladau anweithredol ac asedau anweithredol eraill wedi'u cynnwys yn ôl eu gwerth marchnad.

Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladau'n cael eu dangos yn ôl eu cost hanesyddol nes byddant wedi eu cwblhau; wedi hynny, byddant yn cael eu prasio yn unol â'r polisiâu cyfrifyddu ac yn cael eu trosglwyddo i'r categori ased priodol.

Cynlluniwyd rhaglen Brisio Asedau i sicrhau fod pob ased sefydlog yn cael ei ailbrisio o leiaf bob pum mlynedd, ac ailbrisiwyd asedau yn ystod rhan olaf blwyddyn ariannol 2009/10 gan Wasanaethau Peirianeg a Dylunio'r Cyngor, gyda dyddiad prisio o 31 Mawrth 2010. Mae rhaglen wedi'i sefydlu i adolygu amhariad gwerth yr asedau bob blwyddyn.

#### 4.2 Cael Gwared ag Asedau

Pan fydd ased yn cael ei werthu neu ei ddigomisiynu, bydd gwerth yr ased yn y Fantolen yn cael ei ddileu yn y Cyfrif Incwm a Gwariant fel rhan o'r cynnydd neu golled ar ôl ei werthu. Bydd derbynebaw ar ôl gwerthu yn cael eu credydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant fel rhan o ennill neu golli ar y gwerthiant (h.y. yn erbyn gwerth yr ased ar adeg ei werthu). Bydd unrhyw enillion ailbrisio yn y Gronfa Ailbrisio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf

Bydd asedau i'w gwerthu yn ystod y flwyddyn yn cael eu hailbrisio i gyd-fynd ag amodau'r farchnad cyn eu gwerthu. Mewn amodau arbennig, fel gwerthu tir ar gyfer Tai Cymdeithasol, gellir gwerthu'r ased am bris sy'n is na gwerth y farchnad, gan arwain at golled.

Yn yr un modd, bydd enillion ar werthiannau ond yn digwydd mewn amgylchiadau prin pan fydd ased yn cael ei werthu am fwy na'i werth, e.e. pan fydd rhywun gyda diddordeb arbennig yn fodlon talu mwy na gwerth y farchnad.

Nid yw asedau a ddaeth i feddiant y Cyngor dan drefniadau Prydles Weithredol yn cael eu cynnwys yn y fantolen (gan nad y Cyngor sy'n berchen arnynt), ond rhoddir manylion amdanynt yn y Nodiadau. Mae'r rhenti blynyddol am brydlesau yn cael ei dalu allan o'r cyfrifon referniw gwasanaeth.

#### 5. **Codi Tâl ar Refeniw am Asedau Sefydlog**

Yn unol â'r arweiniad sy'n cael ei roi gan CIPFA, mae'r Cyngor yn cadw Cofrestr Asedau, ac yn codi tâl ar wasanaethau am gael defnyddio'r asedau sydd wedi eu cynnwys ynddi. Mae'r tâl cyfalaf yn cynnwys dibrisiant, a gynhwysir isod.

#### 6. **Dibrisiant**

Mae asedau ar wahân i Dir yn lleihau mewn gwerth dros oes eu gwasanaeth. Mae dibrisiant yn cael ei gyfrifo ar delerau "dibrisiant llinol", gan ddefnyddio'r amcangyfrifon canlynol o ran oes:

	<b><u>Mlynedd</u></b>
Adeiladau	1 - 91
Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar	1 - 10
Asedau Isadeiledd	1 - 40

#### 7. **Asedau Anniriaethol**

Mae Asedau Sefydlog Anniriaethol yn daliadau o natur Cyfalaf nad ydynt yn arwain at ased diriaethol. Enghreifftiau o hyn yw Trwyddedau Meddalwedd, Nodau Masnach a Phatentau. Roedd Asedau Anniriaethol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2009/10 yn cynnwys gwariant ar system Rhaglen Desg Gwasanaeth TG, meddalwedd a system reoli integredig. Caiff asedau anniriaethol eu codi o referniw dros oes economaidd yr ased. Oes Asedau Anniriaethol yw uchafswm o 10 mlynedd.

## 8. **Derbyniadau Cyfalaf**

Mae incwm o gael gwared ar asedau sefydlog yn cael ei gredydu i'r gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf y gellir ei ddefnyddio, ac fe'i cyfrifir fel cronadau. Dim ond ar gyfer ariannu buddsoddiadau cyfalaf newydd (neu i'w neilltuo i leihau gofynion benthyca) gellir defnyddio derbyniadau cyfalaf y gellir eu defnyddio. Mae symiau sy'n uwch na £10,000 yn cael eu categorio fel derbyniadau cyfalaf. Mae derbyniadau'n cael eu priodoli i'r Gronfa Wrth Gefn o'r Datganiad Ar Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor.

## 9. **Grantiau'r Llywodraeth**

Mae Grantiau Refeniw'n cael eu cofnodi fel incwm yn y Cyfrif Incwm a Gwariant, i gyfateb i wariant perthnasol. Mae Grantiau gan y Llywodraeth, a Chyfraniadau sy'n ymwneud ag asedau sefydlog, yn cael eu rhoi mewn Cyfrif Gohiriedig ar gyfer Grantiau gan y Llywodraeth, ac yn cael eu rhyddhau i Gyfrif Refeniw Rheoli Asedau, yn unol â'r dibrisiant a godir, neu yn ystod y flwyddyn y cânt eu gwario am ddim gwerth ychwanegol i'r gwariant cyfalaf.

## 10. **Prydlesi**

Mae gan yr awdurdod nifer o Brydlesi Gweithredu a chaiff y rhain eu newid i refeniw yn ystod y flwyddyn lle deuir ar draws costau, ac mae'r Awdurdod hefyd yn brydleswr ar gyfer nifer o eiddo masnachol, a chaiff incwm ei gredydu i'r refeniw.

## 11. **Cynllun Ariannu Preifat (PFI)**

Mae cytundebau PFI yn gytundebau i gael gwasanaethau, lle mae'r cyfrifoldeb am argaeledd yr asedau sefydlog sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau yn pasio i'r contractwr PFI. Oherwydd fod y Cyngor yn rheoli'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu dan y cynllun PFI ac oherwydd y gall berchnogaeth yr asedau sefydlog basio i'r Cyngor ar ddiwedd y cytundeb am ddim cost ychwanegol, bydd y Cyngor yn cario'r asedau sefydlog a ddefnyddiwyd dan y cytundeb ar y Fantolen.

Cafodd cydnabyddiaeth wreiddiol yr asedau sefydlog hyn ei gydbwysu trwy gydnabod atebolrwydd symiau sy'n ddyledus i weithredwr y cynllun i dalu am yr asedau. Ar gyfer y Prosiect PFI Tair Ysgol, nodwyd yr atebolrwydd gan daliad dechreuol o £9m.

Bydd asedau sefydlog sydd wedi'u nodi ar y Fantolen yn cael eu hailbrisio a'u dibrisio yn yr un modd ag asedau sefydlog sy'n eiddo i'r Cyngor.

Mae'r symiau sy'n daladwy i'r gweithredwyr PFI bob blwyddyn yn cael eu dadansoddi yn bum elfen, ac mae'r ffigurau 2009/10 wedi'u cynnwys mewn bracedi:-

- Gwerth teg y gwasanaethau a gafwyd yn ystod y flwyddyn – wedi'u debydu i'r gwasanaeth perthnasol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant (£2.357m).
- Cost cyllid – ffi llog ar yr atebolrwydd Mantolen, wedi'i ddebydu i Log sy'n Daladwy a Ffioedd tebyg yn y Cyfrif Incwm a Gwariant (£2.701m).
- Rhent amodol – cynnydd yn y swm i'w dalu ar gyfer yr eiddo yn ystod y cytundeb, wedi'i ddebydu i log sy'n daladwy a ffioedd tebyg yn y Cyfrif Incwm a Gwariant (£108mil).
- Taliad tuag at atebolrwydd – nodi'r atebolrwydd mantolen tuag at y gweithredwr PFI (£1.017m).
- Costau disodli cylch bywyd – wedi'u cydnabod fel asedau sefydlog ar y Fantolen (£74mil).

## **Credydau PFI**

Mae grantiau'r llywodraeth a dderbynnir ar gyfer cynlluniau PFI, uwchlaw'r lefelau gwariant presennol, yn cael eu dwyn ymlaen fel arian wrth gefn i ariannu gwariant contract yn y dyfodol.

### 12. **Dyledwyr a Chredydwyr**

Mae Cyfrifon y Cyngor yn cael eu cynnal ar sail croniadau , yn unol â'r Cod ac SSAP Rhif 2; hynny yw, mae'r holl symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor neu gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn cael eu cynnwys, pa un ai yw'r taliad neu'r derbyniad wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ai peidio.

### 13. **Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg ac Amheus**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn dynodi bod cyfran o ddyledwyr y Cyngor ar ddiwedd blwyddyn y dylid addasu eu gwerth trosglwyddo i'r swm tebygol a ellir ei adennill.

### 14. **Stociau a Gwaith ar y Gweill**

Mae Stociau a Gwaith ar y Gweill sydd wedi eu cynnwys yn y Fantolen yn cael eu prisio yn ôl eu cost hanesyddol neu eu gwerth sylweddoladwy net, pa un bynnag yw'r isaf, yn unol â darpariaethau'r Cod ac SSAP Rhif 9.

### 15. **Dyrannu Costau Gweinyddiaeth Ganolog/Gwasanaethau Cefnogi**

Mae costau'r prif Wasanaethau Cefnogaeth Canolog h.y. Cyllid, Technoleg Gwybodaeth, Gwasanaethau Cyfreithiol, Personél a'r Gwasanaethau Eiddo, wedi cael eu dyrannu'n llawn i Gyfrifon yr Adrannau Gwasanaeth ac i'r Cyfrifon sy'n ymwneud â'r craidd Corfforaethol a Democrataidd, yn unol â Chod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau.

Mae seiliau dosbarthu'r costau hyn yn amrywio yn ôl natur y tâl sy'n cael ei godi:

<b>Gwasanaethau Cefnogi</b>	<b>Sail Codi'r Tâl</b>
Cyllid	Amser
- Cadw Cyfrifon	
- Cyflogau	Papurau Cyflog a gyflwynwyd
- Taliadau gan Gredydwy	Nifer o anfonebau a dalwyd
- Archwilio	Dyddiau Archwilio
- Dyledwyr	Nifer yr anfonebau a gyhoeddwyd
- Derbynyddion Arian Parod	Nifer y trafodion y rhoddwyd
- Gweinyddu	Amser
- Rheoli	Amser
Cyfreithiol	Amser
Personél	Amser, a'r staff a gyflogwyd
Technoleg Gwybodaeth	Dyraniad, amser, a'r cyfarpar a ddefnyddiwyd
Peirianeg a Dylunio	Sail ffioedd (Cynlluniau Cyfalaf) ac Arwynebedd Llawr ar gyfer swyddfeydd

#### 16. **Costau Pensiwn**

Mae FRS 17 yn rhoi cyfrif am fuddion ymddeol fel maent yn cael eu hennill gan weithwyr, hyd yn oed pan na fyddant yn cael eu talu am flynyddoedd i ddod. Mae'r asedau neu atebolrwydd net yn ymrwymiad ar ran y cyflogwyr i gynyddu cyfraniadau i ddigolledu unrhyw ddifffyg neu ei allu i elw trwy leihau cyfraniadau.

Ers 2008/09, o ganlyniad i newidiadau i FRS 17, mae'r gwarantau y nodwyd eu bod yn cael eu cadw fel asedau yn y cynllun pensiwn buddion yn cael eu prisio yn ôl pris y cynnig yn hytrach na phris canolig y farchnad.

#### 17. **Buddsoddiadau**

Mae gweithrediadau Rheoli Trysorlys o ddydd i ddydd yn golygu buddsoddi yn y tymor byr unrhyw arian dros ben sydd yn nwylo'r Cyngor ar unrhyw ddiwrnod penodol. Mae'r arian hwn yn cael ei fuddsoddi am gyfnodau sy'n amrywio rhwng dros nos a 364 o ddyddiau. Defnyddir buddsoddiadau tymor hirach (mwy nag un flwyddyn rhwng y dechrau a'r ad-daliad) pan fo gofynion hylifedd y Cyngor yn cael eu diogelu a phan fo'r cyfle'n codi i ymgymryd â buddsoddiad o werth gyda gwarant o arian yn ôl. Dangosir y buddsoddiadau yn y Fantolen ar sail gwerth teg. Rhoddir manylion pellach yn nodyn 32. Ychwanegir llog a gronnwyd at werth buddsoddiadau ar bapur ac fe'i dangosir fel rhan o asedau cyfredol neu asedau hirdymor yn dilynny ar ddyddiad aeddfedu'r buddsoddiad

18. **Llog a enillwyd ar y balansau sy'n cael eu cadw**

Credydwyd y llog a enillwyd ar fuddsoddi tymor byr cronfeydd dros ben, fel y nodwyd uchod, wedi'i gredydu i'r Balansau a Ddirprwywyd i Ysgolion, y gronfa PFI, a chronfeydd llai eraill, yn seiliedig ar y balans trwy gydol y flwyddyn. Mae gweddill y llog net yn cael ei gredydu i Gronfa'r Cyngor.

19. **Gwariant Cyfalaf a Gyllidir o Gyfalaf o dan Statud**

Dyma daliadau sy'n gyfalaf o ran eu natur ond nid oes unrhyw ased sefydlog yn cael ei greu ganddynt. Mae pob gwariant fel hyn wedi ei roi ar gyfrif refeniw'r gwasanaeth yn y flwyddyn honno. Mae gwariant refeniw net yr Awdurdod wedi ei wrthbwyo gan grantiau a chyfraniadau sy'n credydu'r refeniw, gyda'r swm net yn cael ei wrthbwyo gan gyfraniad trwy'r Datganiad Symudiadau Cronfa'r Cyngor / Balans Cyfrif Refeniw Tai.

20. **Y Sail i'r Ddarpariaeth ar gyfer Clirio Dyledion**

Mae'r Cyngor yn cadw portffolio dyled sy'n cynnwys benthyciadau cyfradd sefydlog a newidiol dros gyfnodau amrywiol gan gymysgedd o sefydliadau cyllidol, fel y'i dadansoddwyd yn nodyn 32. Yn unol â gofynion Rheoliadau Statudol, mae gofyn i'r Awdurdod neilltuo Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) ar gyfer ad-dalu dyledion. Dangosir dadansoddiad o'r symiau perthnasol yn nodyn 7.

21. **Treth Ar Werth**

Ar wahân i TAW a godir ar gyfer prynu rhai cerbydau a lletygarwch, gall y Cyngor adennill y TAW a godir arno. Mae'r Cyfrifon, felly, wedi cael eu paratoi heb gymryd y dreth hon i ystyriaeth, ac eithrio mewn achosion lle nad oes modd ei hadfer.

22. **Ffigyrau Cymharol**

Dangosir ffigyrau cymharol, lle y bo'n briodol, yn yr holl ddatganiadau ariannol, yn unol â'r Cod.

23. **Gwariant Cyfalaf a Ddyrannwyd i Gronfa'r Cyngor a Balansau'r CRT**

Mae'r gwariant cyfalaf a ddyrannwyd i Gronfa'r Cyngor yn cael ei ddatgelu yn y Datganiad o Symudiad Cronfeydd y Cyngor.

24. **Rhwymedigaethau Amodol**

Mae rhwymedigaeth amodol yn ymrwymiad posibl sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol ac mae ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan un digwyddiad ansicr neu fwy yn y dyfodol nad yw dan reolaeth lwyr yr Awdurdod.

Ni chydabyddir rhwymedigaethau amodol o fewn y Cyfrifon fel eitem o wariant ond cyfeirir atynt yn Nodyn 27 y Datganiad Craidd.

25. **Eitemau eithriadol**

Eitemau eithriadol yw eitemau sylweddol o ran gwariant cyffredinol yr Awdurdod na ddisgwylir iddynt gael eu hailadrodd na dod gerbron yn rheolaidd.

Mae eitemau eithriadol yn cael eu cynnwys yng nghostau'r gwasanaeth perthnasol neu'r Cyfrif Incwm a Gwariant os oes angen y graddau hynny o amlygrwydd arnynt i gyflwyno'r cyfrifon yn deg.

26. **Arian Tramor**

Mae'n bolisi gan y Cyngor i beidio â buddsoddi neu fenthycio unrhyw arian ac eithrio sterling. Os oes angen gwneud trafodion mewn arian tramor bydd yn cael ei drosi ar y pryd.

27. **Addasiadau Blaenorol**

Addasiadau blaenorol yw'r newidiadau sylweddol hynny sy'n berthnasol i flynyddoedd blaenorol ac sy'n codi o newidiadau i bolisiau cyfrifo neu drwy gywiro camgymeriadau sylfaenol. Nid ydynt yn cynnwys cywiriadau neu newidiadau cyfrifo arferol sy'n ailddigwydd nac amcangyfrifon cyfrifo wnaethpwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae nodyn 2 y datganiadau craidd yn dangos yr addasiadau yn 2009/10.

28. **Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen**

Gall rhywbeth ddigwydd rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad y mae'r cyfrifon yn cael eu hawdurdodi ar gyfer eu cyflwyno a gall hyn ddylanwadau ar ganlyniadau ariannol y flwyddyn flaenorol. Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon petaent yn darparu tystiolaeth ychwanegol o amgylchiadau oedd yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen a'u bod yn cael effaith sylweddol ar y symiau sydd i'w cynnwys.

Gallai digwyddiadau o'r fath gael effaith sylweddol ar amcangyfrif, newid gwir ffigwr amcangyfrif yn sylweddol i adlewyrchu amhariad neu welliant yn y sefyllfa ariannol, ond pan mae'r digwyddiad gwreiddiol wedi digwydd cyn diwedd y flwyddyn yn unig a phan ystyrir fod y symiau o bwys i'r cyfrifon.

29. **Cytundebau Tymor Hir**

Mae costau cytundebau tymor hir yn cael eu dyrannu i refeniw yn ystod y flwyddyn y maent yn cael eu gwario.

30. **Rhwymedigaethau Ariannol**

Mesurir y rhwymedigaethau ariannol i ddechrau yn ôl eu gwerth teg a'u cynnal am gost eu hamorteiddio. Mae taliadau blynyddol o'r cyfrif incwm a gwariant am y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm y rhwymedigaeth, wedi ei luosi gan y gwir raddfa llog ar gyfer yr offeryn. Mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y fantolen yw'r prif swm sy'n weddill i'w ad-dalu, a'r llog a godir ar y cyfrif incwm a gwariant yw'r swm sy'n daladwy am flwyddyn cytundeb y benthyciad.

### 31. **Asedau Ariannol**

Mae dau ddsbarth o asedau ariannol:

- Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy - asedau gyda thaliadau sefydlog neu gellir eu pennu, ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol.
- Asedau ar gael i'w gwerthu – asedau gyda phris y farchnad a ddyfynnwyd a/neu heb daliadau sefydlog neu gellir eu pennu.

### ➤ **Benthyciadau a Symiau sy'n Dderbyniadwy**

Mesurir y rhain i ddechrau yn ôl eu gwerth teg a'u cynnal am gost eu hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r cyfrif incwm a gwariant am y llog sy'n dderbyniadwy yn seiliedig ar swm yr ased wedi'i luosi â'r llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Mae hyn yn golygu mai'r swm yn y fantolen yw'r prif swm y gellir ei gael, a'r llog a gredydwyd i'r cyfrif incwm a gwariant yw'r swm derbyniadwy ar gyfer y flwyddyn yn y cytundeb benthycia.

### **Asedau sydd ar gael i'w Gwerthu**

Mesurir y rhain ar werth teg, gan adlewyrchu canran benthyciad yr Awdurdod a roddwyd.

### 32. **Datganiad Llif Arian**

Mae'r Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiol wedi'u paratoi gan ddefnyddio'r dull anuniongyrchol.

### 33. **Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)**

Mae'r Cyngor fel yr Awdurdod sy'n bilio yn gweithredu fel asiant Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wrth gasglu NNDR, mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y datganiad Llif Arian.

Mae'r cyfrifon yn cydnabod credydwr neu ddyledwr arian a gasglwyd gan ddyledwyr NNDR fel asiant LICC ond heb eu talu i LICC, neu eu gordalu i LICC, ar ddyddiad y fantolen.



## CYFRIF INCWM A GWARIANT

	Nodyn	Gwariant Gros 2009/10 £'000	Incwm Gros 2009/10 £'000	Gwariant Net 2009/10 £'000	Gwariant Net a Ail nodwyd 2008/09 £'000	Gwariant Net 2008/09 £'000
Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd		10,672	(8,172)	2,500	417	(946)
Gwasanaethau Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio		48,313	(18,590)	29,723	25,473	25,473
Gwasanaethau Addysg		130,632	(24,370)	106,262	85,577	83,324
Gwasanaethau Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant		23,462	(12,760)	10,702	8,888	8,888
Gwasanaethau Tai		42,407	(38,644)	3,763	2,587	2,587
Gwasanaethau Cymdeithasol		55,604	(16,091)	39,513	35,156	35,156
Craidd Corfforaethol a Democrataidd		6,772	(163)	6,609	4,953	4,953
Costau heb eu Dosbarthu		801	(1,750)	(949)	692	692
<u>Gweithgareddau wedi'u terfynu</u>						
Cyfrif Refeniw Tai		0	0	0	8,151	8,151
Eitem eithriadol: LSVT		0	0	0	112,754	112,754
<b>Cost Net y Gwasanaeth</b>		<b>318,663</b>	<b>(120,540)</b>	<b>198,123</b>	<b>284,648</b>	<b>281,032</b>
(Ennill)/Colli gwaredu asedau sefydlog (Cronfa'r Cyngor)				495	(66)	(66)
(Ennill) gwaredu asedau sefydlog (CRT)				0	(696)	(696)
Praeseptau Awdurdodau	5			16,567	15,720	15,720
Praeseptio ac Ardollau						
Gweddill neu Ddiffyg						
Ymrwymadau Masnachu neu weithrediadau eraill	4	7,186	(5,859)	1,327	1,189	1,189
Llog taladwy a chostau tebyg - Cronfa'r Cyngor				8,551	8,801	6,011
Llog taladwy a chostau tebyg - CRT				0	854	854
Llog ac Incwm Buddsoddiadau - Cronfa'r Cyngor				(1,296)	(2,111)	(2,111)
Llog ac Incwm Buddsoddiadau - CRT				0	(51)	(51)
Arian Llog Pensiwn				19,246	19,702	19,702
Adenillion Disgwyliedig ar Asedau Pensiwn				(12,318)	(16,876)	(16,876)
<b>Gwariant Gweithredol Net</b>				<b>230,695</b>	<b>311,114</b>	<b>304,708</b>
Grantiau Llywodraeth Cyffredinol	2			(117,698)	(116,382)	(111,267)
Ailddosbarthu Trethi Annomestig	11			(30,633)	(29,792)	(29,792)
Treth y Cyngor	10			(49,472)	(46,784)	(46,784)
<b>Diffyg Ariannol Net Ar Gyfer Y Flwyddyn</b>				<b>32,892</b>	<b>118,156</b>	<b>116,865</b>

## Datganiad ar Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor

	2009/10		Ail nodwyd 2008/09	2008/09
	£'000		£'000	£'000
Diffyg Net ar gyfer y flwyddyn	32,892		118,156	116,865
Y swm net ychwanegol sy'n ofynnol yn ôl y statud ac arferion priodol anstatudol sydd i'w tynnu neu eu hychwanegu at Falans Cronfa'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn <b>NODYN 1</b>	(32,533)		(117,716)	(116,425)
<b>Diffyg Net Cronfa'r Cyngor mewn Blwyddyn</b>		<b>359</b>	<b>440</b>	<b>440</b>
Y balans ddygwyd ymlaen - Cronfa'r Cyngor	(3,005)		(3,005)	(3,005)
- Ysgolion	(4,752)	(7,757)	(5,192)	(5,192)
Diffyg				
- Cronfa'r Cyngor	149	359	0	0
- Ysgolion	210		440	440
Balans a ddygwyd ymlaen – Cronfa'r Cyngor	(2,856)		(3,005)	(3,005)
– Ysgolion	(4,542)	(7,398)	(4,752)	(4,752)

**DATGANIAD AR GYFANSWM ENILLION A CHOLLEDION  
CYDNABYDDEDIG**

	2009/10 £'000	Ail nodwyd 2008/09 £'000	2008/09 £'000
<b>Diffyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant addaswyd yn sgil tanbrizio ased a waredwyd Tanbrizio Ased</b>	32,892 0	118,135 21	116,844 21
<b>Diffyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant</b>	32,892	118,156	116,865
(Gweddill) sy'n deillio o Ailwerthuso Asedau Sefydlog	(55,023)	(335)	(335)
(Gweddill) sy'n deillio o Ailwerthuso Asedau Ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	(1,359)	0	0
(Enillion) neu Golledion Actwari ar asedau'r gronfa bensiw ac atebolrwydd	101,937	38,928	38,928
(Enillion) eraill y mae angen eu cynnwys	0	(6)	(6)
<b>Cyfanswm (enillion) cydnabyddedig neu golledion yn y flwyddyn</b>	78,447	156,743	155,452
Addasiad y flwyddyn flaenorol (fel y nodwyd yn nodyn 2.2)	7,381	0	0
<b>Cyfanswm yr enillion neu golledion ers yr adroddiad blynyddol diwethaf</b>	85,828	0	0

## Y FANTOLEN

	Nodyn	31 Mawrth 2010 £' 000	31 Mawrth 2009 a ail nodwyd £'000	01 Ebrill 2008 a ail nodwyd £'000
<b><u>Asedau Diriaethol</u></b>				
<b>Asedau Gweithredol</b>	16			
Anheddau'r Cyngor		0	0	144,129
Tir ac Adeiladau Eraill		259,465	231,396	226,057
Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar		10,140	8,367	6,864
Asedau Isadeiledd		48,545	48,364	36,654
Asedau Cymunedol		3,744	3,328	2,918
		<b>321,894</b>	<b>291,455</b>	<b>416,622</b>
<b><u>Asedau Anweithredol</u></b>				
Asedau Dros Ben, a gadwyd i'w gwaredu		7,795	851	851
Eiddo Buddsoddi		6,866	4,500	4,500
Asedau sy'n cael eu Hadeiladu		3,294	9,797	18,511
		<b>17,955</b>	<b>15,148</b>	<b>23,862</b>
<b><u>Asedau Anniriaethol</u></b>				
<b>Cyfanswm yr Asedau Diriaethol ac Asedau Anniriaethol</b>				
Buddsoddiadau Hirdymor	32	1		
Dyledwyr Hir Dymor	19	775		
Asedau Ariannol ar gael i'w gwerthu		1,359		
		<b>2,135</b>		
<b>Cyfanswm yr Asedau Hirdymor</b>				
			<b>1,696</b>	<b>7,039</b>
<b><u>Asedau Cyfredol</u></b>				
Stociau a Gwaith a oedd ar y Gweill	20	755	695	910
Dyledwyr	21	25,946	23,614	19,639
Buddsoddiadau	32	17,456	34,903	40,491
Taliadau Ymlaen Llaw		1,820	799	2,009
Arian a Bancio		641	479	341
		<b>46,618</b>	<b>60,490</b>	<b>63,390</b>
<b><u>Rhwymedigaethau Cyfredol</u></b>				
Credydwyr	22	(12,946)	(14,035)	(14,219)
Benthyciadau i'w had-dalu o fewn 12 mis	32	(7,827)	(18,005)	0
Derbyniadau Ymlaen Llaw		(5,917)	(4,720)	(5,236)
Gorddrafft Banc		(3,910)	(3,408)	(3,057)
		<b>(30,600)</b>	<b>(40,168)</b>	<b>(22,512)</b>
<b>Asedau Cyfredol Net/(Rhwymedigaethau Cyfredol)</b>				
			<b>20,322</b>	<b>40,878</b>
<b>Cyfanswm yr Asedau llai'r Rhwymedigaethau Cyfredol</b>			<b>329,613</b>	<b>488,901</b>
<b><u>Ymrwymadau Hirdymor</u></b>				
Benthycia i'w ad-dalu o fewn cyfnod hirach na 12 mis	32	(95,315)	(96,392)	(142,593)
Darpariaethau	24	(11,888)	(8,973)	(10,366)
Grantiau Llywodraeth a gafodd eu Gohirio	23	(78,644)	(73,358)	(63,238)
Grantiau Cyfalaf na chawsant eu Defnyddio		(802)	(1,079)	(3,167)
Rhwymedigaethau Pensiwn	31	(195,303)	(93,150)	(55,186)
Atebolrwydd Tymor Hir: PFI	15	(29,936)	(31,007)	(31,954)
		<b>(411,888)</b>	<b>(303,959)</b>	<b>(306,504)</b>
<b>Cyfanswm yr Asedau llai'r Atebolrwydd</b>			<b>25,654</b>	<b>182,397</b>
		<b>(52,792)</b>		

## Y FANTOLEN (parhad)

	Nodyn	31 Mawrth 2010 £'000	31 Mawrth 2009 a ail nodwyd £'000	01 Ebrill 2008 a ail nodwyd £'000
<b>Cyllidwyd gan:</b>				
Derbynebaw Cyfalaf a Ohiriwyd	26	23	28	39
Cyfrif Addasu Cyfalaf	25	56,743	87,771	207,712
Cyfrif Addasu Arfau Ariannol	25	(992)	(1,047)	(941)
Cronfa Ailbrisió	25	54,973	25	0
Cronfa Bensiwn	25	(195,303)	(93,150)	(55,186)
Cronfa Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ei defnyddio	25	3,626	5,465	6,460
Cronfa Asedau Ariannol ar gael i'w gwerthu	25	1,359	0	0
Cronfa Cyfalaf	25	3,256	1,971	1,658
Cyfrif Ôl-dâl Cyflog Cyfartal	25	(5,800)	(5,800)	(5,800)
		<b>(82,115)</b>	<b>(4,737)</b>	<b>153,942</b>
<b>Balansau Refeniw:</b>				
Cronfa'r Cyngor	25	2,856	3,005	3,005
Cyfrif Refeniw Tai	25	189	189	2,141
Cronfeydd Wrth Gefn	25	26,278	27,197	23,309
		<b>29,323</b>	<b>30,391</b>	<b>28,455</b>
<b>Cyfanswm gwerth net / (diffyg ariannol)</b>		<b>(52,792)</b>	<b>25,654</b>	<b>182,397</b>

**DATGANIAD YNGLŶN Â LLIF ARIAN**

	2009/10 £'000		2008/09 £'000	
Mewnlif Arian Net Gweithgareddau Refeniw (Nodyn 33)		<b>(10,871)</b>		<b>(36,575)</b>
<b>GWASANAETHU CYLLID</b>				
<b>All-lif Arian</b>				
Llog a Dalwyd		5,738		6,984
<b>Mewnlif Arian</b>				
Llog a Dderbyniwyd		(1,061)		(3,306)
<b>GWEITHGAREDDAU CYFALAF</b>				
<b>All-lif Arian</b>				
Prynu Asedau Sefydlog	20,920		27,731	
Gwariant Refeniw a Ariannwyd o arian Cyfalaf dan Statud	7,020	27,940	6,658	34,389
<b>Mewnlif Arian</b>				
Gwerthu Asedau Sefydlog	(122)		(1,917)	
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau a Dderbyniwyd	(14,949)		(17,986)	
Buddsoddiadau Hirdymor	(1,000)	(16,071)	(5,070)	(24,973)
<b>RHEOLI ADNODDAU HYLIFOL</b>				
Cynnydd (Gostyngiad) mewn Buddsoddiadau		(17,447)		(5,588)
Cynnydd/(Gostyngiad) Net mewn Adnoddau Hylifol Eraill (NNDR)		1,107		1,289
<b>All-lif Arian Net cyn Cyllido</b>		<b>(10,665)</b>		<b>(27,780)</b>
<b>ARIANNU</b>				
<b>All-lif Arian</b>				
Ad-dalu Symiau a Fenthyciwyd		18,005		47,801
<b>Mewnlif Arian</b>				
Benthyciadau Newydd a Godwyd		(7,000)		(19,808)
<b>(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Arian a Phethau Cyfwerth ag Arian</b>		<b>340</b>		<b>213</b>

Mae Datganiad Llif Arian a Nodyn 33 wedi'u hail nodi i adlewyrchu'r dull anuniongyrchol o baratoi, a hefyd i adlewyrchu'r Fantolen sydd wedi'i chynnwys yn y Cyfrifon.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU CRAIDD

### Nodiadau ar y Cyfrif Incwm a Gwariant

1. Dadansoddiad o symiau sy'n ychwanegol i weddill/diffyg y Cyfrif Incwm a Gwariant y mae'n ofynnol, yn ôl arferion Statudol/Anstatudol, i'w tynnu a'u hychwanegu at Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn

	2009/10 £'000	Ail nodwyd 2008/09 £'000	2008/09 £'000
<b>Y symiau sy'n cael eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ond y mae'n ofynnol eu heithrio, yn ôl statud, wrth benderfynu ar Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor</b>			
Dyled a ad-dalwyd gan LICC yn dilyn Trosglwyddo Stoc	0	25,799	25,799
Dibrisiad ac amhariad asedau sefydlog – Cronfa'r Cyngor	(42,024)	(14,556)	(13,639)
Dibrisiad ac amhariad asedau sefydlog – CRT	0	(145,792)	(145,792)
Amorteiddiad Grantiau'r Llywodraeth a ohiriwyd sy'n cyfateb i ddibrisiad ac amhariad – Cronfa'r Cyngor (Nodyn 26)	3,087	4,645	4,645
Amorteiddiad Grantiau'r Llywodraeth a ohiriwyd sy'n cyfateb i ddibrisiad ac amhariad – CRT	0	(80)	(80)
Grantiau'r Llywodraeth a Ohiriwyd Dim Gwerth Ychwanegol – Cronfa'r Cyngor	337	1,085	1,085
Grantiau'r Llywodraeth a Ohiriwyd Dim Gwerth Ychwanegol - CRT	0	1,289	1,289
Y symiau a ystyriwyd fel gwariant refeniw yn unol â SORP ond sydd yn dod dan ddsbarthiad gwariant cyfalaf yn ôl statud (h.y. Gwariant Cyfalaf a Gyllidir o Gyfalaf o dan Statud) - Cronfa'r Cyngor	(1,538)	(1,250)	(1,250)
Y symiau a ystyriwyd fel gwariant refeniw yn unol â SORP ond sydd yn dod dan ddsbarthiad gwariant cyfalaf yn ôl statud (h.y. Gwariant Cyfalaf a Gyllidir o Gyfalaf o dan Statud) - CRT	0	(1,444)	(1,444)
Enillion neu golledion net gwerthu asedau sefydlog (Cronfa'r Cyngor)	(495)	66	66
Enillion neu golledion net gwerthu asedau sefydlog (CRT)	0	696	696
Swm ar gyfer cyfrifo costau ariannol yn unol â'r SORP yn wahanol i swm y costau ariannol a gyfrifwyd yn unol â'r gofynion statudol	55	(105)	(105)
Ffioedd net ar gyfer budd-daliadau ymddeoliad yn unol ag FRS 17 – Cronfa'r Cyngor	(13,114)	(11,868)	(11,868)
Costau net budd-daliadau ymddeol yn unol â FRS 17 - CRT	0	(142)	(142)
	<b>(53,692)</b>	<b>(141,657)</b>	<b>(140,740)</b>
<b>Symiau nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ond y mae'n ofynnol eu cynnwys, yn ôl statud, wrth benderfynu ar Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor</b>			
Darpariaeth statudol i ad-dalu dyledion – Cronfa'r Cyngor	6,998	6,379	5,418
Darpariaeth statudol i ad-dalu dyledion – CRT	0	103	103
Cofnod Cydraddoli PFI	0	0	(665)
Gwariant Cyfalaf yn daladwy o Gronfa'r Cyngor	677	1,629	1,629
Gwariant Cyfalaf yn daladwy o CRT	0	150	150
Cyfraniad cyflogwr sy'n daladwy i Gronfa Bensiwn Gwynedd a Sir y Fflint a budd-daliadau ymddeol sy'n uniongyrchol daladwy i bensiynwyr - Cronfa'r Cyngor	12,898	12,757	12,757
Cyfraniad cyflogwr sy'n daladwy i Gronfa Bensiwn Gwynedd a Sir y Fflint a budd-daliadau ymddeol sy'n uniongyrchol daladwy i bensiynwyr - CRT	0	217	217
	<b>20,573</b>	<b>21,235</b>	<b>19,609</b>
<b>Trosglwyddiadau i neu o Falans Cronfa'r Cyngor y mae angen eu hystyried wrth benderfynu ar Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn</b>			
Yn ôl gofynion statud, trosglwyddo gweddill neu ddiffyg y flwyddyn ar y Cyfrif Refeniw Tai, a gyfrifwyd yn unol â'r statud, i falans CRT	0	(1,952)	(1,952)
Cyfraniad o Gronfeydd a Glustnodwyd (ac eithrio ysgolion)	(4,811)	(4,219)	(4,219)
Cyfraniad i Gronfeydd a Glustnodwyd Cronfa'r Cyngor (ac eithrio ysgolion)	5,397	8,709	10,709
Cyfraniad i Gronfeydd a Glustnodwyd CRT (ac eithrio ysgolion)	0	168	168
	<b>586</b>	<b>2,706</b>	<b>4,706</b>
<b>Swm net ychwanegol sy'n ofynnol gan arferion priodol statudol ac anstatudol i'w debydu neu gredydu i Falans Cronfa'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn</b>	<b>(32,533)</b>	<b>(117,716)</b>	<b>(116,425)</b>

## 2. Addasiadau Blwyddyn Flaenorol y Fantolen

### 2.1 Mantolen ar 01.04.2008

	Datganiad Cyfrifon 2007/08 Balans 31.3.2008	Addasiadau PFI	Addasiadau NDR	Balans 01.04.2008
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b><u>Asedau Gweithredol</u></b>				
Anheddau'r Cyngor	144,129			144,129
Tir ac Adeiladau eraill	178,229	47,828		226,057
Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer	6,864			6,864
Asedau Isadeiledd	36,654			36,654
Asedau Cymunedol	2,918			2,918
	<b>368,794</b>	<b>47,828</b>	<b>0</b>	<b>416,622</b>
Asedau Anweithredol	23,862			23,862
Asedau Sefydlog Anniriaethol	500			500
Asedau Ariannol Tymor Hir – Buddsoddiadau	6,362			6,362
Dyledwyr Tymor Hir	22,641	(21,964)		677
	<b>53,365</b>	<b>(21,964)</b>	<b>0</b>	<b>31,401</b>
<b><u>Cyfanswm Asedau Tymor Hir</u></b>	<b>422,159</b>	<b>25,864</b>	<b>0</b>	<b>448,023</b>
<b><u>Asedau Presennol</u></b>				
<b><u>Asedau Ariannol Tymor Byr</u></b>				
Arian mewn llaw	341			341
Stoc a WIP	910			910
Dyledwyr	19,954		(315)	19,639
Buddsoddiadau	40,491			40,491
Taliadau ymlaen llaw	2,009			2,009
	<b>63,705</b>		<b>0</b>	<b>63,390</b>
<b><u>Atebolrwydd Presennol</u></b>				
<b><u>Atebolrwydd Ariannol Tymor Byr</u></b>				
Credydwyr	(14,219)			(14,219)
Benthyciadau i'w ad-dalu o fewn 12 mis	0			0
Derbynebau ymlaen llaw	(5,551)		315	(5,236)
Gorddrafft Banc	(3,057)			(3,057)
	<b>(22,827)</b>		<b>0</b>	<b>(22,512)</b>
<b>Asedau Presennol Net/(Atebolrwydd Presennol)</b>	<b>40,878</b>			<b>40,878</b>
<b>Cyfanswm Asedau Llai Atebolrwydd Presennol</b>	<b>463,037</b>	<b>25,864</b>		<b>488,901</b>
Atebolrwydd Pensiwn	(55,186)			(55,186)
Atebolrwydd Ariannol Tymor Hir – Benthycyca	(142,593)			(142,593)
Darpariaethau	(10,366)			(10,366)
Grantiau Llywodraeth wedi'u Gohirio	(63,238)			(63,238)
Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwysio	(3,167)			(3,167)
Atebolrwydd Tymor Hir - PFI	0	(31,954)		(31,954)
	<b>(274,550)</b>	<b>(31,954)</b>	<b>0</b>	<b>(306,504)</b>
<b>Cyfanswm Asedau Llai Atebolrwydd</b>	<b>188,487</b>	<b>(6,090)</b>	<b>0</b>	<b>182,397</b>
Cronfa Bensiwn	(55,186)			(55,186)
Cronfa Ôl-dâl Cyflog Cyfartal	(5,800)			(5,800)
Cronfeydd Cyfalaf a Ohiriwyd	39			39
Cronfa Derbynebau Cyfalaf Defnyddiol	6,460			6,460
Cronfa Addasiad Cyfalaf	206,469	1,243		207,712
Cronfa Ailbrisio	0			0
Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	(941)			(941)
Cronfa Cyfalaf	1,658			1,658
	<b>152,699</b>	<b>1,243</b>	<b>0</b>	<b>153,942</b>



	<b>Datganiad Cyfrifon 2007/08 Balans 31.3.2008</b>	<b>Addasiadau PFI</b>	<b>Addasiadau NDR</b>	<b>Balans 01.04.2008</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b><u>Balansau Refniw</u></b>				
Cronfa'r Sir	3,005			3,005
HRA	2,141			2,141
Cronfeydd	30,642	(7,333)		23,309
	<b>35,788</b>	<b>(7,333)</b>	<b>0</b>	<b>28,455</b>
<b>Cyfanswm Ecwiti</b>	<b>188,487</b>	<b>(6,090)</b>	<b>0</b>	<b>182,397</b>

## 2. Addasiadau Blwyddyn Flaenrol y Fantolen

### 2.2 Mantolen ar 31.03.2009

	Datganiad Cyfrifon 2008/09 Balans 31.3.2009	Addasiadau PFI	Addasiadau NNDR	Balans a ail nodwyd 31.3.2009
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b><u>Asedau Gweithredol</u></b>				
Anheddau'r Cyngor	0			0
Tir ac Adeiladau eraill	184,470	46,926		231,396
Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer	8,367			8,367
Asedau Isadeiledd	48,364			48,364
Asedau Cymunedol	3,328			3,328
	<b>244,529</b>	<b>46,926</b>	<b>0</b>	<b>291,455</b>
Asedau Anweithredol	15,148			15,148
Asedau Sefydlog Anniriaethol	992			992
Asedau Ariannol Tymor Hir – Buddsoddiadau	1,052			1,052
Dyledwyr Tymor Hir	23,944	(23,300)		644
Mae Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn symiau sy'n deillio o werthu asedau ac a fydd yn cael eu derbyn ar ffurf rhandaliadau dros gyfnodau cytunedig o amser. Y maent yn codi yn bennaf o forgeisi ar werthu tai cyngor, sydd yn rhan o'r morgeisi sydd wedi eu rhestru dan bennawd 'Dyledwyr Hirdymor'.

27. **Rhwymedigaethau Amodol**

**Polisi Cydnabyddiaeth**

Cydnabyddir bod Atebolrwydd Amodol yn rhwymedigaeth bosibl sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac y bydd yn cael ei gadarnhau gan un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, nad yw'r sefydliad yn gallu eu rheoli. Gellir hefyd eu cydnabod fel rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau'r gorffennol ond nid yw'n cael ei gydnabod oherwydd nid yw'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i ddatrys y rhwymedigaeth, neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Rwymedigaethau Amodol i'w cydnabod.

28. **Ymrwymadau i'r Dyfodol**

Mae gan yr Awdurdod yr ymrwymadau canlynol i'r dyfodol:-

Buddsoddiad –Cymdeithas Adeiladu Kent Reliance £1m.

Cytundeb Cyfalaf – gwaith adfer Maes y Dre £750mil o Dderbynebau Cyfalaf Tai.

29. **Cronfeydd Ymddiriedolaeth**

1. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweinyddu 24 o Gronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg. Nid asedau'r Cyngor yw'r cronfeydd hyn ac felly, nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Fantolen Gyfunol.

Mae'r Cronfeydd Ymddiriedolaeth yn gweithredu ar gyfer amrywiaeth o achosion o gronfeydd gwobrau ysgol i gynnal a chadw manau chwarae i blant. Mae pob un yn cynnwys swm gweddol fechan o arian a geir yn bennaf gan unigolion ac yn cael ei fuddsoddi er mwyn darparu incwm blynyddol.

Roedd balansau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2010 yn £101,138 a'r incwm am y flwyddyn oedd £5,408. (Roedd balansau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2009 yn £93,713 a'r incwm am y flwyddyn 2008/09 oedd £8,054).

2. Ar ben hynny, mae'r Cyngor yn gyfrifol am Gronfa'r Degwm. Mae'r cynllun hwn yn darparu incwm sydd i'w ddefnyddio i bwrpasau elusennol, addysgol, adloniadol a chymdeithasol yn ôl doethineb y Cyngor. Nid ased y Cyngor mo'r Gronfa ac felly ni chafodd ei chynnwys gyda'r Fantolen. Mae copi o gyfrif incwm a gwariant y Gronfa, a'i mantolen, i'w gweld ar dudalen 101.
3. Yn 2007/08, sefydlwyd Cronfa Ymddiriedolaeth newydd er lles disgyblion ysgol Llanrwst ar gyfer addysg ategol. Gellir cael manylion am gyfrif incwm a gwariant a thaflen falans Ymddiriedolaeth Addysg Llanrwst ar dudalennau 109 i 110.



### 30. **Yr Ewro**

Mae'r Awdurdod yn monitro'r sefyllfa ynghylch cyflwyno'r Ewro, ond hyd yma, nid yw wedi gwneud unrhyw ymrwymadau nac wedi gorfod talu unrhyw gostau yn ei gylch.

### 31. **Pensiynau**

#### 31.1 **Bod yn aelod o gynlluniau pensiwn**

Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun buddion diffiniedig wedi'i ariannu i'w staff (ac eithrio athrawon) dan Ddeddf Budd-dal Ymddeol 1972, ac mae'n ddarostyngedig i Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddiaeth) 2008. Mae Ychwanegir at y cynllun hefyd gan amddiffyniadau yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol) 2008. Cyngor Gwynedd sy'n rheoli'r cynllun ar y Cyngor. Mae gweithwyr y cyn awdurdodau a ymddeolodd adeg ad-drefnu llywodraeth leol, yn perthyn i'w cynlluniau perthnasol ar gyfer y cynghorau hynny.

Mae copïau o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd i'w cael trwy wneud cais amdanynt i'r Trysorydd, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH.

Cronnodd y Cyngor swm o £85,918 o gyfraniadau pensiwn ar 31 Mawrth 2010.

#### 31.2 **Staff Dysgu**

Yr Adran Addysg a Sgiliau sy'n gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn genedlaethol. Dan FRS 17 mae'n cael ei ystyried yn gynllun lled gyfrannol ac nid oes angen datgelu asedau na rhwymedigaethau, oherwydd mae'r gost bresennol yn cyfateb i gyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn.

Roedd cyfraniad y cyflogwr yn £4.1 miliwn yn 2009-10, sy'n 14.1% o gyflogau pensiynadwy (£4.0 miliwn yn 2008/09 sy'n 14.1% o gyflog pensiynadwy).

#### 31.3 **Cymryd rhan mewn cynlluniau eraill**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gyfrifol am gostau blynyddoedd a ychwanegwyd i rai cyn weithwyr y ddau awdurdod a ragflaenodd y Cyngor presennol ac sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn Clwyd. Nid yw'r buddion hyn yn cael eu hariannu, felly nid oes unrhyw asedau i'w priodoli i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r rhwymedigaethau wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y rhwymedigaethau sydd i'w priodoli i'r gronfa pensiwn.

Yn seiliedig ar y tybiaethau uchod, gwerth presennol y rhwymedigaethau ar 31 Mawrth yw £7.9 miliwn (£6.9m ar 31 Mawrth 2009).

#### 31.4 **Prisiadau'r Actiwari**

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn darparu pensiynau a buddion ymddeol eraill i weithwyr yn seiliedig ar eu cyflogau terfynol. Mae cost flynyddol ariannu'r pensiynau hyn yn seiliedig ar brisiadau bob tair blynedd yr Actiwari. Ariennir y gost gan gyfraniadau'r Cyngor a'i staff.

Gwnaethpwyd y prisiad llawn diweddaraf ar 31 Mawrth 2008. Cyfradd cyfraniadau gweithwyr y Cyngor ar gyfer 2009/10 oedd 20.1%. Y gyfradd ar gyfer 2010/11 ydi 20.1%.

### 31.5 Talu i'r Gronfa

Mae'r pensiynau dewisol y mae'r Cyngor yn talu amdanynt wedi cael eu cynnwys yng nghyfanswm rhwymedigaethau'r cronfeydd pensiwn. Mae manylion y cyfraniadau ar gyfer rhwymedigaethau nad ydynt yn cael eu hariannu wedi'u cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

### 31.6 Newidiadau i SORP 2008

Dan Sorp 2008, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r newid i FRS 17. O ganlyniad i hynny mae'r gwarannau a ddyfynnwyd sy'n cael eu cadw bellach yn cael eu prisio yn ôl y pris cynnig yn hytrach na phris canolig y farchnad. Penderfynodd gweinyddwyr y cynllun nad yw'r newid mewn gwerth yn berthnasol.

### 31.7 Trafodion yn gysylltiedig â buddion pensiynau

Cydnabyddir costau buddion pensiynau yng Nghost Net Gwasanaethau pan fyddant yn cael eu hennill yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Ond mae'r gost yn erbyn Treth y Cyngor yn seiliedig ar yr arian i'w dalu ac felly mae gwir gost y pensiynau'n cael ei wrthdroi ar y Datganiad Symudiadau ym malans y Gronfa Gyffredinol. Gwnaed y trafodion a ganlyn yn y Cyfrif Incwm a Gwariant a Datganiad Symudiadau ym malans y Gronfa Gyffredinol yn ystod y flwyddyn. Mae'r tablau'n cynnwys Cronfeydd Clwyd a Gwynedd sy'n berthnasol i Gonwy:

<b>Symudiadau'r Gronfa Wrth Gefn Pensiynau</b>	<b>2009/10 £'000</b>	<b>2008/09 £'000</b>
Cyfrif Incwm a Gwariant		
- Cost net y gwasanaethau		
Cost bresennol y gwasanaeth	(6,132)	(7,182)
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol	(6)	(3,051)
Setliadau a Chwtogiadau	(48)	1,049
-Gwariant Gweithredol Net		
Llog	(19,246)	(19,702)
Elw a ddisgwylir ar asedau'r cynllun	12,318	16,876
Newid net i'r Cyfrif Incwm a Gwariant	(13,114)	(12,010)
Datganiad Symudiad Balans y Gronfa Gyffredinol		
Gwrthdroi newidiadau net yn unol â FRS 17	13,114	12,010
Gwir swm a godwyd - cyfraniadau gweithwyr'	12,898	12,974

Cafodd colledion yr Actiwari o £101.9 miliwn (colledion 2008/09 yn £38.9 miliwn) eu cynnwys yn Y Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddedig. Cydnabuwyd y gost gronnol y golled o £143.4 miliwn.

### 31.8 Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun

Rhwymedigaethau	2009/10 £'000	2008/09 £'000
1 Ebrill	278,852	288,236
Cost bresennol y gwasanaeth	6,132	7,182
Llog	19,247	19,702
Cyfraniadau aelodau	3,489	3,483
Colledion/(Enillion) Actiwari	163,783	(26,974)
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol	6	3,051
Cwtogiadau	48	346
Amcangyfrif o fuddion heb eu hariannu	(1,487)	(1,457)
Amcangyfrif o'r buddion a dalwyd	(8,436)	(7,628)
Rhwymedigaethau a ryddhawyd	0	(7,089)
31 Mawrth	461,634	278,852

### 31.9 Cysoni gwerth teg asedau'r cynllun

Asedau	2009/10 £'000	2008/09 £'000
1 Ebrill	185,702	233,052
Yr elw disgwylidig ar asedau	12,317	16,876
Cyfraniadau aelodau	3,489	3,483
Cyfraniadau cyflogwyr	11,414	12,623
Cyfraniadau ar gyfer Buddion heb eu Hariannu	1,450	349
Enillion / Colledion Actiwari	61,845	(65,902)
Buddion heb eu hariannu a dalwyd	(1,450)	(1,457)
Buddion a dalwyd	(8,436)	(7,628)
Asedau a ryddhawyd	0	(5,694)
31 Mawrth	266,331	185,702

Amcangyfrif o gyfraniad y Cyflogwr am 2010/11 ydi £11.758m.

### 31.10 Hanes y Cynllun

Diwedd y Flwyddyn	31/03/10 £'000	31/03/09 £'000	31/03/08 £'000	31/03/07 £'000	31/03/06 £'000
Asedau	266,331	185,702	233,052	224,255	202,590
Rhwymedigaethau	461,634	278,852	288,238	302,722	299,378
Diffyg	(195,303)	(93,150)	(55,186)	(78,467)	(96,788)
Y gwahaniaeth rhwng gwir enillion/colledion ar asedau a'r hyn a ddisgwyliwyd	23.22%	(36.08)%	(5.85)%	0.08%	13.52%
Enillion / colledion a gafwyd ar rwymedigaethau	(0.03)%	(0.011)%	(5.91)%	(0.15)%	(0.22)%

O gyfanswm y rhwymedigaethau, mae £23.3m (£19.3m yn 2008/09) heb ei ariannu a £438.3m (£259.6m yn 2008/09) wedi ei ariannu.

31.11 Mae'r prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari fel a ganlyn:

	2009/10	2008/09
Cynnydd mewn prisiau	3.8%	3.1%
Cynnydd mewn cyflogau	5.3%	4.6%
Cynnydd mewn pensiynau	3.8%	3.1%
Elw disgwylidig ar asedau	7.2%	6.5%
Cyfradd y Disgownt	5.5%	6.9%
Dewis newid pensiwn blynyddol i lwmp swm	50.0%	50.0%
Cyfradd elw ar asedau		
Ecwiti	7.8%	7%
Bondiau	5.0%	5.4%
Eiddo	5.8%	4.9%
Arian Parod	4.8%	4.0%

Disgwyliad oes yn 65 oed mewn blynyddoedd	Dynion 2009/10	Merched 2009/10	Dynion 2008/09	Merched 2008/09
Pensiynwyr presennol	20.8	24.1	19.6	22.5
Pensiynwyr y Dyfodol	22.3	25.7	20.7	23.6

Ar gyfer Datganiad Cyrifon 2009/10 mae cyfradd yn seiliedig ar y raddfa adenillion cyfredol ar fond corfforaethol o ansawdd uchel o arian cyfredol cyfatebol ac atebolrwydd cynlluniau.

Ystyrir bod yr adenillion ar fondiau yn unol ag arenillion adbrynu. Ond mae gan y cynllun strategaeth fuddsoddi sy'n tueddu at ecwiti ac nid oes mesur cyfatebol ar gyfer yr adenillion mewn ecwitiâu neu ar asedau megis eiddo. Felly, cymerir graddfa ddisgwyliedig yr enillion o fodel asedau priodol mae ei bamedrau wedi'u graddnodi yn ôl amodau'r farchnad bob mis.

Mae'r Actiwariaid wedi cymryd y bydd 50% o aelodau'r gronfa bensiwn yn cyfnewid rhan o'u pensiwn o arian rhydd rhag treth ychwanegol ar eu hymddeoliad.

31.12 Gwerth Asedau

Dosbarthwyd asedau'r cynllun fel a ganlyn:

2009/10					2008/09				
Ecwiti £'000	Bondiau £'000	Eiddo £'000	Arian £'000	Cyfanswm £'000	Ecwiti £'000	Bondiau £'000	Eiddo £'000	Arian £'000	Cyfanswm £'000
205,409	40,015	16,006	4,901	266,331	136,144	26,109	14,919	8,530	185,702

## 32. **Natur a Maint y Risgiau a Ddaw o Offerynnau Ariannol**

### 32.1 **Risgiau Allweddol**

Mae gweithgareddau'r Cyngor yn arwain at amryw o risgiau ariannol, a'r risgiau allweddol yw:

Risg credyd – y posibilrwydd y bydd partïon eraill yn methu â thalu'r symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor;

Risg Diddymu – y posibilrwydd na fydd cyllid ar gael gan y Cyngor i fodloni ei ymrwymadau i wneud taliadau;

Risg ail gyllido – y posibilrwydd y bydd y Cyngor angen adnewyddu offeryn ariannol wedi iddo aeddfedu, ar gyfradd llog neu amodau anfanteisiol;

Risg Marchnad – y posibilrwydd y bydd colled ariannol i'r Cyngor o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau, fel newidiadau mewn cyfraddau llog;

#### **Trefnau Cyffredinol ar gyfer Rheoli Risg**

Mae trefnau rheoli risg cyffredinol y Cyngor yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy'r marchnadoedd ariannol, a gweithredu amodau i leihau'r risgiau hyn. Mae'r trefnau ar gyfer rheoli risg wedi'u nodi mewn fframwaith cyfreithiol a nodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol 2003 a'r rheoliadau cysylltiol. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â Chod Darbodus CIPFA, Rheoli Trysorlys CIPFA yn y Cod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Canllawiau Buddsoddi a gyflwynwyd trwy'r Ddeddf. Yn gyffredinol, mae'r trefnau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor reoli risg yn y ffyrdd canlynol:

- Trwy fabwysiadu gofynion y Cod Ymarfer yn ffurfiol
- Trwy gymeradwyo'r dangosyddion darbodus bob blwyddyn, ymlaen llaw ar gyfer y tair blynedd ganlynol
- Trwy gymeradwyo strategaeth fuddsoddi ar gyfer y flwyddyn ganlynol gan nodi'r meini prawf ar gyfer buddsoddi a dewis y cymheiriaid buddsoddi gan gydymffurfio â Chanllawiau'r Llywodraeth.

### 32.2 **Perygl Risg Credyd**

Mae risg credyd yn deillio o arian a dalwyd i fanciau a sefydliadau ariannol, yn ogystal â thrafodion credyd i gwsmeriaid y Cyngor.

Lleihawyd y risg trwy'r Strategaeth Buddsoddi Blynnyddol, sy'n mynnu nad yw arian yn cael ei fuddsoddi mewn sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn ateb naill ai lleiafswm meini prawf credyd a nodwyd, yn unol â Fitch, Moody's and Standard & Poor's Ratings Services neu fod rhaid i gymdeithasau adeiladu fod a thros £500m o asedau. Mae'r Strategaeth Buddsoddi Blynnyddol, hefyd yn gosod uchafswm a therfynau amser i fuddsoddi gyda sefydliad ariannol ym mhob categori. Nid yw arian yn cael ei fuddsoddi mewn banciau na sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn ateb y lleiafswm gofynion buddsoddi a nodwyd uchod.

Mae'r dadansoddiad canlynol yn crynhoi'r perygl mwyaf posibl i'r Awdurdod oherwydd risg credyd, yn seiliedig ar brofiad diffyg dalu a'r methiant i gasglu dyledion yn ystod y pum mlynedd ariannol ddiwethaf, sydd wedi'u haddasu i adlewyrchu amodau presennol y farchnad.

		<b>Y swm ar 31 Mawrth 2010</b>	<b>Profiad Hanesyddol o Ddiffyg</b>	<b>Addasu ar gyfer sefyllfa'r farchnad ar 31 Mawrth 2009</b>	<b>Amcangyfrif o'r Uchafswm Risg Diffyg a methu â chasglu</b>
		<b>£'000</b>	<b>%</b>	<b>%</b>	<b>£</b>
Buddsoddi mewn banciau a sefydliadau ariannol a gymeradwywyd	-AAA	0	0.00	0.00	0
	-AA	8,346	0.03	0.03	2,504
	-A	2,010	0.08	0.08	1,608
	-BBB	4,000	0.24	0.24	9,600
Cymdeithasau Adeiladu gyda thros £1bn o asedau		3,000	1.22	1.22	36,600
Cymdeithasau adeiladu gyda thros £500m o asedau		0	0	0	0
Dyledwyr Masnachol		6,916	0	0	0

Ni thorwyd meini prawf cymheiriad y Cyngor yn ystod y cyfnod rhoi gwybod ac nid yw'r Cyngor yn disgwyl dioddef unrhyw golled oherwydd diffyg perfformiad unrhyw un o'i gymheiriad mewn perthynas ag arian a bondiau.

Er bod yr argyfwng credyd presennol yn y marchnadoedd rhyngwladol wedi codi'r posibilrwydd cyffredinol o ddiffyg dalu, mae'r Cyngor yn parhau i sefydlu meini prawf credyd caeth ar gyfer cymheiriad buddsoddi.

Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio sefydliadau heb gyfradd statws credyd (er enghraifft, is-gwmnïau cymdeithasau adeiladu neu fanciau llai pan mae gan y sefydliad Rhiant gyfradd foddhaol). Yn yr amgylchiadau hyn mae'r buddsoddiadau wedi'u nodi fel cymheiriad eraill.

Gellir dadansoddi dyledwyr masnach y Cyngor, yn ôl oed fel a ganlyn:

	<b>31 Mawrth 2010 £'000</b>	<b>31 Mawrth 2009 £'000</b>
Ddim yn ddyledus eto	3,314	3,046
Dau i dri mis (gorddyledus)	838	816
Tri i chwe mis (gorddyledus)	728	296
Chwe mis i flwyddyn (gorddyledus)	589	643
Mwy na blwyddyn (gorddyledus)	1,447	1,298
Cyfanswm	6,916	6,099

### 32.3 Risg Diddymu

Mae'r Cyngor yn rheoli ei sefyllfa ddiddymu gyda'r trefnau rheoli risg uchod (sefydlu a chymeradwyo dangosyddion darbodus a chymeradwyo adroddiadau strategaeth trysorlys a buddsoddi), yn ogystal â thrwy system reoli llif arian

gynhwysfawr, fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer. Nod hyn yw sicrhau bod arian ar gael pan fydd ei angen.

Mae gan y Cyngor fynediad parod at fenthyciadau o'r Marchnadoedd Arian ar gyfer unrhyw arian sydd ei angen o ddydd i ddydd, ac er bod y PWLB yn rhoi mynediad at gyllid tymor hir, mae hefyd yn gweithredu fel benthyciwr fel y gobaith olaf i gynghorau (er na fydd yn rhoi arian i gynghorau sy'n gweithredu yn anghyfreithlon). Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd ddarparu cyllideb gytbwys yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, sy'n sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer gwariant blyneddol. Felly, nid oes unrhyw risg sylweddol na fydd yn gallu cael arian i ddiwallu ei ymrwymadau dan offerynnau ariannol.

### 32.4 Risg Ail Gyllido ac Aeddfedwydd

Mae gan y Cyngor bortffolio dyledion a buddsoddiadau sylweddol. Er bod y trefnau llif arian uchod yn cael eu hystyried yn erbyn y trefnau risg ail gyllido, mae'r risg tymor hir i'r Cyngor yn ymwneud â rheoli'r perygl o ddisodli offerynnau ariannol wrth iddynt aeddfedu. Mae'r risg yn ymwneud ag atebolrwydd ariannol tymor hir sy'n aeddfedu ac asedau ariannol tymor hir.

Y terfynau dangosyddion darbodus a gymeradwywyd ar gyfer strwythur aeddfedu dyledion a'r cyfyngiadau a roddwyd ar fuddsoddiadau am gyfnod hirach na blwyddyn yw'r paramedrau allweddol sy'n cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r risg hon. Mae strategaethau trysorlys a buddsoddiadau cymeradwy'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r prif risgiau ac mae'r tîm trysorlys canolog yn mynd i'r afael â'r risgiau gweithredol o fewn y paramedrau a gymeradwywyd. Mae hyn yn cynnwys:

- monitro proffil aeddfedwydd atebolrwydd ariannol a diwygio'r proffil naill ai trwy fenthyciadau newydd neu aildrefnu'r ddyled bresennol;
- monitro proffil aeddfedwydd y buddsoddiadau i wneud yn siŵr bod digon o hylifedd ar gael ar gyfer anghenion llif arian y Cyngor o ddydd i ddydd, a bod taeniad y buddsoddiadau tymor hir yn rhoi sefydlogrwydd ac enillion o ran yr anghenion llif arian tymor hir.

Er mwyn adlewyrchu gwerth amorteiddio Atebolrwydd Ariannol: mae'r llog cronedig ar fenthyciadau, newidiadau llog ar gyfer benthyciad llog grisiog ac addasiadau benthyciadau sy'n addasu ar gyfer premiwm a disgownt wedi'u cynnwys. Mae'r tabl isod yn dangos symiau'r addasiadau hyn.

	<b>2009/10 £'000</b>	<b>2008/09 £'000</b>
Atebolrwydd Ariannol Tymor Hir: Benthyc	103,142	114,397
Llai Croniad Llog PWLB	(664)	(761)
Croniad Llog Benthyciadau Marchnad	(162)	(151)
Newid yng nghyfradd llog effeithiol y Benthyciad Grisiog	(157)	(157)
Newid disgownt y benthyciad a addaswyd	0	(270)
Ychwanegu newid Premiwm i'r benthyciad a addaswyd	709	816
<b>Dyled sy'n Ddyledus</b>	<b>102,868</b>	<b>113,874</b>

Mae'r ddyled Tymor Hir sy'n ddyledus wedi'i dadansoddi isod:

Ffynhonnell y Benthyciad	2009/10 Ystod Cyfradd Llog %	Balans sy'n ddyledus	
		31 Mawrth 2010	31 Mawrth 2009
		£'000	£'000
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus	4.55 - 9.50	64,868	82,874
Europaische Hypo Bank	4.32 - 4.625	21,000	21,000
Banc Barclays	4.90 - 4.95	10,000	10,000
Cyngor Dinas Caerlyr	0.3	2,000	0
Cyngor Dinas Caergrawnt	0.35	2,000	0
Heddlu Gwent	0.3	3,000	0
<b>Cyfanswm</b>		<b>102,868</b>	<b>113,874</b>

Proffil Aeddfedrwydd	31 Mawrth 2010	31 Mawrth 2009
	£'000	£'000
Llai na blwyddyn	7,000	18,005
Rhwng 1 – 2 flynedd	0	0
Rhwng 2 – 5 mlynedd	0	0
Rhwng 5 – 10 mlynedd	0	0
Dros 10 mlynedd	95,868	95,869
<b>Cyfanswm</b>	<b>102,868</b>	<b>113,874</b>

Datganiad gwerth teg Benthycia Tymor Hir:

	31 Mawrth 2010		31 Mawrth 2009	
	Swm i'w Gario	Gwerth Teg	Swm i'w Gario	Gwerth Teg
	£'000	£'000	£'000	£'000
Dyled PWLB	64,868	88,637	82,874	109,734
Dyled nad yw'n berthnasol i PWLB	31,000	33,487	31,000	34,452

Mae'r swm i'w gario fel y nodwyd yn y Fantolen, gan gynrychioli gwir ddyled yr Awdurdod o ran y ddyled sy'n ddyledus, a llog ac addasiadau eraill fel y nodwyd uchod. Penderfynwyd ar werth teg yr atebolrwydd ariannol trwy gyfeirio at reolau adbrynu'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a chyfraddau adbrynu cyfredol PWLB ar ddyddiad pob mantolen, a chynnwys y llog cronedig. Cyfrifwyd gwerth teg y ddyled nad yw'n ddyled PWLB hefyd trwy ddefnyddio'r un drefn a chyfraddau llog ac mae hyn yn rhoi amcan da ar gyfer gwerth teg yr offerynnau hyn.



Mae'r holl fuddsoddiadau isod, yn fuddsoddiadau a gymeradwywyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ac yn cydymffurfio â Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd ar 1 Ebrill 2004. Mae'r buddsoddiadau gyda'r sefydliadau canlynol: -

<b>Asedau Ariannol - Buddsoddiadau</b>	<b>31 Mawrth 2010 £'000</b>	<b>31 Mawrth 2009 £'000</b>
<b><u>Tymor Hir</u></b>		
3½% Stoc Rhyfel	1	1
Cymdeithas Adeiladu Chelsea	0	1,051
Is gyfanswm	1	1,052
<b><u>Tymor Byr</u></b>		
Sefydliadau Ariannol a aseswyd	14,456	26,812
Cymdeithasau adeiladu gyda thros £500 miliwn o asedau	3,000	8,091
<b>Cyfanswm</b>	<b>17,457</b>	<b>35,955</b>

Mae dadansoddiad aeddfedrwydd asedau ariannol fel a ganlyn:

	<b>31 Mawrth 2010 £'000</b>	<b>31 Mawrth 2009 £'000</b>
Llai na blwyddyn	17,456	34,903
Rhwng un flwyddyn a dwy flynedd	0	1,051
Rhwng dwy a thair blynedd	0	0
Mwy na tair blynedd	1	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>17,457</b>	<b>35,955</b>

Bydd pob eitem fasnach ac eitemau eraill (wedi'u nodi yn dechnegol fel offerynnau ariannol) sy'n daladwy yn cael eu talu mewn llai na blwyddyn ac nid ydynt yn cael eu dangos yn y tabl uchod.

## 32.5 **Risg Marchnad**

32.5.1 **Risg Cyfradd Llog** – Mae'r Cyngor yn agored i newidiadau mewn cyfraddau llog ar fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae newidiadau cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar y Cyngor, yn dibynnu ar sut y mae cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn symud yn ystod cyfnodau ariannol. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn cael yr effaith ganlynol:

- benthyciad ar gyfraddau amrywiol – bydd y llog ar y Cyfrif Incwm a Gwariant yn codi;
- benthyciad ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y benthyciad yn syrthio;
- buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm llog sy'n cael ei dalu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn codi; a
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn syrthio.

Byddai effaith gostyngiad mewn cyfraddau llog fel uchod ond gyda'r symudiadau i'r gwrthwyneb.

32.5.2 **Risg Pris** - Nid yw'r Cyngor yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti neu fondiau y gellir eu marchnata felly nid oes risg y bydd buddsoddiadau yn colli gwerth oherwydd cwmp ym mhrisiau'r farchnad stoc.

32.5.3 **Risg Cyfnewidfa Dramor** – Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau ariannol neu atebolrwydd mewn arian tramor. Felly, nid oes unrhyw berygl o golli arian oherwydd newidiadau mewn cyfraddau newid arian tramor.

## Nodiadau ar y Datganiad Ynglŷn â Llif Arian

### 33. Cysoni i'r Cyfrif Incwm a Gwariant

	2009/10	2008/09 a ail nodwyd
	£'000	£'000
Mewnlif Arian Net Gweithgareddau Refeniw	(10,871)	(36,575)
<b><u>SYMUDIAD NAD YW'N YMWNEUD AG ARIAN AR Y CYFRIF REFENIW</u></b>		
Gostyngiad/(Cynnydd) mewn Stoc	(60)	215
Gostyngiad/(Cynnydd) yn y Dyledwyr /Taliadau Ymlaen Llaw	(4,402)	(2,436)
Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Credydwyr / Derbynebaw Ymlaen Llaw	181	(453)
Dibrisiad / Amhariad	42,024	160,348
Grantiau'r Llywodraeth a Ohiriwyd/Dim grantiau gwario gwerth ychwanegol i'w gwario	(3,425)	(6,939)
Gwariant refeniw a ariannwyd o gyfalaf dan statud	1,538	2,694
Addasiad Pensiwn FRS17	216	(964)
Cyfraniad i'r/(o'r) ddarpariaeth	2,971	(1,393)
Cyfraniad i'r/(o'r) ddarpariaeth dyledion gwael	(422)	446
(Ennill)/colli gwerthu asedau sefydlog	495	(762)
Rhwymedigaeth Gohiriedig	(1,071)	(947)
Cronfeydd i ariannu net cyfalaf y cronriad	517	27,585
Symudiadau dyledwyr grantiau cyfalaf	(1,345)	1,166
Symudiadau cyfraniadau a grantiau cyfalaf	1,874	(1,321)
Premiwm/gostyngiadau i refeniw	(316)	15
Costau ariannol IFRS	(53)	105
Gwariant cyfalaf a ariannwyd o gyfraniad refeniw	(677)	(1,779)
Diffyg/gweddill HRA	(18)	0
Cyfraniad i'r cronfeydd	(5,397)	(8,877)
Cyfraniad o'r cronfeydd	5,349	8,860
Trosglwyddo stoc dyled a ad-dalwyd	0	(25,799)
<b><u>EITEMAU A DDOSBARTHWYD AR WAHÂN YN Y DATGANIAD LLIF ARIAN</u></b>		
Llog a Dalwyd	5,738	6,984
Llog a Dderbyniwyd	(1,061)	(3,306)
Cynnydd/(Gostyngiad) Net mewn Adnoddau Hylifol Eraill (NNDR)	1,107	1,289
<b><u>DIFFYG AR Y CYFRIF REFENIW</u></b>	<b>32,892</b>	<b>118,156</b>

34. **Cysoni Symudiad Arian a Phethau Cyfwerth ag Arian**

	<b>Balans ar 31 Mawrth 2010 £'000</b>	<b>Balans ar 31 Mawrth 2009 £'000</b>	<b>Symudiadau yn ystod y Flwyddyn £'000</b>
Gorddrafft Banc	(3,910)	(3,408)	(502)
Arian mewn llawn	641	479	162
<b>Cynnydd mewn Arian a Phethau Cyfwerth ag arian</b>	<b>(3,269)</b>	<b>(2,929)</b>	<b>(340)</b>

**Cysoni Symudiad mewn Arian Parod i'r Symudiad mewn Dyled Net**

	<b>Balans ar 31 Mawrth 2009 £'000</b>	<b>Llif Arian Net £'000</b>	<b>Balans ar 31 Mawrth 2010 £'000</b>
Balansau arian parod	(2,929)	(340)	(3,269)
Buddsoddiadau Tymor Byr	34,903	(17,447)	17,456
Dyled sy'n Ddyledus o fewn un Flwyddyn	(18,005)	11,005	(7,000)
Dyled sy'n Ddyledus ar ôl un Flwyddyn	(95,868)	0	(95,868)
	<b>(81,899)</b>	<b>(6,782)</b>	<b>(88,681)</b>

35. **Grantiau'r Llywodraeth**

Derbyniodd yr Awdurdod £112.3m o Grant Cynnal Refeniw o Gynulliad Cymru ar gyfer 2009/10 (2008/09 - £111.3m).

Dyma'r grantiau mawr penodol a dderbyniwyd:

	2009/10 £'000	2008/09 £'000
<b><u>Refeniw</u></b>		
<b>Llywodraeth Cynulliad Cymru:</b>		
Cronfa Gwella Ysgolion 2008-09	857	832
Taliadau Gostyngol	2,521	2,564
Cymorth – Cronfa Cefnogi Plant a Phobl Ifanc	1,606	1,591
Grant Amddifadedd	174	174
Codi Tâl Tecach (Gwasanaethau Cymdeithasol)	690	623
Grant Refeniw Dechrau'n Deg	882	846
Gweithredu Strategaeth Pobl Hŷn	79	113
LABGI	0	74
Gwasanaethau Cludiant Lleol	396	412
Grant Strategaeth Anabledd Meddyliol	1,804	1,795
Cynllun Grant Gofalwyr Iechyd Meddwl	191	192
Cronfa Datblygu Rheoli Perfformiad	227	216
Grant Cymhelidal Perfformiad/Grant Cytundeb Gwella	1,184	1,189
Cynllun Ariannu Preifat	5,528	5,685
Darpariaeth Ôl 16 oed mewn Ysgolion	4,502	4,338
Grant Arbennig I Ysgolion	345	342
Rhaglen Datblygu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol	349	348
Cefnogi Pobl	7,148	6,659
Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy	2,339	1,197
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid	535	494
DWP – Grant Budd-daliadau Tai	36,317	33,561
Grant Cydweithio	407	407
Hyrwyddo Annibyniaeth a Lles	210	215
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>68,291</b>	<b>63,867</b>
<b><u>Cyfalaf</u></b>		
<b>Llywodraeth Cynulliad Cymru:</b>		
Grant Cyfalaf Cyffredinol	2,242	2,234
Grant Gwella Adeiladau Ysgolion	4,489	6,026
Lwfansau Atgyweiriadau Mawr	0	1,289
Grant Cyfalaf Penodol	400	500
Pecyn Conwy (Cynlluniau Cludiant)	1,568	1,880
Grant Cynnal Ffyrdd Lleol	649	659
Dechrau'n Deg	233	234
Offer Teleofal	0	285
Cynlluniau Iliniaru Ilifogydd	495	662
Cynllun Compostio	651	492
Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy	23	508
Gwella Strydwedd	538	568
Ardal Adfywio Strategol	904	0
Cronfa Weithredu Camddefnyddio Sylweddau	1,232	0
Cynllun Storfeydd Offer Cymunedol	519	0
Grantiau LICC Eraill	74	113
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	149	0
<b>Arall</b>		
Cronfa Treftadaeth y Loteri	99	90
Cymal	0	100
Grant ERDF/Pysgodfeydd	214	1,436
Amrywiol	286	15
Undeb Rygbi Cymru	150	0
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>14,915</b>	<b>17,091</b>

36. **Rhwymedigaeth Amodol**

**Municipal Mutual Insurance (MMI)**

Rhoddodd MMI y gorau i warantu busnes yswiriant ar 30 Medi 1992. Er mwyn sicrhau rhediad olaf trefnus sefydlwyd Trefniant Cynllun a ddaeth i rym ar 21 Ionawr 1994. Os ddaw'n glir nad yw'n debygol bydd rhediad olaf diddyled yn cael ei gyflawni yna daw'r Cynllun i effaith.

Caiff atebolrwydd gros yr Awdurdod ei amcangyfrif fel oddeutu £67,331 ac amcangyfrifir y ffigwr net, ar ôl adferiad oddi wrth y Cynllun lawndal Gwasanaethau Ariannol, fel oddeutu £47,908.

37. **Digwyddiad Ar Ôl y Fantolen**

Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys yn ei Gyllideb Frys ar 22 Mehefin 2010 mai'r mynegai prisiau defnyddwyr yn hytrach na'r mynegai prisiau manwerthu fydd y sail ar gyfer cynyddu pensiynau sector cyhoeddus yn y dyfodol. Yn unol â pharagraff 21 Safon Adrodd Ariannol 21 (Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen), ystyrir bod y newid hwn yn ddigwyddiad ar ôl y fantolen nad yw'n addasu. Amcangyfrifir bydd y newid hwn yn lleihau gwerth rhwymedigaethau FRS17 cyflogwr cyffredin yng Nghronfa Bensiynau Gwynedd o tua 6-8%. Mae'r amcangyfrif hwn wedi'i seilio ar gyflogwr gyda phroffil aelodaeth "nodweddiadol".

Byddai'r effaith ar y rhwymedigaeth net yn ostyngiad o rwng £11.718m a £15.624m ac ar y rhwymedigaeth gros byddai gostyngiad o rwng £27,698m a £36.931m. Mae'r effaith ar y Gronfa Bensiynau yn gyfartal â'r rhwymedigaeth net.

**CYFRIF REFENIW TAI**  
**INCWM A GWARIANT**

	2009/10	2008/09
	£'000	£'000
<b>Incwm</b>		
Rhent anheddau	0	(5,233)
Rhent heblaw anheddau	0	(110)
Tal am wasanaethau a chyfleusterau	0	(35)
<b>Gwariant</b>		
Atgyweirio a chynnal a chadw	0	1,344
Goruchwyllo a Rheoli	0	1,345
Rhenti, Trethi a Thaliadau eraill	0	243
Cyfrif Refeniw Tai – sybsidi'n daladwy	0	1,321
Dibrisiant ac amhariad asedau sefydlog	0	7,239
Grantiau'r Llywodraeth a ryddhawyd	0	(1,209)
Gwariant Cyfalaf a Gyllidir o Gyfalaf o dan Statud	0	1,444
Costau Rheoli Dyledion	0	16
Cynnydd yn narpariaeth dyled wael	0	0
Eitem Eithriadol (Nodyn 1)	0	112,754
<b>Cost net Gwasanaethau CRT fel y cafodd ei chynnwys yng Nghyfrif Incwm a Gwariant yr Awdurdod Cyfan</b>	<b>0</b>	<b>119,119</b>
<b>Cost net Gwasanaethau CRT fel yng Nghyfrif Incwm a Gwariant yr Awdurdod</b>	<b>0</b>	<b>119,119</b>
Elw o werthu asedau sefydlog y CRT	0	(696)
Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg	0	690
Amorteiddiad o premiymau a disgowntiau	0	163
Incwm buddsoddi CRT gan gynnwys llog morgeisi a llog ar falansau arian tybiannol	0	(51)
<b>Diffyg ar Wasanaethau CRT am y flwyddyn</b>	<b>0</b>	<b>119,225</b>

## **Datganiad ar Symudiadau Balans y Cyfrif Refeniw Tai**

	<b>2009/10</b>	<b>2008/09</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Ddiffyg am y flwyddyn ar gyfrif Incwm a Gwariant y CRT	0	119,225
Y swm ychwanegol Net y mae'n ofynnol ei ddebydu neu (gredydu) i falans y CRT am y flwyddyn	0	(117,273)
<b>(Cynnydd) neu Ostyngiad ym Malans y Cyfrif Refeniw Tai</b>	<b>0</b>	<b>1,952</b>
Gweddill y Cyfrif Refeniw Tai a ddygwyd ymlaen	(189)	(2,141)
Gweddill y Cyfrif Refeniw Tai a ddygwyd ymlaen	(189)	(189)

### **Nodyn ar y Datganiad o Symudiad ar falans yr HRA**

	<b>2009/10</b>		<b>2008/09</b>	
	<b>£'000</b>		<b>£'000</b>	
<b>Eitemau a gafodd eu cynnwys yng Nghyfrif Incwm a Gwariant y CRT ond a eithriwyd o'r symudiad ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai am y flwyddyn</b>				
Dyled a ad-dalwyd gan LICC ar ôl Trosglwyddo Stoc	0		25,799	
Y gwahaniaeth rhwng symiau incwm a gwariant ar gyfer amorteiddiad premiymau a gostyngiadau a'r gost ar gyfer y flwyddyn a bennwyd gyda statud	0		(23)	
Y gwahaniaeth rhwng unrhyw eitem arall o incwm a gwariant a bennwyd yn unol â'r SORP ac a bennwyd yn unol â gofynion statudol CRT (benthyciadau grisiog)	0		0	
Dibrisiad ac amhariad ar asedau sefydlog	0		(145,792)	
Elw o werthu asedau sefydlog CRT	0		696	
Amorteiddiad Grantiau'r Llywodraeth a ohiriwyd sy'n cyfateb i ddibrisiad ac amhariad	0		1,209	
Y symiau a ystyriwyd fel gwariant refeniw yn unol â SORP ond sydd yn dod dan ddsbarthiad gwariant cyfalaf yn ôl statud (h.y. Gwariant Cyfalaf a Gyllidir o Gyfalaf o dan Statud)	0		(1,444)	
Costau Net ar gyfer budd-daliadau ymddeoliad yn unol â FRS 17	0	<b>0</b>	(142)	<b>(119,697)</b>
<b>Eitemau na chafodd eu cynnwys yng Nghyfrif Incwm a Gwariant y CRT ond a eithriwyd o'r symudiad ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai am y flwyddyn</b>				
Darpariaeth Refeniw	0		103	
Gwariant Cyfalaf a gyllidwyd gan y CRT	0		150	
Cyfraniad Cyflogwr i Gronfeydd Pensiwn Gwynedd a Sir Fflint a budd-daliadau ymddeoliad a delir yn uniongyrchol i bensiynwyr	0		2,003	
Cyfraniad i gronfa wrth gefn	0	<b>0</b>	168	<b>2,424</b>
<b>Y swm ychwanegol Net y mae'n ofynnol ei ddebydu neu (gredydu) i falans y Cyfrif Refeniw Tai am y flwyddyn.</b>		<b>0</b>		<b>(117,273)</b>



## **CRONFA'R DEGWM**

### **DATGANIAD CYFRIFON 2009/10**

#### **Rhagair eglurhaol**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am Gronfa'r Degwm yn rhinwedd adran 50 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Gorchymyn (Dynodi a Manylu) Cronfeydd Degwm 1996(b)).

Y Cyngor yw ymddiriedolwr corfforaethol nawdd Cronfa'r Degwm yn ardal Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n dal rhywfaint o nawdd a pharsel o dir a wahanwyd o gronfa Clwyd adeg ad-drefnu 1996. Hefyd, mae ganddo ran o Gronfa Gwynedd, y disgwylir iddi ddadelfennu yn y dyfodol.

Mae Gwynedd yn gweithredu fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer Cronfa'r Degwm ac mae'n paratoi cyfrifon i'w cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau. Pan gaiff gronfa Gwynedd ei gwahanu, bydd disgwyl i Gonwy gofrestru ei gronfa fel elusen a pharatoi cyfrifon yn unol â Datganiad o Ymarfer a Argymhellir y Comisiwn Elusennau.

#### **Polisiâu Cyfrifo**

Y polisiâu Cyfrifo a ddilynrir yw'r rheiny sydd wedi eu hamlinellu ar dudalennau 41 i 48, sy'n berthnasol i'r eitemau yng Nghyfrifon Cronfa'r Degwm. Hefyd mae'r cyfrifon yn dilyn Datganiad Ymarferiad Cymeradwyedig y Comisiwn Elusennau.

Y brif egwyddor gyfrifo sy'n berthnasol i'r cyfrifon hyn yw'r egwyddor groniadau, sy'n galw am gynnwys dyledwyr a chredydwyr yn y cyfrifon

Mae'r tir sy'n berchen i ran Conwy o'r Gronfa yn cael ei brisio ar ochr is cost amnewid gyfredol net a gwerth sylweddoladwy.

## CYFRIF INCWM A GWARIANT

	Nodiadau	2009/10 £		2008/09 £	
<b>ADNODDAU SY'N CODI</b>					
Rhent Tir	1	786		772	
Llog Buddsoddi	2	7,054		13,861	
Tynnu Ffioedd Rheolwyr y Gronfa	2	(130)		(170)	
			7,710		14,463
<b>DEFNYDD O ADNODDAU</b>					
Ffioedd a Gwariant	3	(221)		(234)	
Dyraniadau	4	(9,595)	(9,816)	(12,205)	(12,439)
Enillion (Colledion) a Wireddwyd ar Warediadau Buddsoddi			(2,106)		2,024
Enillion (Colledion) na Wireddwyd ar Werthoedd Buddsoddi			8		530
<b>Adnoddau a Gadwyd (Diffyg) ar gyfer y Dyfodol</b>			(2,153)		(3,482)
<b>Resources Retained (Shortfall) for Future Use</b>			<b>(4,251)</b>		<b>(928)</b>
Adnoddau a Ddygwyd Ymlaen			289,894		290,822
Adnoddau a Gariwyd Ymlaen			285,643		289,894
<b>Symudiad yn y Flwyddyn</b>			<b>(4,251)</b>		<b>(928)</b>

## MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2010

	Nodiadau	31 Mawrth 2010 £		31 Mawrth 2009 £	
<b>ASEDAU SEFYDLOG</b>					
Tir	1	15,333		15,333	
Buddsoddiadau	2	77,426		78,915	
			92,759		94,248
<b>ASEDAU CYFREDOL</b>					
Dyledwyr (dosraniad 2008/09 yn ddyladwy gan Gyngor Gwynedd)	3	6,513		10,905	
Arian Parod	2	68,536		66,250	
Asedau Cyfredol (yn nwylo Cyngor Gwynedd)	2	126,539		129,754	
			201,588		206,909
<b>ATEBOLRWYDD CYFREDOL</b>					
Credydwyr	3		(8,704)		(11,263)
Asedau Net			285,643		289,894
<b>BALANS Y GRONFA</b>			<b>285,643</b>		<b>289,894</b>

## **NODIADAU CYFRIFON CRONFA'R DEGWM**

### **Cyfrif Incwm a Gwariant**

#### **Nodyn 1**

Roedd rhent o dir a oedd yn cael ei weinyddu gan Gonwy yn dod i gyfanswm o £786 (£772 yn 2008/09). Mae gan Gonwy hawl i gael 17.810244% o rent o dir sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd, £250 oedd y swm ar gyfer 2009/10. (£250 ar gyfer 2008/09).

#### **Nodyn 2**

Prif ffynhonnell incwm yw incwm buddsoddiad o asedau a weinyddwyd gan Wynedd ar ran y gronfa, roedd hyn yn dod i gyfanswm o £6,513 (£10,905 yn 2008/09). Mae incwm y prif gronfa yn cael ei ddosrannu ar sail canran, ac mae gan Gonwy hawl i gael 17.810244%. Mae Conwy yn cadw arian ar ran y gronfa ac yn talu llog ar falans y gronfa a ddaeth i £411. (£2,787 yn 2008/09). Y gyfradd llog a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo yw cyfartaledd cyfradd libor 7 ar gyfer y misoedd rhwng Ebrill a Mawrth.

Mae incwm buddsoddiad wedi dirywio eleni oherwydd fod cyfraddau llog wedi syrthio, ac os bydd y duedd hon yn parhau bydd dirywiad yn y cyllid sydd ar gael i'w dosbarthu yn y dyfodol.

#### **Nodyn 3**

Bydd hysbysebion yn cael eu rhoi yn y papurau newydd lleol i wella ymwybyddiaeth o'r gronfa. Codir tâl ar y Gronfa am y costau hysbysebu, £221 (£234 yn 2008/09), yn unol â rheolau'r cynllun.

#### **Nodyn 4**

Dan ddarpariaethau Cronfa'r Degwm, mae Conwy yn dyrannu grantiau i amrywiol sefydliadau. Y swm oedd ar gael i'w ddyrannu yn 2009/10 oedd £22,328 (£32,557 yn 2008/09) a chafodd £9,595 eu dyrannu (£12,205 yn 2008/09). Mae'r balans oedd ar gael i'w ddyrannu yn 2009/10 wedi'i gario ymlaen i'w ddyrannu yn 2010/11.

## **Mantolen**

### **Nodyn 1**

Gwerth y tir a ddelir ar ran y gronfa gan Gonwy yw £10,676 (£10,676 yn 2008/09) a rhan Conwy o'r tir sy'n cael ei ddal yn y brif gronfa yw £4,657 (£4,657 yn 2008/09).

### **Nodyn 2**

Mae'r buddsoddiadau sy'n cael eu dal yn y brif gronfa yn bennaf mewn Ecwiti Deyrnas Unedig, £434,725 (£4443,087 yn 2008/09), ac mae Conwy yn cael 17.810244% o'r swm hwnnw. Mae balans y prif gronfa yn cael ei ddal fel taliadau ariannol ac mae llog yn cronni ar y swm. Yn 2009/10, daeth y swm i £700,358 (£661,809 yn 2008/09) ac mae hyn yn cael ei gynnwys yn ffigwr yr asedau cyfredol ynghyd â Dyledwyr oedd yn dod i £10,122 (£66,721 yn 2008/09). O'r swm hwn mae Conwy yn cael 17.810244% wedi'i ddyrannu. Roedd y swm ariannol yr oedd Conwy yn ei ddal yn 2009/10 yn dod i £68,536 (£66,250 yn 2008/09).

### **Nodyn 3**

Mae'r swm i'w ddyrannu gan Wynedd ar gyfer 2009/10 yn cael ei ddangos fel dyledwr ar y fantolen. Y swm credydwr a ddangosir ar y fantolen yw cyfran Conwy o greddydwyr y prif gronfa.

# **YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG LLANRWST**

## **Datganiad Cyfrifon 2009/10**

### **Rhagair esboniadol**

Yn 2009/10, y Cyngor oedd Ymddiriedolwr Ceidwad y gronfa hon.

### **Polisiau Cyfrifo**

Ceir manylion am y polisiau cyfrifo ar dudalennau 41 i 48, sy'n berthnasol i eitemau yn y Cyfrifon. Mae'r Cyfrifon hefyd yn dilyn Datganiad a Argymhellwyd gan y Comisiwn Elusennau.

Y prif egwyddor sy'n berthnasol i'r cyfrifon hyn yw'r egwyddor croniad sy'n nodi bod rhaid cynnwys debydwyr a chredydwy'r yn y cyfrifon.

**CYFRIF INCWM A GWARIANT AR GYFER Y FLWYDDYN A  
DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2010**

	Nodiadau	2009/10 £		2008/09 £	
<b>ADNODDAU’N CODI</b>					
Rhoddion		1,250		2,000	
Llog ar Fuddsoddiadau		4,944		35,133	
Llai Gwariant		(13,507)		(31,126)	
			(7,313)		6,007
Adnoddau a ddygwyd ymlaen			916,589		910,582
Adnoddau a gariwyd ymlaen			909,276		916,589
<b>Symudiad yn y flwyddyn</b>			<b>(7,313)</b>		<b>6,007</b>

**TAFLEN FALANS AR 31 MAWRTH 2010**

	Nodiadau	31 Mawrth 2010 £	31 Mawrth 2009 £
Asedau cyfredol			
Buddsoddiadau	1	909,276	916,589
Atebolrwydd Cyfredol		0	0
<b>Balans y Gronfa</b>		<b>909,276</b>	<b>916,589</b>

**Nodyn 1**

Mae'r Gronfa Arian yn cael ei buddsoddi gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn ennill llog, y gyfradd a ddefnyddir yw cyfartaledd cyfradd LIBOR 7 diwrnod am y misoedd perthnasol.